

MENYWOD

GRYM A

GWLEIDYDDIAETH

**BETH SYDD WEDI NEWID
MEWN CAN MLYNEDD?**

#MenywodGrymGwleidyddiaeth

RHAGAIR

Mae'n rhyfeddol meddwl, gan mlynedd yn ôl yn unig, nad oedd gan yr un fenyw yng ngwledydd Prydain (ochr yn ochr â llawer o wledydd ledled y byd) gyfle i bleidleisio dros yr unigolion a oedd yn gwneud penderfyniadau a fyddai'n effeithio ar eu bywydau, heb sôn am gael bod yn rhan uniongyrchol o wleidyddiaeth a deddfwriaeth fel Aelod Seneddol.

Ganrif yn ddiweddarach, yn 2018, mae'n briodol edrych yn ôl ar y cynnydd o ran cynrychiolaeth gyfartal a sut mae grym gwleidyddol wedi'i rannu'n well rhwng dynion a menywod. Mewn rhai ffyrdd, mae rôl menywod mewn gwleidyddiaeth wedi'i normaleiddio yng ngwledydd Prydain erbyn hyn. Mae dwy fenyw wedi bod yn Brif Weinidog ar y Deyrnas Unedig, mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi bod â phrif weinidog benywaidd, ac mae menywod mewn swyddi dylanwadol fel Gweinidogion a Chadeiryddion Pwyllgorau Seneddol. Maent hefyd yn bwysig fel arweinwyr pleidiau gwleidyddol, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau Seneddol a chynghorwyr lleol benywaidd, yn enwedig dros y 30 mlynedd diwethaf.

Mae gweithredu ar y cyd gan fenywod, newidiadau i reolau a gweithdrefnau sefydliadol, dylanwad menywod sy'n arwain yn wleidyddol ac yn gymdeithasol a'r diwylliant gwleidyddol sy'n newid, oll yn ddarnau pwysig o hanes y ffordd mae gwleidyddiaeth wedi newid ac wedi galluogi cyfranogiad menywod. Mewn cyd-destun rhyngwladol, mae gwledydd Prydain wedi dylanwadu a chael eu dylanwadu gan y byd sy'n newid o'n cwmpas, gyda rhai gwledydd yn gwneud mwy o gynnydd nag eraill ac, mewn rhai achosion, yn gyflymach na gwledydd Prydain. Mae enghreifftiau rhyngwladol ac o wledydd Prydain yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol, ac ysbrydoledig ar adegau, o amryw o ddulliau y gellir eu defnyddio i alluogi cyfranogiad menywod.

Dylem hefyd nodi'n glir y gall gwelliannau sylweddol o ran amlygrwydd menywod mewn grym a gwleidyddiaeth guddio'r heriau parhaus y mae llawer o fenywod yn eu hwynebu yng ngwledydd Prydain. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli yn Senedd y Deyrnas Unedig, yn y gweinyddiaethau datganoledig, yn y cynghorau lleol a swyddi etholedig eraill ar draws y wladwriaeth. At hynny, mae menywod yn wynebu 'rhwystrau

parhaus' o ganlyniad i'r heriau sy'n dal i fod o ran cydbwysu cyfrifoldebau domestig a gofal gyda chyfranogiad gwleidyddol. Fel mae'r ymchwil hwn yn ei awgrymu, mae gwledydd eraill yn wynebu heriau tebyg ac wedi defnyddio llawer o strategaethau i fynd i'r afael â nhw. Bydd rhannu arferion da gyda gwleidyddion, academyddion ac ymgyrchwyr ledled y byd yn helpu i feithrin sgwrs am yr hyn sy'n gweithio ac ysbrydoli ffyrdd newydd o ymdrin â heriau yr ydym yn eu rhannu.

Mae'r ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan y British Council, yn syrthio'n daclus yng nghwmpas ein cenhadaeth a'n mandad – rhannu profiad gwledydd Prydain yn rhyngwladol yn ysbryd cydymddibyniaeth a deialog. Yn y flwyddyn allweddol hon, rydym yn falch o'r ymchwil hwn, sy'n ffordd addas o ddatlu canmlwyddiant y bleidlais i fenywod. Un o brif negeseuon yr ymchwil yw bod angen ymdrech barhaus er mwyn cyflawni newid. Mae angen hynny mewn llawer o feysydd a chan lawer o fenywod a dynion, gan gynnwys gwleidyddion etholedig, arweinwyr gwleidyddol, pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr sefydliadau menywod ac, yn wir, sefydliadau cymdeithas sifil ehangach. Mae hyn yn wir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn hanesyddol a heddiw. Mae galw clir am fwy o gydweithio rhwng gwledydd ar warchod enillion a mynd i'r afael â heriau sy'n parhau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn argymhellion yr adroddiad. O ran y British Council, rydym yn ymroddedig i gydweithredu'n barhaus gyda'n gwledydd partner i gefnogi cyfranogiad ac arweinyddiaeth menywod mewn prosesau gwleidyddol a gweithredu cymdeithasol ar draws ein meysydd gwaith.

**YR ATHRO JO BEALL
CYFARWYDDWR ADDYSG A CHYMDEITHAS
AC AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL,
BRITISH COUNCIL**



Their
work
is
not
forgotten



CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL	05
CYFLWYNIAD	09
METHODOLEG	11
YMGYRCHU GAN FENYWOD A CHWAEROLIAETH	13
Amrywiaeth a chwaeroliaeth	15
Cefnogi menywod drwy'r llwybr gwleidyddol	16
Menywod yn gweithio ar draws pleidiau	17
Creu undod rhyngwladol	18
Y RHEOLAU	21
Grym casglu data	24
Mesurau arbennig dros dro - cwtâu	25
Mecanweithiau rhanbarthol ar gyfer menywod: yr Undeb Ewropeaidd	28
Symud system: yng Nghanada a Chymru	29
Y GWETHLE GWLEIDYDDOL	31
Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle	33
Setliadau a dyheadau gwleidyddol newydd	33
Creu senedd dda: Grŵp Cyfeirio Trawsbleidiol Tŷ'r Cyffredin	34
Llywodraeth leol	35
ARWEINYDDIAETH	37
Amrywiaeth a gwahaniaeth derbyniol	40
Dynion yn hyrwyddo newid	41
Arweinyddiaeth mewn ansicrwydd gwleidyddol ac adeiladu heddych	42
Y CANLYNIADAU: NEWID I FYWYDAU MENYWOD	45
Cyllidebu yn ôl rhyw	47
Menywod a'u llafur	47
Iechyd rhywiol ac atgenhedlu a hawliau atgenhedlu menywod	48
Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched	49
BYD SY'N NEWID?	51
#MeToo	53
Gofalu a gwaith domestig	54
Trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth	55
Cyfranogiad menywod a'r 'bleidlais'	56
Citizen Girl ac ymgysylltu â phobl ifanc	57
CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	59

CRYNODEB GWEITHREDOL

Gan fod 2018 yn nodi can mlynedd ers i rai menywod ennill y bleidlais yng ngwledydd Prydain, mae'r British Council wedi comisiynu'r ymchwil hwn i fapio a deall y datblygiadau allweddol o ran rôl menywod mewn gwleidyddiaeth yng ngwledydd Prydain ac o amgylch y byd dros y can mlynedd diwethaf, gan gymharu cynnydd gwledydd Prydain gydag enghreifftiau rhyngwladol.

Bydd yr adroddiad hwn yn sail ar gyfer datblygu trafodaeth ryngwladol am y materion hollbwysig hyn, a chreu cyfleoedd i wneud mwy fyth i gefnogi cyfranogiad gwleidyddol menywod. Mae hyn yn hyrwyddo Nod Datblygu Cynaliadwy 5.5 – 'Sicrhau cyfranogiad llawn ac effeithiol menywod a chyfle cyfartal i arwain ar bob lefel o brosesau gwneud penderfyniadau mewn bywyd gwleidyddol, economaidd a chyhoeddus' ac yn cefnogi swyddogaeth y British Council o greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder fel sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwyllianol a chyfleoedd addysgol.

Roedd yr ymchwil yn ymwneud ag ystod o gyfranogwyr ar draws holl wledydd Prydain, gan gynnwys Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar ffurf 40 cyfweiliad unigol; chwe chyfarfod bord gron gyda 77 o randdeiliaid a thros 60 o gyfweiliadau ar ffurf ffilmiau byrion i adlewyrchu llawer o brofiadau gwahanol ac ystod o arbenigedd. Roedd awydd i ddeall profiadau uniongyrchol cyfranogwyr, a defnyddiwyd eu lleisiau a'u safbwyntiau yn uniongyrchol drwy gydol y broses. Menywod oedd y cyfranogwyr yn bennaf ac roeddent yn amrywio o'r rhai gyda phrofiad uniongyrchol fel gwleidyddion, i'r rheini sy'n arbenigwyr fel academyddion, ymgynghorwyr rhyngwladol ac ymgyrchwyr ym maes cyfranogiad gwleidyddol menywod.

Yn ystod y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau, gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried cynnydd grym gwleidyddol menywod a'u cyfranogiad o ran: llwyddiannau allweddol ac arferion da; effaith ar newid polisi a bywydau menywod; a sut mae arferion neu ymgyrchoedd rhyngwladol wedi dylanwadu ar wledydd Prydain neu fel arall. Gofynnwyd iddynt hefyd pa un newid sydd ei angen cyn 2028 er mwyn gwir ddatblygu cynrychiolaeth a chyfranogiad gwleidyddol menywod.

Yn yr adroddiad hwn, mae chwe phennod thematig yn archwilio'r prif alluogwyr a'r rhwystrau sy'n atal cynnydd menywod a rannwyd gan y cyfranogwyr. Cefnogir hynny gyda gwybodaeth o ymchwil pellach, llinell amser o gynnydd yn dechrau ym 1918, data allweddol ac enghreifftiau sy'n cynnig dadansoddiad dyfnach o'r materion a amlygwyd fel rhai pwysig yn y sgwrs hon.

1

Roedd cyfranogwyr yn glir am bwysigrwydd sylfaenol rôl **ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth** dros y can mlynedd diwethaf o ran gwella mynediad menywod at rym a gwleidyddiaeth, dylanwad menywod ar yr agenda gwleidyddol a'r modd y caiff gwleidyddiaeth ei chynnal: *mae menywod cryfion wedi creu'r llwybr, menywod cryfion y tu mewn i fudiad y menywod.*

Trafododd y cyfranogwyr nifer o themâu canolog yn eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth. Roedd hyn yn cynnwys sut mae codi ymwybyddiaeth wedi galluogi menywod i weithredu dros eu sefyllfa eu hunain a chodi ymwybyddiaeth o realiti menywod. Mae menywod wedi cefnogi ei gilydd i gynrychioli, ac mae ymgyrchu gan fenywod wedi bod yn llwybr allweddol i'r byd gwleidyddol i lawer. Mae'r nifer cynyddol o fenywod mewn gwleidyddiaeth wedi dylanwadu ar newid yn niwylliant gwleidyddiaeth, gyda phwyslais ar weithio'n drawsbleidiol. Mae atseinio lleisiau a chyfraniadau ein gilydd a chydweithio i ail-fodelu pleidiau gwleidyddol a'r system gwleidyddol ehangach yn bwysig.

Dyma'r enghreifftiau rydym yn eu harchwilio'n fanylach o dan y thema ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth: pwysigrwydd amrywiaeth a chwaeroliaeth; sut mae menywod yn cefnogi menywod drwy'r llwybr gwleidyddol gydag ystod o fentrau; pwysigrwydd menywod yn gweithio ar draws pleidiau mewn gofodau gwleidyddol ffurfiol; a sut mae gwleidyddion benywaidd ar draws y byd yn defnyddio rhwydweithiau, yn dysgu ac yn rhannu arferion i sicrhau cydweithio a chefnogaeth ryngwladol.

2

Er bod cyfranogwyr yn dathlu llawer o'r newidiadau cyfreithiol pwysig dros y can mlynedd diwethaf sydd wedi cefnogi menywod i ddod ymlaen mewn gwleidyddiaeth, roeddent hefyd yn edrych ar yr angen parhaus am newidiadau i'r **rheolau** sy'n gweithredu ar draws y system gwleidyddol a sut caiff y rhain eu cyflwyno gan borthorion: *dw i'n teimlo'n besimistaidd os nad yw'r rheolau'n newid; ac wrth gwrs, mae angen ategu'r rheolau caled gyda newid agwedd.*

Daeth llawer o themâu i'r amlwg wrth drafod y galluogwyr a'r rhwystrau sy'n atal datblygiad menywod wrth greu a chyflwyno'r rheolau. Mae natur y systemau etholiadol a ddefnyddir ar draws gwledydd Prydain wedi effeithio ar gynnydd gwleidyddol menywod. Mae newid wedi bod yn ail siambr senedd y Deyrnas Unedig. Mae'r dull y mae pleidiau yn dewis ymgeiswyr a gweithredoedd o fewn hynny i fynd i'r afael â chynrychiolaeth menywod wedi bod yn hanfodol, a thynnwyd sylw at ddulliau ariannu gyrfaedd gwleidyddol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd deall bod strwythur a dull rheoleiddio pleidiau yn seiliedig ar rywedd, ynghyd â diogelu dilysrwydd a dylanwad menywod yn strwythurau'r pleidiau gwleidyddol. Mae gwledydd yn amrywio yn eu hymdrechion i annog diwygio i gefnogi datblygiad gwleidyddol menywod o fewn mecanweithiau atebolrwydd fframweithiau a deddfau rhyngwladol allweddol – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob

Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW), Datganiad Beijing a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Roedd yr enghreifftiau roedd y cyfranogwyr yn eu hystyried yn bwysig wrth archwilio'r themâu hyn yn cynnwys: grym casglu data; cefnogaeth ar gyfer mesurau neu gwotâu arbennig dros dro i gefnogi cynnydd; effaith yr Undeb Ewropeaidd fel mecanwaith rhanbarthol i fenywod, a pherygl posib hyn yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd; ac ystyried sut i gyflawni newid systematig i'r system wleidyddol, gan ddysgu gan Gymru a Chanada.

3

Drwy ystyried diwylliant, normau ac arferion y **gweithle gwleidyddol** rhoddwyd sylw i'r ffyrdd y gall sefydliadau gwleidyddol groesawu neu weithredu fel rhwystr i fenywod sy'n mynd i'r byd gwleidyddol. Mae'r amodau i fenywod yn y gweithle gwleidyddol mewn deddfwrfeydd cenedlaethol a lleol wedi gwella'n sylweddol. Ond awgrymodd y cyfranogwyr fod cyflawni newid diwylliannol wedi cymryd mwy o amser, ac roedd llawer yn teimlo ymdeimlad o frys, gan ddadlau dros ystod o gamau rhagweithiol a beiddgar i fynd i'r afael â strwythurau grym a phatrymau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn o ran *sut rydyn ni'n gwneud pethau fan hyn*.

Soniodd y cyfranogwyr am themâu allweddol a oedd yn codi ar draws sefydliadau gwleidyddol yng ngwledydd Prydain. Wrth newid agweddau a normau yn y gweithle gwleidyddol, mae angen newidiadau ymarferol sy'n cefnogi menywod yn sail i hynny. Mae angen adeiladu ewyllys ar y cyd er mwyn newid y gweithle gwleidyddol a'i arferion. Dylid manteisio ar gyfleoedd i gynnwys menywod fel rhan o wedd gweithleoedd a systemau gwleidyddol, fel y gwelwyd wrth ddatganoli grymoedd gwleidyddol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Pan gaiff gweithrediad seneddau a deddfwrfeydd ei wella i fod yn *well i bawb*, mae angen i'r naratif cadarnhaol hwn fod yn gryf. Cafodd natur a realiti rhywiaeth a chamdriniaeth yn y gweithle gwleidyddol eu crybwyll a'u trafod yn eang.

Yr enghreifftiau a grybwyllwyd gan y cyfranogwyr a gaiff eu trafod yn fanylach yw: gwaith trawsbleidiol arloesol Senedd y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle; y dyheadau a'r rhwystrau y mae menywod yn eu profi wrth adeiladu setliadau gwleidyddol newydd; y ffordd mae Tŷ'r Cyffredin yn gweithio i gyflawni dull system gyfan o greu senedd sy'n sensitif i rywedd drwy waith 'Senedd Dda'; a natur y gweithle gwleidyddol mewn llywodraeth leol, a'i rôl fel rhan o'r llwybr gwleidyddol.

4

Roedd nifer a phwysigrwydd cynyddol menywod mewn **swyddi arweinyddol** ym maes gwleidyddiaeth ar draws gwledydd Prydain, a'u grym a'u dylanwad, yn drafodaeth allweddol i gyfranogwyr: *mae'n bwysig cael mwy o fenywod ar y brig mewn swyddi pwysig iawn – mae'n anfon neges enfawr i'r gymdeithas ac i fenywod*.

Drwy amlygu'r newidiadau dramatig niferus, er enghraifft 50 y cant o'r pleidiau gwleidyddol yn cael eu harwain neu eu cyd-arwain gan fenywod, awgrymodd y cyfranogwyr bod y newidiadau yn y ffordd y caiff arweinwyr benywaidd eu trin a'u

gweld wedi bod yn llawer arafach. A bod y llwybr i'r brig yn llawer anoddach i fenywod sy'n wynebu sawl rhwystr sy'n rhyngblethu, megis dosbarth, hil, cred, anableded a rhywioldeb.

Y themâu canlynol a grybwyllwyd amlaf yn y trafodaethau am y prif alluogwyr, rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer newidiadau pellach i le menywod yn arwain mewn gwleidyddiaeth. Gwelir noddwyr a modelau rôl amlwg o'r gorffennol a'r presennol fel rhywbeth hanfodol. Mae rôl allweddol gan y cyfryngau o ran chwalo neu gynnal syniadau ac ystrydebau o fenywod fel gwleidyddion neu arweinwyr, er mwyn normaleiddio arweinyddiaeth gan fenywod mewn gwleidyddiaeth. Mae'r sefyllfa bresennol yn y byd gwleidyddol yn gryf: mae menywod wedi gallu defnyddio grym a dylanwad mewn sawl ffordd mewn swyddi gwleidyddol traddodiadol a thrwy greu gofodau newydd. Dymunai'r cyfranogwyr weld y gwahanol arddulliau o arwain y mae llawer o fenywod, a dynion, yn eu cyflwyno i wleidyddiaeth fodern yn cael eu cydnabod a'u hyrwyddo'n well.

Rydym wedi archwilio'r canlynol yn ddyfnach: menywod ar y brig a dylanwad pwysig menywod sy'n dal y swyddi hyn ar y brig, yn enwedig penaethiaid pleidiau gwleidyddol a llywodraethau etholedig; ystyried amrywiaeth a'r syniad o wahaniaeth derbyniol yn null menywod o arwain; pwysigrwydd dynion yn hyrwyddo newid ac ystyried mentrau i gefnogi dynion yn y rôl hon; arweinyddiaeth gan fenywod mewn cyfnodau o ansefydlogrwydd gwleidyddol ac adeiladu heddwch a phwysigrwydd cefnogi hynny.

5

Siaradodd y cyfranogwyr sawl tro am y **canlyniadau** gweladwy sydd wedi llifo o rym gwleidyddol cynyddol menywod a'u cyfranogiad cynyddol dros y can mlynedd diwethaf, a'r graddau y mae hyn wedi siapiro bywydau menywod a merched yng ngwledydd Prydain, ac yn rhyngwladol: *roeddech chi'n gallu clywed llais benywaidd llawer cryfach*.

Yn rhyngwladol, mae ystod eang o feysydd polisi y mae seneddwyr benywaidd wedi rhoi sylw iddynt, ac eto roedd y cyfranogwyr yn gweld llawer yn gyffredin ar draws awdurdodaethau o ran y galluogwyr a'r rhwystrau sy'n atal creu newid i fywydau menywod, a'r meysydd polisi arwyddocaol sydd wedi gwneud gwahaniaeth. Nodwyd sefydlogrwydd gwleidyddol fel elfen bwysig er mwyn galluogi menywod i ganfod gofod a pharhau â diwygiadau lle mae rhaniadau ym mhollis pleidiau. Mae dod â deddfwriaeth a pholisi i wella bywydau menywod i rym yn cael cefnogaeth pan ddeillir y bydd pawb yn elwa o hynny. Mae hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiâu'n dal i fod yn risg i enw da gwleidyddion benywaidd, ac mae rhai meysydd polisi yn dal i ymwrthod â dadansoddi ar sail rhywedd. Mae angen proses wleidyddol aeddfed, o ddeddfwriaeth i gyflwyno a chraffu ar ôl cyflwyno, er mwyn sicrhau newid gwirioneddol.

Mae'r meysydd polisi a archwiliwyd yn ddyfnach yn adlewyrchu'r rhai y nododd cyfranogwyr eu bod yn bwysig: pwyslais hollbwysig ar lwyddiant seneddwyr benywaidd o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched; pwysigrwydd heddiw o gyllidebu yn ôl rhywedd i sicrhau newid systematig i fenywod; menywod a'u gwaith; iechyd rhyw ac atgenhedlu a hawliau atgenhedlu menywod.

6

Roedd y cyfranogwyr yn gweld yr holl gynnydd i fenywod mewn gwleidyddiaeth a'r effaith mae hyn wedi'i chael ar fywydau menywod fel rhywbeth sydd wedi'i ddylanwadu'n anorfod gan newidiadau ehangach ysgubol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol dros y can mlynedd diwethaf. **Mae Byd sy'n newid?** yn adlewyrchu trafodaeth gan gyfranogwyr ar sut mae newidiadau ehangach wedi galluogi camau pwysig ymlaen, ond hefyd wedi gweithredu fel rhwystrau newydd.

Trafododd y cyfranogwyr rai themâu allweddol. Mae agweddau'r cyhoedd tuag at gydraddoldeb yn parhau i newid. Mae'r newid yn rhyddid economaidd menywod wedi bod yn sylweddol, er gwaethaf natur anghyfartal barhaus amodau economaidd: *mae'n rhaid i bobl gael yr adnoddau i'w galluogi nhw i gamu i'r gofod yna*. Mae addysg yn effeithio ar gyfranogiad gwleidyddol menywod a merched, gan arwain at alw clir am addysg wleidyddol a rhywedd ynghynt i fechgyn a merched. Mae'r sectorau diwylliannol wedi chwarae rhan bwysig wrth ddod â menywod yn rhan o wleidyddiaeth. Mae canlyniadau cadarnhaol a negyddol yn deillio o ddatblygiadau mewn technoleg.

Yr enghreifftiau penodol a archwiler yw: effaith #MeToo sef ymgyrch ryngwladol ar y cyfryngau cymdeithasol; rôl ac effaith gwaith gofal a domestig; sut mae trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn dylanwadu ar gyfranogiad menywod; cyfranogiad menywod a'r bleidlais; dod â merched a menywod iau yn rhan o wleidyddiaeth drwy fentrau megis Citizen Girl.

Yn y **casgliad**, rydym ni'n amlygu'r ffaith bod cyfranogwyr wedi nodi cyfres o fomentau allweddol sydd wedi arwain at newid yn rolau a grym menywod mewn gwleidyddiaeth, amryw o 'droeon cyntaf' i fenywod mewn grym a gwleidyddiaeth a gaiff eu dathlu gan gyfranogwyr a'r rhai a alluogodd y newid hwnnw fel gweithredwyr allweddol. Clywsom fod realiti cynnydd mewn grym a chynrychiolaeth menywod yn un lle mae'r enillion yn araf a thameidiog. Clywsom nad yw cynnydd yn gronnu bob tro: *mae'r syniad y bydd yn cymryd hyn a hyn o flynyddoedd i gael hyn a'r llall, yn cymryd yn ganiataol y bydd y broses yn syml a bod y llwybr yn un syth, ac nid yw hynny'n wir. Er i fenywod ddathlu momentau a gyflawnodd bethau na ellir eu dad-wneud yn y daith i gael cynrychiolaeth gyfartal*, soniodd llawer am *fregusrwydd* yr enillion a'r angen parhaus i gadw gwyliadwriaeth, i *gadw ein llygad ar y bêl*. Mae'n glir iawn yn ôl safbwyntiau'r rhai y clywsom ganddynt, nad yw gweithredoedd unigol yn gyrru cynnydd.

Roedd y safbwyntiau o ran **beth sydd ei angen nesaf i gyflawni newid sylweddol erbyn 2028** yn gyfoethog ac yn amrywiol. Fodd bynnag, roedd consensws bod angen gweithredu nawr i ehangu'r enillion presennol i'r holl fenywod yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol. Wrth ystyried pwysigrwydd undod rhyngwladol, deialog a chynnydd byd-eang yn y symudiad tuag at rym a chynrychiolaeth wleidyddol gyfartal i fenywod, rydym yn rhannu yma y dyheadau a'r blaenoriaethau a fynegwyd amlaf gan y cyfranogwyr.

Cyfuniad cyffredinol o flaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer newid yw'r **argymhellion hyn**, pan ofynnwyd iddynt ***Pa newid hoffech chi ei weld yn y deng mlynedd nesaf?***

YMGYRCHU GAN FENYWOD A CHWAEROLIAETH

1. Galluogi gwleidyddion, ymgyrchwyr, cymdeithas sifil a gweision sifil benywaidd i ddod ynghyd a chysylltu, rhannu a dysgu mewn cyd-destun traws-wladol.
2. Sicrhau adnoddau i sefydliadau menywod cymdeithas sifil i gefnogi menywod gyda'r offer i ddod yn weithredwyr gwleidyddol llawn ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgeisio.
3. Galluogi cymdeithas sifil fenywaidd gref, fywiog ac amrywiol, i gael mynediad at rym a phenderfynwyr fel arbenigwyr, drwy fecanweithiau gan gynnwys llwyfan ffurfiol i fenywod.

Y RHEOLAU

4. Manteisio ar fframweithiau cydraddoldeb rhwng y rhywiau rhyngwladol, a sicrhau diwylliant o uchelgais a chydymffurfiaeth gyda thargedau byd-eang ar gynrychiolaeth gyfartal i fenywod.
5. Gweithredu mecanweithiau tryloyw a chynhwysfawr ar gyfer casglu, dadansoddi a chyhoeddi data ar fenywod mewn gwleidyddiaeth o ymgeisiaeth i'r etholiad.
6. Defnyddio llwybrau deddfwriaethol, rheoleiddio pleidiau a/ neu fesurau arbennig dros dro i sicrhau bod nifer cyfartal o ymgeiswyr benywaidd, a sicrhau tegwch a pharch mewn pleidiau gwleidyddol.

Y GWETHLE GWLEIDYDDOL

7. Darparu adnoddau a chamau deddfwriaethol i fynd i'r afael â natur ryweddol trais a chamdriniaeth sy'n targedu menywod a gwleidyddion benywaidd.
8. Defnyddio fframwaith Seneddau Sensitif o ran Rhywedd a osodwyd gan yr Undeb Rhyng-Seneddol i archwilio'r holl ddeddfwrfeydd sy'n gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac ar lefelau cenedlaethol.
9. Gweithredu i alluogi menywod a dynion mewn gwleidyddiaeth, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i fod yn rhieni gweithredol.

ROLAU ARWAIN

10. Cydnabod, cefnogi a dathlu menywod fel arweinwyr ar draws platformau diwylliannol a chyfryngol, fel modelau rôl i fenywod, gan normaleiddio arweinyddiaeth gan fenywod.
11. Herio dynion i arwain ar gydraddoldeb i fenywod drwy wrando, camu'n ôl a gwerthfawrogi menywod, a dathlu'r rhai sy'n gwneud.
12. Arweinwyr gwleidyddol a phleidiau i ddadlau'r achos yn gyson o ran manteision cyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau i bawb.

BYD SY'N NEWID?

13. Darparu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth sy'n sensitif i rywedd y tu mewn a'r tu allan i ysgolion, i herio ystrydebau rhywedd, deall arweinyddiaeth amrywiol a datblygu meddwl beirniadol.
14. Gwerthfawrogi a gwobrwyo gwaith gofalu, a normaleiddio rhianta ar y cyd drwy newid deddfwriaethol, yn y gweithle a newid diwylliant yn ehangach.
15. Rhagweld cyfleoedd i ddylunio newidiadau sy'n mewnosod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y system drwy ddefnyddio dulliau prif ffrydio rhywedd.

Galwyd ni'n filwriaethus, ac roedden ni'n eithaf parod i dderbyn yr enw. Roedden ni'n benderfynol o wthio'r cwestiwn ynghylch rhyddfrenio menywod i'r pwynt lle na fydden ni'n cael ein hanwybyddu gan wleidyddion bellach.

EMMELINE PANKHURST¹

CANRAN Y MENYWOD YN Y TŶ ISAF NEU'R UNIG DŶ MEWN SENEDDAU GWLADOL

GWLAD	%
Rwanda	61.3%
Bolifia	53.1%
Sweden	43.6%
Cyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia	38.3%
Y Deyrnas Unedig	32.0%
Ynsoedd Philippines	29.5%
Affganistan	27.7%
Algeria	25.8%
Bangladesh	20.3%
Unol Daleithiau America	19.6%
Ynsoedd Solomon	4.0%
Oman	1.2%

Menywod mewn seneddau gwladol. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli detholiad o wledydd i ddangos lefelau gwahanol o gynrychiolaeth.

CYFLWYNIAD

Mae can mlynedd wedi bod ers i'r menywod cyntaf yng ngwledydd Prydain allu pleidleisio (er bod hynny wedi'i gyfyngu i fenywod priod oedd yn berchen ar eiddo) ac i'r fenyw gyntaf [gael ei hethol i'r senedd](#).² Mae enillion sylweddol wedi bod ers hynny, gan gynnwys ehangu'r etholfraint i fenywod dros 21 ym 1928, yr un peth â'r dynion, ac yn y blynyddoedd ers hynny mae nifer y menywod sy'n weithgar yn y byd gwleidyddol yng ngwledydd Prydain yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol wedi tyfu.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ddechrau'r 21ain ganrif ymlaen gyda datganoli grymoedd gwleidyddol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, pan ddaeth Cymru yn genedl gynta'r byd i gael [cynrychiolaeth 50:50](#) yn ei deddfwrfa genedlaethol yn 2003.

Ac eto, yn 2018 mae menywod yn dal i gael eu tangynrychioli ar bob lefel o wleidyddiaeth gwledydd Prydain, ac rydym y tu ôl i wledydd eraill. Mae safle'r Deyrnas Unedig yn [rhestrau'r byd](#) wedi cwmpo dros yr ugain mlynedd diwethaf, o'r 25ain yn y byd ym 1999, i'r 41ain nawr. Mae cyfran y [menywod mewn llywodraeth leol](#) yn ymddangos fel petai'n methu symud o oddeutu 32 y cant ar draws holl wledydd Prydain.

Mae'r British Council yn adeiladu perthnasau i wledydd Prydain yn rhyngwladol drwy wneud gwahaniaeth cadarnhaol ledled y byd gyda rhaglenni mewn diwylliant, iaith, addysg a chymdeithas. Mae hyn yn cynnwys ystod o brosiectau sy'n defnyddio profiad ac arbenigedd gwledydd Prydain i annog mwy o gyfleoedd a grymuso menywod a merched, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau a chreu cysylltiadau a pherthnasau gydol oes yng ngwledydd Prydain.

Mae'r British Council wedi comisiynu'r ymchwil hwn gan mlynedd ar ôl i fenywod ennill yr hawl i bleidleisio yn y Deyrnas Unedig, i fapio a deall datblygiadau allweddol yn rôl menywod mewn gwleidyddiaeth yng ngwledydd Prydain a ledled y byd. Bydd hyn yn ffurfio sail ar gyfer datblygu trafodaeth ryngwladol am y materion hollbwysig hyn a chreu cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau a rhaglenni newydd gyda sefydliadau gwledydd Prydain a rhai byd-eang i wneud mwy fyth i hybu hawliau menywod a merched er mwyn hyrwyddo Nod Datblygu Cynaliadwy 5.5 – 'Sicrhau cyfranogiad llawn ac effeithiol menywod a chyfle cyfartal i arwain ar bob lefel o brosesau gwneud penderfyniadau mewn bywyd gwleidyddol, economaidd a chyhoeddus.'



© Jeff J Mitchell/Getty

Drwy ddefnyddio gwybodaeth ymarferol gan gyfranogwyr sydd â phrofiad uniongyrchol fel gwleidyddion, cynrychiolwyr o'r llywodraeth, academyddion ac ymgyrchwyr sy'n ceisio newid y ffordd mae gwleidyddiaeth yn gweithio, mae modd i ni rannu safbwyntiau unigryw sy'n berthnasol ledled gwledydd Prydain ac i randdeiliaid ledled y byd sydd hefyd yn ceisio gwella cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth.



Pan fo gennych chi broblemau cymhleth mae angen mwy o syniadau, nid llai. Mae gan fenywod gefndiroedd, dulliau a phrofiadau gwahanol, ac yn y diwedd fe fydd gennych chi benderfyniadau gwell a byd gwell.

**YR ANRHYDEDDUS PATRICIA A TORSNEY,
ARSYLWR PARHAOL YR UNDEB RHYNG-SENEDDOL
I'R CENHEDLOEDD UNEDIG**

1 Araith a wnaed yn Hartford, Connecticut ar 13 Tachwedd 1913 <https://www.theguardian.com/world/series/great-speeches-emmeline-pankhurst>

2 Ym 1818, Constance Markiewicz, Sinn Fein, oedd y fenyw gyntaf i gael ei hethol i'r Senedd, ond ni chymerodd ei sedd; Nancy Astor oedd y fenyw gyntaf i fynd i San Steffan fel Aelod Seneddol ym 1919.



© Michael Bradley/Getty

Jacinda Ardern, Prif Weinidog Seland Newydd, yn cyhoeddi genedigaeth ei merch. Hi yw'r ail arweinydd yn y byd i roi genedigaeth yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

Man cychwyn yr adroddiad hwn yw ein bod ni'n credu bod yr achos dros gynrychiolaeth gyfartal i fenywod wedi'i wneud. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn deddfau ac ymrwymadau rhyngwladol niferus, gan gynnwys Llwyfan Gweithredu Beijing a'r Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol. Mae [tystiolaeth](#) gynyddol o'r buddiannau i fenywod a merched, yn enwedig mewn deddfau a pholisiau sy'n sensitif i rywedd, wrth i fenywod gael eu cefnogi'n well, fel unigolion ac ar y cyd, i gymryd rhan ac arwain yn y byd gwleidyddol.

Mae'r ymchwil yn adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad y British Council yn 2016, *Cydraddoldeb rhwng y rhywiâu a grymuso menywod a merched yn y Deyrnas Unedig: Wynebu Her yr Amcanion Datblygu Cynaliadwy*, yn benodol maes thematig cyfranogiad, grym ac arweinyddiaeth yn y byd gwleidyddol.

Mae 2018 yn flwyddyn amserol i ystyried sefyllfa bresennol menywod mewn gwleidyddiaeth a grym, gan adeiladu ar y sylw sy'n cael ei roi i fenywod mewn grym a gwleidyddiaeth ar hyn o bryd, a'r ymdeimlad o fomentwm yn fyd-eang. Yn ystod 2018, rydym wedi gweld camau amlwg ymlaen i wledydd Prydain: llwyddiannau Millicent Fawcett, ymgyrchydd dros y bleidlais i fenywod, yn cael eu hanrhydeddu gyda'r cerflun cyntaf o fenyw yn Sgwâr y Senedd; adroddiad trawsbleidiol yn cael ei gyhoeddi gan Senedd y Deyrnas Unedig ar aflonyddu rhywiol; a chyflwyno gorfodaeth i adrodd am fwch cyflog rhwng y rhywiâu.

Yn rhyngwladol, gwelsom Jacinda Ardern, Prif Weinidog Seland Newydd, yn cyhoeddi ei beichiogrwydd yn gyhoeddus i'r byd drwy [Twitter](#); etholodd Costa Rica [is-lywydd benywaidd du cyntaf](#) yn America Ladin; cynhaliodd pleidiau gwleidyddol y Deyrnas Unedig uwchgyhadledd rhyngwladol ar [drais yn erbyn menywod](#) mewn gwleidyddiaeth; ac yn Dir Kohistan a Gogledd a De Waziristan ym [Mhacistan](#) defnyddiodd rhai menywod eu hawl i bleidleisio, sydd wedi bod ganddynt ers 1956, am y tro cyntaf. O ran bywydau menywod, gwelsom undod rhyngwladol yn yr [Orymdaith Menywod](#) ac yn ymgyrch #MeToo; a mudiadau poblyddol pwysig yn pleidleisio i gefnogi iechyd rhyw ac atgennedlu a hawliau atgennedlu menywod yng Ngweriniaeth Iwerddon ac [Ariannin](#).

Mae'r ymchwil yn amlgu cyfres o fomentau allweddol sydd wedi arwain at newid yn rolau a grym menywod mewn gwleidyddiaeth, amryw o 'droeon cyntaf' i fenywod mewn grym a gwleidyddiaeth a gaiff eu dathlu gan gyfranogwyr a'r rhai a alluogodd y newid hwnnw.

Mae'r galluogwyr a wnaeth y momentau hyn yn bosib, y rhwystrau sy'n parhau, a'r newid mae cyfranogwyr nawr eisiau ei weld wedi'u nodi ar draws chwe thema allweddol. Nodwyd y chwe thema hyn drwy ddadansoddi safbwyntiau cyfranogwyr ar elfennau allweddol o ran cyflawni newid i fenywod mewn grym a gwleidyddiaeth: ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth, y rheolau, y gweithle gwleidyddol, swyddi arweinyddol, y canlyniadau, a byd sy'n newid. Mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn wedi'u llunio ar sail safbwyntiau cyfranogwyr a'u hasesiad o'r hyn fydd yn allweddol er mwyn cynyddu arweinyddiaeth a chyfranogiad menywod mewn bywyd gwleidyddol dros y deng mlynedd nesaf. Maent yn berthnasol i'r amryw weithredwyr, ym mhob gwlad ar bob lefel o lywodraethu sydd eu hangen i gyflawni newid.

Dyweddodd sylfaenydd Pacistan, Muhammad Ali Jinnah: 'ni all unrhyw ymdrech fyth lwyddo heb fenywod yn cymryd rhan ochr yn ochr â dynion';³ rhywbeth a gaiff ei adlewyrchu yn [Nod Datblygu Cynaliadwy 5.5](#). Rydym yn falch iawn o chwarae ein rhan wrth rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng gwledydd am gynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth, drwy gyfrwng yr adroddiad amserol hwn.



Cyfraniadau gan lawer iawn o fenywod ar lefelau a rhannau gwahanol o'r broses a oedd yn gallu torchi llewys a bwrw ati.

BRONAGH HINDS, SYLFAENYDD DEMOCRASHE, GOGLEDD IWERDDON

METHODOLEG

Mae hon yn astudiaeth annibynnol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar strwythurau gwleidyddol etholedig ffurfiol a'r galluogwyr a'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan yn llawn.

Amcanion yr ymchwil oedd canfod yr atebion i bedwar prif gwestiwn:

1. Beth yw'r prif lwyddiannau ac arferion da ym Mhrydain, fel gwladwriaeth ac ym mhob un o'i gwledydd unigol, o ran datblygu grym a chyfranogiad gwleidyddol menywod dros y can mlynedd diwethaf?
2. Sut mae datblygiad yng ngrym a chyfranogiad gwleidyddol menywod wedi effeithio ar newid polisi, a bywydau menywod yn y gymdeithas yng ngwledydd Prydain?
3. Sut gall arfer rhyngwladol, a/neu fudiad rhyngwladol i ddatblygu grym a chyfranogiad gwleidyddol menywod, ddylanwadu ar wledydd Prydain, neu sut mae wedi gwneud hynny? Ac fel arall?
4. Pa un newid sydd ei angen erbyn 2028 er mwyn datblygu cynrychiolaeth a chyfranogiad gwleidyddol menywod go iawn, yng ngwledydd Prydain a/neu yn rhyngwladol?

Roedd y broses ymchwilio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy sgysysiau a oedd wedi'u strwythuro'n rhannol, gan greu amgylchedd a oedd yn caniatáu trafod newid cymdeithasol a gwleidyddol. Mae hyn yn adlewyrchu [dull y British Council](#) o rymuso menywod a merched, a bydd yn helpu i siapio deialog a gweithredu pellach i gefnogi cyfranogiad gwleidyddol menywod. Menywod â phrofiad uniongyrchol fel gwleidyddion yng ngwledydd Prydain, ac yn rhyngwladol, ynghyd ag arbenigwyr academaidd, ymgynghorwyr rhyngwladol ac ymgyrchwyr ym maes cyfranogiad gwleidyddol menywod oedd y cyfranogwyr yn yr ymchwil hwn yn bennaf. Roedd cynrychiolaeth gan ystod o oedrannau, cefndiroedd a safbwyntiau gwleidyddol. Dewiswyd y rhanddeiliaid er mwyn adlewyrchu'r ystod o brofiad ac arbenigedd yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol. Mae'n amlwg bod gan y rhai a ymatebodd i'r gwahoddiad hwn ac y mae eu safbwyntiau wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn ddiddordeb amlwg mewn gwella cyfranogiad menywod a merched ym mywyd gwleidyddol gwledydd Prydain ac yn rhyngwladol.

Roedd strategaeth yr ymchwil yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth pen desg cychwynnol i fframio cyfweiliadau a chyfarfodydd bord gron, ac ymchwil pellach i roi cyd-destun ac i gefnogi'r materion neu'r enghreifftiau a nodwyd gan gyfranogwyr; 40 cyfweiliad unigol; chwe chyfarfod bord gron gyda 77 o rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o Senedd y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig, ynghyd â chyrrff anllywodraethol a chymdeithas sifil, llywodraeth leol ac awdurdodau cyfunol rhanbarthol o bob rhan o wledydd Prydain, arbenigwyr rhyngwladol a thros 60 o gyfweiliadau ar ffurf ffilmiau byrion yn ateb y cwestiwn: **Pa un newid sydd ei angen erbyn 2028 er mwyn datblygu cynrychiolaeth a chyfranogiad gwleidyddol menywod?** Cefnogwyd hyn gan ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #womenpowerpolitics i ymgysylltu â chynulleidfau gyhoeddus ehangach. Cawsom ein cefnogi gan banel ymgynghori o arbenigwyr rhywedd rhyngwladol, a staff y British Council.

Gan gofio ein dymuniad i ddeall profiadau uniongyrchol cyfranogwyr, rydym wedi defnyddio eu lleisiau a'u safbwyntiau uniongyrchol drwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ysbryd galluogi cyfranogwyr i siarad yn rhydd ac yn agored am y galluogwyr a'r heriau, nid ydym wedi priodoli'r holl eiriau hyn, ac rydym wedi dyfynnu'r clod a'r feirniadaeth fel y cawsant eu gwneud. Caiff dyfyniadau a ddaw'n uniongyrchol gan gyfranogwyr eu nodi mewn testun italg drwy gydol yr adroddiad. Yn unol â chonfensiynau arferol ymchwil annibynnol a gomisiynir gan gorff cyhoeddus, nid yw'r safbwyntiau a gofnodir o reidrwydd yn adlewyrchu rhai'r British Council.

Rydym wedi edrych yn ddyfnach i rai meysydd ac enghreifftiau sy'n dod â sawl thema ynghyd, ac wedi amlygu'r rhain drwy gydol y testun, lle roedd cyfranogwyr yn awyddus i rannu safbwyntiau o ran yr hyn sydd wedi gweithio, a'r hyn sydd heb weithio, gan gynnig syniadau a chymariaethau rhyngwladol. Mae dolenni at waith darllen pellach drwy gydol y ddogfen, ac rydym wedi cynnwys ystod eang o ffynonellau i roi cyfle i bobl ddysgu mwy. Mae rhestr lawn o ffynonellau ymchwil ar gael [yma](#).⁴

**EVE HOLT, NICOLA WATERWORTH,
DR HELEN MOTT, TÎM YMCHWIL MENYWOD,
GRYM A GWLEIDYDDIAETH**

Cryfder undod yw'r allwedd; ni all un fenyw fyth gyflawni newid ar ei phen ei hun. Mae'n rhaid i fenywod fod yn beiriant dros eu rhyddid eu hunain.

Y GWIR ANRHYDEDDUS HARRIET HARMAN CF, AS, SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG



YMGYRCHU GAN FENYWOD A CHWAEROLIAETH

O fudiadau'r swffragwyr a'r swffragetiaid ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif; ffeministiaeth ail-don y mudiad rhyddid i fenywod ar ddechrau'r chwedegau a'r saithdegau; i'r gwrthdystiadau diweddar o undod ymhlith menywod ynghylch trais ar y cyfryngau cymdeithasol, mae ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth wedi chwarae rhan ganolog yn yr ymdrech i wella grym gwleidyddol i fenywod: *mae menywod cryfion wedi creu'r llwybr, menywod cryfion y tu mewn i ymgyrch y menywod*. Roedd barn glir ymhlith y cyfranogwyr bod cynnydd yn ystod y can mlynedd diwethaf yng ngwledydd Prydain, ac yn rhyngwladol, wedi'i gyflawni gan fod menywod wedi brwydro amdano.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at y ffyrdd niferus y mae menywod wedi sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed yn y byd gwleidyddol, a threfnu ac arddangos undod rhwng chwiorydd, yng ngwledydd Prydain a thramor. Gan wneud cysylltiad clir rhwng ymgyrchoedd swffragetiaid ac ymgyrchoedd menywod yng nghanolfan allgludo [Yarl's Wood](#) heddiw, roedd pobl yn siarad yn angerddol am y camau y mae menywod wedi'u cymryd a'r aberth y gorfodwyd nhw i'w wneud.

Roedd y prif themâu a ddaeth o'r drafodaeth am rwystrau a galluogwyr o ran ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, cefnogi ei gilydd i gynrychioli, newid diwylliant gwleidyddiaeth, atseinio, ailweirio, a menywod yn deddfu. Rydym yn rhannu enghreifftiau manylach mewn perthynas ag amrywiaeth a chwaeroliaeth, cefnogi menywod drwy'r llwybr gwleidyddol, gweithio trawsbleidiol a chreu undod rhyngwladol.

CODI YMWHYBYDDIAETH

Mae ymgyrchwyr benywaidd a mudiad y menywod wedi chwarae rhan bwysig wrth ddangos bod ['y personol yn wleidyddol'](#). Mae menywod wedi cefnogi ei gilydd droeon i weithredu dros eu sefyllfa eu hunain, ac i godi ymwybyddiaeth wleidyddol y cyhoedd ynghylch realiti bywyd i fenywod. Mae mudiad y menywod wedi codi materion sydd heb eu trafod yn y byd gwleidyddol o'r blaen. Er bod mudiad y swffragetiaid yn canolbwyntio'n bennaf ar y bleidlais, *roedd mudiad y menywod yn y chwedegau a'r saithdegau yn cyffwrdd â phob maes o brofiad menywod – gan gynnwys teulu, rhywioldeb a gwaith*. Clywsom fod mudiadau mwy diweddar fel #everydaysexism, #MeToo a #TimesUp nid yn unig wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhywiaeth a'r aflonyddu mae menywod yn ei wynebu ond hefyd wedi'u gwthio'n uwch ar yr agenda wleidyddol: *mae menywod yn newid normau cymdeithasol a grym gwleidyddol yn llwyddiannus; maent yn helpu i osod cywair sy'n herio hen syniadau'r cyhoedd am fenywod a phrotest*.

CEFNOGI EI GILYDD I GYNRYCHIOLI

Edrych ar ôl plant ei gilydd; rhoi to diogel dros bennau menywod sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig; ymdrefnu; ac annog ei gilydd ar y cyfryngau cymdeithasol – mae menywod wedi dibynnu ar ei gilydd droeon er mwyn cynnal y frwydr dros gydraddoldeb. [O streic y gweithwyr bysiau ym 1918](#) i ymgyrchoedd heddiw gan grwpiau fel [WASPI](#) (Menywod yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth) *mae menywod wedi'u cymell droeon i ymgyrchu ac i weithredu dros un mater*, yn aml mewn undod â'u chwiorydd. Mae gweithredu gan fenywod wedi bod yn llwybr allweddol i lawer o fenywod i swyddi gwleidyddol, sy'n *arwain at ddechrau ymwneud â'r broses wleidyddol ffurfiol*. Mae mudiad y swffragetiaid, [crwsâd heddwch y menywod](#), mudiad yr undebau llafur a masnach, a mudiad y menywod yn y chwedegau a'r saithdegau, oll wedi creu llwybrau at wleidyddiaeth i fenywod, gan gynnig y rhwydweithiau angenrheidiol, yr amlygrwydd a'r profiad sydd eu hangen er mwyn cael eu dewis ac i fod yn barod am y swydd:



© Leon Neal/Getty

Diane Abbott, Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid, ar ymweliad â Chanolfan Allgludo Yarl's Wood. Mae menywod sydd wedi'u cadw yn y ganolfan wedi ymgydio'n rheolaidd i brotestio yn erbyn yr amodau a'r driniaeth.

NEWID DIWYLLIANT GWLEIDYDDIAETH

Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod nifer cynyddol o fenywod sy'n gweithio yn y system wedi helpu i osod cywair newydd lle ceir mwy o weithio trawsbleidiol: *yma [Senedd San Steffan] rydych chi'n fenyw yn gyntaf, efallai fod ein gwleidyddiaeth ni yn hollol wahanol ond rydyn ni'n dal i gefnogi ein gilydd*. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y foment pan fu i arweinwyr tair o brif bleidiau gwleidydd Prydain, Leanne Wood o Blaid Cymru, Nicola Sturgeon o Blaid Genedlaethol yr Alban a Natalie Bennett o'r Blaid Werdd gofleidio ar ôl dadl ar y teledu yn 2015. Awgrymwyd bod menywod newydd sy'n dod i'r maes yn fwy agored i gydweithio, *fel disgynyddion mudiad y menywod maent yn cynyddu'r posibilrwydd o weithio ar draws ffiniau pleidiau ar faterion ehangach*.

ATSEINIO EI GILYDD

Ar adegau, mae menywod mewn gwleidyddiaeth wedi teimlo'n anweledig yn eu pleidiau gwleidyddol eu hunain ac mewn sefydliadau gwleidyddol. Clywsom am y defnydd cynyddol gan fenywod o dechnegau pwrpasol i sicrhau y cânt eu clywed ac y caiff eu cyfraniadau eu cydnabod: *fel cynghorwyr benywaidd, rydyn ni nawr wedi dechrau ail-adrodd a phwysleisio ein gilydd, i sicrhau y caiff y menywod yn yr ystafell eu clywed*. Mae hyn yn dilyn esiamply swyddogion benywaidd yn nhîm Obama [yn atseinio ei gilydd](#). Yng Ngwlad yr Iâ, mae hanes hyn o fenywod yn gwneud arwyddion llaw ar ei gilydd fel cod pan fo rhywun yn 'fegluro', hynny yw yn siarad dros fenyw neu'n rhoi clod i'r bobl anghywir. Ystyrir y strategaeth hon fel modd o ymwrthod â'r technegau [tra-arglwyddiaethu](#).

AILWEIRIO'R SYSTEM WLEIDYDDOL

Clywsom fod menywod wedi sbarduno newidiadau yn rheolau'r gêm mewn pleidiau a sefydliadau gwleidyddol. Er enghraifft, *heb ymgyrchwyr benywaidd yn gwneud galwadau, ni fyddai'r pleidiau wedi newid*. Priodolwyd y llwyddiannau yn newid deinameg yn neddfwrfeydd Cymru a'r Alban yn rhannol i gadernid menywod a'u gweithredu ar y cyd: *fe lwyddon ni oherwydd y menywod a fu o'n blaenau, mudiad menywod cryf, menywod undebau, y sector gwirfoddol – fu'n gweithio i sicrhau'r newid*.

MENYWOD FEL DEDDFWYR

Heb bwysau gan arweinwyr gwleidyddol benywaidd a'r sector menywod yn cydweithio, dadleuwyd na fyddai deddfau megis y Ddeddf Cyflog Cyfartal a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw wedi'u pasio.⁵ Clywsom am yr angen i *godï llais yn amlach* am waith menywod yn y llywodraeth, i sicrhau bod yr effaith y mae menywod yn ei chael pan maent mewn grym yn amlwg ac yn cael ei chydabod. Caiff y cyswllt rhwng ymgyrchu cymunedol gan fenywod, cymuned y menywod a'r sector gwirfoddol, a menywod mewn grym gwleidyddol ei ystyried gan lawer yn hanfodol i rôl menywod fel deddfwyr effeithiol, gan roi mynediad i fenywod at gynrychiolaeth ar gyfer eu hanghenion a llwybrau i wleidyddiaeth, yr offer i arfer grym a'r ewyllys a'r cryfder ar y cyd i gyflawni newid. Amlygodd ein cyfranogwyr bwysigrwydd menywod ar y tu allan i strwythurau gwleidyddol ffurfiol, yn cadw rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth fenywod mewn grym gwleidyddol, er mwyn cadw pwysau ac atebolrwydd allanol: *mae angen i arweinwyr fod yn atebol i fudiad cymdeithasol*.



© Dan Kitwood/Getty

Leanne Wood, Nicola Sturgeon a Natalie Bennett, arweinwyr Plaid Cymru, Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Werdd yn ystod ymgyrch Etholiad Cyffredinol 2017.

CEFNOGI MENYWOD DRWY'R LLWYBR GWLEIDYDDOL

Rydym yn falch o'n cynrychiolaeth gyson gan fenywod yn y Blaid Werdd. Rydyn ni'n mynd ati i annog a chefnogi menywod eraill i sefyll, [rydyn ni'n] blaid ffeministaidd iawn. Byddwn ni'n ail-agor rhestrau byrion os oes diffyg ymgeiswyr benywaidd a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Amelia Womack, Dirprwy Arweinydd y Blaid Werdd

Clywsom am yr ystod eang o fentrau i gefnogi menywod i fynd i'r byd gwleidyddol ac i'w helpu i oresgyn y rhwystrau strwythurol a systemaidd niferus sy'n atal menywod, a rhai grwpiau o fenywod yn benodol, rhag mynd ymhellach ar hyd y llwybr at wleidyddiaeth. Disgrifir hyn yn aml fel problem piblinell; lle mae angen i'r rhwystrau a'r atebion posibl gael eu deall a'u datrys. Mae'n cynnwys cefnogi menywod ar yr ochr gyflenwi, hynny yw menywod sydd eisiau cymryd y llwybr at wleidyddiaeth, ac aros arno, a hefyd gweithio gyda phorthorion ar yr ochr alw.

Clywsom fod y system yn parhau i gau menywod medrus i ffwrdd, ac nad mater o *adeiladu hyder menywod*, yn unig ydyw, ond rhoi'r wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnynt i lywio'r system fel *gweithredwyr gwleidyddol ar draws yr ystod lawn o gyfranogiad gwleidyddol*. Roedd galwadau i *wneud gwleidyddiaeth yn rhywbeth mae pobl eisiau bod yn rhan ohono, rhywbeth sy'n teimlo'n berthnasol iddynt, er mwyn osgoi colli pobl anhygoel o ddeinamig drwy sicrhau bod llwybrau yn cefnogi ymgyrchwyr llawr gwlad ochr yn ochr â gwleidyddion gyrfaol a roddir ar y llwybr gan y pleidiau*. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i ofyn i fenywod, droeon, i gynnig eu hunain fel ymgeiswyr, a dywedodd llawer o'r gwleidyddion a holwyd na fyddent yn eu swyddi pe na bai sawl person wedi gofyn iddyn nhw. Yn ôl ymgyrch [Senedd 50:50](#), gofynnwyd i'r rhan fwyaf o fenywod dair gwaith o leiaf cyn iddynt gynnig eu hunain i sefyll, gan ysbrydoli'r ymgyrch #AskHerToStand.

Wedi'i annog yn rhannol gan ddathliadau canmlwyddiant eleni yng ngwledydd Prydain, mae casgliad cynyddol o fentrau sy'n rhoi hwb i niferoedd ar yr ochr gyflenwi. Ochr yn ochr â rhaglen [Bod yn Gyngorydd](#) y Gymdeithas Llywodraeth Leol, mae [Prosiect y Senedd, Senedd 50:50, Menywod 50:50](#) yn yr Alban, [Politics Plus](#) yng Ngogledd Iwerddon (sy'n cefnogi [Next Chapter](#) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd ac yn debyg i [Daughters of the Vote](#) yng Nghanada), ac yng Nghymru mae gwaith [Chwarae Teg](#) sy'n rhoi cyfleoedd i fenywod ifanc gysgodi Aelodau Cynulliad. Mae gan y prif bleidiau fentrau rhwydweithio a hyfforddi i fenywod, gan gynnwys [Women2Win](#), [Fabian Women](#), [Rhwydwaith Menywod Llafur](#), [Menywod y Democratiaid Rhyddfrydol](#), [Menywod y Blaid Werdd](#), [Raglen Menywod mewn Arweinyddiaeth Jo Cox](#), a'u fforymau menywod eu hunain ar lefel leol. Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr ag ystod o fentrau ac ymgyrchoedd i roi hwb i gynrychiolaeth gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, pobl anabl a dosbarth gweithiol, megis [Prosiect Piblinell Manceinion](#), yr [ymgyrch 125](#) ar gyfer cynrychiolaeth anabl a'r [Ceidwadwyr LGBT+](#) sy'n benodol i'r blaid.

Grŵp Hollbleidiol y 300 (1980–2000): Sefydlwyd Grŵp Hollbleidiol y 300 ym 1980 gan Lesley Abdela ac roedd yn un o'r arloeswyr ar gyfer y mentrau hyn gan ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth ac adeiladu rhwydweithiau i ddadfloccio'r piblinell. Roedd y cyn-ymgeisydd Seneddol Rhyddfrydol, Lesley Abdela, yn ymateb i ganlyniadau etholiad cyffredinol 1979, pan mai dim ond 19 menyw a etholwyd o blith 635 o Aelodau Seneddol, er i Margaret Thatcher ddod yn Brif Weinidog. Prif nod y grŵp oedd ethol 300 o Aelodau Seneddol benywaidd, hynny yw oddeutu hanner Tŷ'r Cyffredin. Yn ystod yr wythdegau, bu i dros 40 o grwpiau lleol ffynnu, gan ymgysylltu â thros 5,000 o ymgyrchwyr. Diddymwyd y grŵp ar ôl ugain mlynedd, o achos diffyg adnoddau ariannol yr oedd eu hangen i barhau. Aeth Lesley Abdela ymlaen i fynd â glasbrint Grŵp 300 at lawer o wladwriaethau'r hen Undeb Sofietaidd yng Nghanolbarth Ewrop, ac yna, trwy sefydliadau rhyngwladol gan gynnwys y British Council, cynorthwyodd i greu sefydliadau annibynnol gwleidyddol i fenywod yn y Dwyrain Canol, Affrica ac Asia.

Prosiect y Senedd (2016–presennol): mae sefydliadau amhleidiol megis Prosiect y Senedd wedi adfywio gwaith tebyg yng ngwledydd Prydain yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ysbrydoli menywod i geisio am swyddi gwleidyddol yng ngwledydd Prydain. Mae'r prosiect yn cynnal gweithdai i egluro'r broses wleidyddol i fenywod, ac mae'n defnyddio technoleg fwyfwy i gysylltu menywod gyda'i gilydd drwy weminarau a chylchoedd rhithwir cefnogi cyfoedion. Ochr yn ochr ag ymgyrch 50:50, maent yn defnyddio ystod o ddulliau ymgyrchu i annog pobl i ofyn i fenywod sefyll, ac maent yn cefnogi menywod i fynegi a cheisio cymorth ar gyfer eu huchelgais wleidyddol drwy addo neu ymrwymo'n gyhoeddus i'w nodau.

Dywedodd y cyfranogwyr wrthym hefyd am ystod o fentrau a ddatblygwyd ledled y byd mewn pleidiau gwleidyddol, gyda chyrff anllwyodraethol mewn gwledydd a chyda cefnogaeth ryngwladol. Gan ddechrau yn 2012, cynhaliodd y British Council brosiect [Menywod yn Gyfranogi mewn Bywyd Cyhoeddus](#) yn yr Aifft, Tiwnisia, Libya a Moroco, gan dargedu pobl rhwng 18 a 30 mlwydd oed. Ni ddatblygodd cyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth menywod cymaint â'r disgwyl ar ôl y Gwanwyn Arabaidd, ond drwy adeiladu capasiti menywod trwy hyfforddi hwyluswyr, ymchwil gweithredol a chreu rhwydweithiau, cafodd effaith gadarnhaol ar gannoedd o fenywod: 'adroddodd y menywod [iddynt] ennill sgiliau newydd i gyfryngu dadleuon, siarad yn gyhoeddus, cyflwyno syniadau yn rhesymegol ac yn huawdl, cryfhau dadleuon... mae'r prosiect wedi cyfrannu at gynydd yn hygredded tybiedig menywod penodol a oedd yn rhan o'r prosiect.'⁷ Yn America, Canada ac [Awstralia](#) mae mentrau penodol mewn pleidiau, sy'n codi arian i ymgeiswyr benywaidd, megis [Emily's List](#) gan Blaid Ddemocrataidd America a chronfa [Judy La Marsh](#) y Blaid Ryddfrydol yng Nghanada, a [Sefydliad She Leads](#) gan y Ceidwadwyr yno'n fwy diweddar. Pwysleisiodd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad bwysigrwydd parhau â'r cyfleoedd datblygu proffesiynol hyn pan maent yn y swydd: 'does dim gwerth os yw'n diflannu mwyaf sydyn,' meddai Meenakshi Dhar o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

MENYWOD YN GWEITHIO AR DRAWS PLEIDIAU

Yn Ne Affrica, rydym wedi gweld pa mor rymus yw menywod yn dod at ei gilydd mewn ffordd drefnus. Ym 1954, gwelsom lansiad Ffederasiwn Menywod De Affrica, a aeth ymlaen i siapio'r Siarter Menywod gyntaf yn Ne Affrica. Mae cawcysau menywod nawr yn chwarae rhan bwysig yn Ne Affrica, gan olrhain deddfwriaeth, darparu gofod i drafod ac ymchwilio a dylanwadu ar ddyraniad cyllidebau, er enghraifft yr ymgyrch bresennol i gael gwared ar dreth ar dyweli misglwyf.

Angela Thokozile Didiza, cyn Weinidog, De Affrica

Dros yr ugain mlynedd diwethaf [mae cyrff seneddol menywod](#), y cyfeirir atynt yn aml fel cawcysau, wedi dod yn nodwedd a welir yn gynyddol mewn seneddau. Ystyrir grwpio ar draws pleidiau fel cyfle i 'feithrin arweinyddiaeth, cynyddu cyfranogiad effeithiol a thrafod deddfwriaeth' a all gyflawni polisi sy'n sensitif i rywedd drwy gydweithio. Clywsom fod gwerth cawcysau yn driphlyg: eu gallu i weithio'n bragmataidd, gan ddarparu arddull wahanol o gynrychiolaeth; cryfhau'r *undod a'r rhwyddineb* rhwng menywod i gydweithio ar ddeddfwriaeth; a dod ag arbenigedd sefydliadau menywod, academyddion a'r gymdeithas sifil ynghyd gyda gwleidyddion.

Mae [Cymdeithas Seneddol Menywod Kenya](#) wedi bod yn llwyddiannus yn dylanwadu ar ddeddfwriaeth ar briodas a iechyd atgenhedlu, ac mae'n gweithio gyda sefydliadau llawr gwlad i roi [diwedd ar anffurfio organau cenedlu benywod](#). Wrth i fenywod gymryd 33 y cant o seddi yn etholiadau 2012 Serbia, manteisiwyd ar y cyfle i greu [Rhwydwaith Seneddol i Fenywod](#). anffurfiol. Mae system 'troika' yn cylchdroi cydlynid ymhlith y pleidiau gwleidyddol. Yn Ne Affrica, sefydlwyd y [Pwyllgor ar Gawcysau Aml-Bleidiol y Menywod](#) yn 2017 i *weithio ar sut rydym yn systemeiddio* ymchwil, craffu ac olrhain gwariant adrannol a'i effaith. Yn Awstralia, clywsom fod cydweithio ar draws pleidiau

wedi dod o ganlyniad i ddymuniad menywod i lenwi'r bylchau ym mhlatfformau pleidiau gwleidyddol. Roedd brwdfrydedd i gael modelau tebyg i rai [Costa Rica](#) lle mae pwyllgor sy'n gyfrifol am hawliau menywod, y cawcws a chorff technegol parhaol yn gweithio ar y cyd.

Yn Senedd y Deyrnas Unedig, sefydlwyd Pwyllgor Dethol [Menywod a Chydraddoldebau](#) a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin yn 2015, ac fe'i disgrifiwyd gan y cyfranogwr fel yr allwedd i gael *materion na fyddai dim ond menywod yn eu codi'n wleidyddol* ar yr agenda. Mae [Grŵp Cyfeirio Tŷ'r Cyffredin ar Gynrychiolaeth a Chynhwysiant](#), sy'n fwy newydd, wedi'i alw ynghyd gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin i sicrhau bod y Senedd yn fwy cynrychioladol. Mae [Grwpiau Seneddol Hollbleidiol](#), anffurfiol, fel y rhai ar Gydraddoldeb Rhyw a Menywod yn y Senedd, hefyd yn gwella gwybodaeth ac arbenigedd yn San Steffan. Mae [Cawcws Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad](#) wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â thangynrychiolaeth menywod ym mywyd cyhoeddus Cymru. Yng Ngogledd Iwerddon clywsom am rôl debyg y [Seminar Cyfnewid Gwybodaeth](#) a gwaith Politics Plus yn llywio'r ffordd i sefydlu [Cawcws i Fenywod](#) yn Stormont yn 2016. Yn anffodus, mae gwaith y cawcws hwn wedi'i gyfyngu o achos cwmp y Cynulliad yn 2017 a grymoedd yn cael eu dychwelyd i lywodraeth y Deyrnas Unedig tan i bleidiau Gogledd Iwerddon ddod i gytundeb.

Clywsom am gyfyngiadau gwirioneddol ar effeithiolrwydd y mecanweithiau hyn ar draws y byd, gan gynnwys: gwleidyddiaeth bleidiol; i ba raddau y mae llywodraethau yn agored i graffu a chydweithio gyda chyrff o'r fath; anhawster wrth sicrhau amser yn y senedd; a llwyddiant deddfwriaethol yn parhau i ddibynnu ar aliniad gydag agendâu llywodraethol. Er enghraifft, nododd y cyfranogwr fod y [llywodraeth wedi gwrthod](#) argymhellion y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau yn 2017 ar [gynyddu nifer yr Aelodau Seneddol](#) benywaidd yn Senedd y Deyrnas Unedig.



Ymunodd miloedd o fenywod mewn protest ar strydoedd São Paulo, Brasil i dynnu sylw at anghydraddoldeb rhwng y rhywiâu a thrais yn erbyn menywod.



© NurPhoto/Getty

CREU UNDOD RHYNGWLADOL

Mae'n ymwneud â bwydo'ch celloedd bach llwyd gyda syniadau, clywed beth sy'n digwydd ar draws y byd.

Maria Miller AS, Senedd y Deyrnas Unedig; Cadeirydd, Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin

Yn fyd-eang, ers i fenywod gael eu hethol, maent wedi creu cymunedau gwerthfawr o gynrychiolwyr etholedig, yn dod at ei gilydd i gynyddu capasiti a gwybodaeth o ran datrysiadau ac arferion deddfwriaethol. Mae llawer o'r cyfleoedd hyn yn dod â gwleidyddion benywaidd at ei gilydd gan fynd ati'n benodol i ddefnyddio fframweithiau normadol a/neu gyfreithiol byd-eang fel sail i ddeall cydraddoldeb rhwng y rhywiâu fel rhywbeth hanfodol er mwyn cryfhau llywodraeth ddemocrataidd, hawliau dynol a datblygiad cynaliadwy. Hynny yw, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod yn 1979, Datganiad Beijing yn 1995 a'r [Nodau Datblygu Cynaliadwy](#) yn 2015. Clywsom am y gwaith sy'n cefnogi hyn gan sefydliadau rhyngwladol a rhyng-seneddol, gan gynnwys y [Undeb Rhyng-Seneddol](#) (IPU); [Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad](#) (CPA); [Rhwydwaith Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad](#) (CWP); [Rhwydwaith Menywod mewn Llywodraeth Leol y Gymanwlad](#); [Fforwm Arweinwyr Gwleidyddol Benywaidd y Byd](#); sydd wedi'i leoli yng Ngwlad yr Iâ; gwaith [Menywod y Cenhedloedd Unedig](#), [Sefydliad Democratiaeth San Steffan](#) (WFD), y [Sefydliad Democratiaid Cenedlaethol a ParlAmericas](#). Mae seneddwyr benywaidd y Deyrnas Unedig yn weithredol ar draws y rhwydweithiau hyn, gan rannu a dysgu; dywedodd y rhai y clywsom ganddynt eu bod yn dymuno ymwneud mwy eto.

Mae ParlAmericas, er enghraifft, yn cefnogi ymdrechion seneddau i ddatblygu gweithredu deddfwriaethol sy'n sensitif i rywedd, gan greu *gofodau gweithio cynhwysol sy'n meithrin cyfnewid arferion gorau rhwng cyfoedion, a darparu adnoddau a chefnogaeth arbenigol i gefnogi'r ymdrechion hyn*. Mae ParlAmericas wedi lansio fideo, [Mapping Gender-Based Political Harassment: Parliamentarians speak out](#). Mae'r gofod rhyngweithiol hwn yn cynnwys tystiolaeth gan

seneddwyr ar draws America a'r Caribî am aflonyddwch a thrais rhywiol. Mae [iKNOW Politics](#) yn brosiect ar y cyd rhwng [International IDEA](#), yr Undeb Rhyng-Seneddol, [Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig](#) a Menywod y Cenhedloedd Unedig. Gan fanteisio ar arbenigedd y pedwar partner hwn, mae'r prosiect yn ceisio trosoli grym gwybodaeth, cyd-ddealltwriaeth, profiadau a rennir a thechnoleg gyfathrebu, gan weithredu fel llwyfan i feithrin 'cyfnewid, deialog a chreu gwybodaeth ar gyfer pawb sy'n rhan o'r gwaith o hyrwyddo cyfranogiad gwleidyddol menywod'. Yn 2018, sefydlodd Julia Gillard, cyn Brif Weinidog Awstralia, [Sefydliad Arweinyddiaeth Menywod y Byd](#) sy'n mynd i'r afael â thangynrychiolaeth menywod mewn swyddi arweinyddol yn ehangach ar draws yr holl sectorau a'r gwledydd.

Roedd y cyfranogwyr yn cwestiynu'r diffyg cysylltiadau ffurfiol rhwng menywod mewn gwahanol sefydliadau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, ac roeddent yn awyddus i weld cawcws i fenywod yn cael ei ddatblygu i ddod â nhw ynghyd. Yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban yn enwedig, soniodd menywod am bwysigrwydd [Lobi Menywod Ewrop](#) er mwyn creu gofod i ddod ynghyd ar draws yr Undeb Ewropeaidd ar faterion sy'n berthnasol i fenywod. Roedd pryder ynghylch y posibilrwydd o golli cyfranogiad y Deyrnas Unedig yn y rhwydwaith hwn o achos Brexit, ac roedd brwdfrydedd eang i gryfhau'r mecanweithiau rhyngwladol a thraws-ranbarthol. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn cydnabod y gallai cydweithredu mwy strategol, efelychu arferion a gwerthuso gwell, gynyddu effaith y rhwydweithiau rhyngwladol hyn a'u helpu i fod yn fwy cynhwysol i fenywod o bob gwlad. Caiff cyfranogiad mewn rhwydweithiau o'r fath ei gyfyngu gan gost, amser, a chaniatâd. Yn ogystal, ni chaiff dylanwad rhwydweithiau rhyngwladol ei weld fel rhywbeth niwtral bob tro, ac ar adegau gall fod yn rhwystr i fenywod os caiff ei ystyried fel ymyrraeth o'r tu allan ym mhrosesau democrataidd cenedl. Mae cydnabyddiaeth frwdfrydig o'r rôl gynyddol mae technoleg yn ei chwarae wrth alluogi perthnasau a chydweithio trawswladol.

Rydym mewn cyfnod amserol i fynd ati go iawn i wthio'n galed, agor drysau, bod yn radicalaidd. Beth bynnag sydd ei angen i gael mwy o amrywiaeth ar bob lefel. Mae angen i bleidiau gwleidyddol wthio, yn ogystal ag unigolion.

CYFARFOD BORD GRON CYMRU

Mae atgyfodiad wedi bod yn lefel yr ymgyrchu dros gydraddoldeb i fenywod. Rydyn ni'n gweld ton newydd o fenywod ifanc yn dod i weithredu ac yn mynd â hynny i'r camau nesaf.

LESLEY ABDELA, UWCH BARTNER, SHEVOLUTION CONSULTANCY

Mae angen i safbwyntiau newid, ond mae'n anodd heb newid rheolau, gan fod y grym wedi gwreiddio cymaint, a phobl yn ofn colli gafael arno, ac mae'r gwrthsafiad mor gryf. Rwy'n teimlo'n besimistaidd os na chaiff rheolau eu newid; ac wrth gwrs, mae angen cefnogi'r rheolau caled gyda newid mewn agwedd.

YR ATHRO SARAH CHILDS, ATHRO GWLEIDYDDIAETH A RHYWEDD, PRIFYSGOL LLUNDAIN

Y RHEOLAU

Mae'r amserlen sydd wedi'i chynnwys yn yr astudiaeth hon yn dangos y cynnydd a wnaed drwy newidiadau cyfreithiol dros y can mlynedd diwethaf i gael cynrychiolaeth gyfartal yng ngwledydd Prydain. Clywsom y cyfranogwyr yn dathlu'r newidiadau arwyddocaol hyn i'r rheolau a'u heffaith ar gynrychiolaeth menywod. Ond eto, clywsom fod yr angen i newid y rheolau yn parhau er mwyn gwneud y broses yn deg, a chlywsom sut y gall rheolau hynafol hefyd weithredu yn anffurfiol fel rhwystr i fenywod.

Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y drafodaeth am rwystrau a galluogwyr i gynnydd menywod wrth greu a gweithredu rheolau'r system wleidyddol oedd: y system etholiadol; rôl yr ail siambr; dull dewis ymgeiswyr y pleidiau; strwythur a dull rheoleiddio pleidiau; atebolrwydd yn y fframweithiau a'r deddfau rhyngwladol; ac ariannu gyrfaoedd gwleidyddol. Yr enghreifftiau roedd cyfranogwyr yn eu hystyried yn bwysig, ac rydym yn eu trafod yma mewn mwy o ddyfnder, yw: grym casglu data; mesurau arbennig dros dro – cwotâu; mecanweithiau rhanbarthol ar gyfer menywod: yr Undeb Ewropeaidd; a symud systemau gwleidyddol: gwersi gan Gymru a Chanada.

Y SYSTEM ETHOLIADOL

Roedd cydnabyddiaeth eang bod system cyntaf i'r felin mewn etholiadau (fel y defnyddir, er enghraifft, mewn etholiadau i Senedd y Deyrnas Unedig a chynghorau lleol Lloegr) yn rhwystr neilltuol i gynrychiolaeth menywod, a chefnogir hynny gan ystod o dystiolaeth ymchwil.⁸ Yn gyffredinol, caiff systemau cynrychiolaeth gyfrannol eu hystyried fel rhai mwy effeithiol, ynghyd â mesurau megis cwotâu ac eiledu (lle caiff pleidiau eu gorfodi i roi ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd bob yn ail mewn system cynrychiolaeth gyfrannol): *y system cyntaf i'r felin sy'n achosi'r her fwyaf wrth gymryd camau gweithredu cadarnhaol*. Er bod arolygon barn wedi dangos bod y cyhoedd yn cefnogi [diwygio'r system etholiadol](#), yn y Deyrnas Unedig, pleidleisiodd 67.9 y cant yn erbyn hyn mewn [referendwm](#) yn 2011, ond pleidlais ar system Bleidleisio Amgen oedd hyn, a dim ond 42.2 y cant oedd y ganran a bleidleisiodd.

Mae grym gwleidyddol sylweddol wedi'i ddatganoli o Senedd y Deyrnas Unedig i ddeddfwrfeydd cenedlaethol. Ac ar yr un pryd, mae [systemau pleidleisio newydd](#) wedi cael eu cyflwyno. Mae hyn wedi cynyddu cynrychiolaeth gan fenywod mewn rhai achosion, ond mae'r darlun yn un cymhleth: yn gyffredinol, mae'r Alban wedi ethol mwy o fenywod drwy'r dull pleidleisio cyntaf i'r felin, o ganlyniad i ddefnydd pleidiau o gwotâu ar sail rhyw, nag y gwnaeth drwy restrau rhanbarthol cyfrannol.⁹ Cynnydd cymharol fach sydd wedi bod yng Ngogledd Iwerddon, er iddynt ddefnyddio mwy o ffurfiau o [gynrychiolaeth gyfrannol](#).

RÔL YR AIL SIAMBR

Mae gan Senedd y Deyrnas Unedig ail siambr neu siambr uwch, sef Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r siambr hon yn annibynnol ar waith Tŷ'r Cyffredin (y tŷ is o gynrychiolwyr etholedig), ac yn ei ategu. Ym 1963, pan ganiatawyd menywod i [Dŷ'r Arglwyddi](#) am y tro cyntaf, roedd hyn ar ffurf arglwyddi etifeddol. Ers diwygio ym 1999, mae'r siambr uchaf nawr yn cynnwys arglwyddi am oes yn hytrach nag arglwyddi etifeddol, ac mae mwy o gynrychiolaeth gan fenywod ymhlith y rhain. Er i ni glywed datganiadau cadarnhaol am y ffyrdd o weithio a rôl menywod yn Nhŷ'r Arglwyddi, clywsom y *dylai'r system benodi fod wedi arwain at fwy o newid*. Gwelir bod y twf yn nifer cyffredinol yr arglwyddi ers 2013 wedi arwain at nifer llai o fenywod yn gymesur, oherwydd y caiff penodiadau *eu dominyddu gan noddwyr pleidiau a chyn-weinidogion* [sy'n fwy] *tebygol o fod yn ddynion*. Mae'r seddi sydd wedi'u cadw ar gyfer esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi peri i gydbwysu rhwng y rhywiau fod yn heriol. Rhoddodd [Deddf Arglwyddi Ysbrydol \(Menywod\) 2015](#) fesur arbennig dros dro ar waith, yn gosod amod mai esgobion benywaidd yn unig ddylai lenwi seddi gwag sy'n dod i'r amlwg ymhlith esgobion.

8 Mortimer J, Terry C Women in Westminster: Predicting the number of Women MPs, Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Mawrth 2015.

9 'Women in Scottish Politics', Dr Meryl Kenny, 2018, papur briffio a baratowyd ar gyfer Cyfarfod Bord Gron yr Alban.

DULL DEWIS YMGEISWYR Y PLEIDIAU

Pleidiau gwleidyddol sydd wrth y llyw o ran sicrhau cynrychiolaeth gan fenywod fel ymgeiswyr seneddol a chynghorau lleol. Rhwng 1918 ac etholiad cyffredinol 1997, dim ond 188 o fenywod oedd wedi cael eu [hethol fel Aelodau Seneddol](#). erioed. Yn yr wythdegau cynnar, roedd Grŵp Hollbleidiol y 300 yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio is-etholiadau, megis un Virginia Bottomley ym 1984, i herio pryderon o fewn ac ar draws y pleidiau y byddai pleidleiswyr yn gwrthod menywod: [dangosodd yr etholiadau hyn y *byddai pleidleiswyr yn pleidleisio i fenywod, dim problem*. Clywsom fod y digwyddiadau hyn yn bwysig er mwyn herio'r status quo o ran dewis menywod, ac mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai etholwyr y Deyrnas Unedig yn [pleidleisio i ddyn neu fenyw](#).

Mae hyn wedi rhoi'r pwyslais ar heriau dull y pleidiau o ddewis ymgeiswyr a sefyll mewn seddi y mae modd eu hennill. Ystyrir bod dull rheoleiddio a gweithrediadau pleidiau yn benodol yn seiliedig ar rywedd; gall rheolau'r broses ddewis a'r porthorion niferus weithio un ai i [ddadffocio'r biblinell i fenywod, neu i gadw'r status quo](#). Cyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ym 1997, aeth y Blaid Lafur i'r afael â hyn drwy Restrâu Byrion Menywod yn Unig. Roedd y camau penodol hyn yn mynd i'r afael â'r anfantais i fenywod: roeddent yn sicrhau bod hanner y seddi yr oedd modd eu hennill ar agor i fenywod yn unig i'w dewis fel ymgeiswyr y Blaid Lafur. Gwnaeth hyn wahaniaeth sylweddol yn nifer yr Aelodau Seneddol benywaidd. Etholwyd 120 o fenywod i'r Senedd, ac roedd 101 ohonynt yn Aelodau Seneddol Llafur. Roedd y rhai y siaradom gyda nhw yn ystyried 1997 yn hollbwysig: *pe na bai gan fy ward restr fer o fenywod yn unig, mwy na thebyg na fyddwn i wedi llwyddo*.

Er i'r drefn gael ei herio yn y blaid ac mewn tribiwnlys diwydiannol, ac na ddefnyddiwyd y dull yn 2001, paratôdd y Restrâu Byrion Menywod yn Unig y ffordd ar gyfer deddfwriaeth newydd i ganiatáu gweithredu o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadau) 2002, sydd nawr mewn grym tan 2030 o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#). Yn 2018, ehangodd y Blaid Lafur yr arfer, yn anffurfiol, gyda'r [Rhestr Fer Menywod \(Duon a Lleiadrifoedd Ethnig\) yn Unig](#) gyntaf yn is-etholiad Lewisham. Mae dull y Blaid Lafur yn ddiweddar wedi [cynnwys menywod traws](#), cam sydd wedi achos cryn ddadlau yn y blaid, gan ei fod yn mynd y tu hwnt i'r gyfraith. Mae Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi mabwysiadu mesurau tebyg erbyn hyn, ac mae gan y Blaid Werdd ymrwymiad cryf i ail-agor prosesau rhestrau byrion os oes diffyg ymgeiswyr benywaidd a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ym mis Awst 2018, wrth i'r blaid edrych tuag at ddechrau dewis ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad nesaf, bu i gadeirydd y Blaid Geidwadol, Brandon Lewis, gydnabod bod 80 y cant o Aelodau Seneddol ei blaid yn ddynion, a bod y blaid eisiau ['newid radicalaidd'](#) yn y senedd, drwy osod uchelgais bod rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr swyddogol y blaid fod yn fenywod.

STRWYTHUR A DULL RHEOLEIDDIO'R PLEIDIAU

Nododd y cyfranogwyr benywaidd o bob plaid yn glir bod rhaid i arferion dewis effeithiol y pleidiau fod yn seiliedig ar sicrhau dylanwad a dilysrwydd gwell i fenywod yn y pleidiau yn gynharach. Roedd menywod y Blaid Lafur yn canmol rheolau a gyflwynwyd yn yr wythdegau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod cynrychiolaeth gyfartal gan fenywod ymhlith swyddogion y blaid, gan nodi ei fod wedi 'creu cyfle i fwy o aelodau benywaidd gymryd safleoedd o gyfrifoldeb... Roedd hyn yn rhoi profiad gwleidyddol i fenywod, fel bod menywod yn barod i allu cyrraedd y rhestrau byrion. Cafodd tuedd menywod i ddal yn ôl hefyd ei herio.' (Meg Munn, Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb 2005–07, AS 2001–15.)

Mae'r holl bleidiau gwleidyddol yng ngwledydd Prydain wedi wynebu mwy o reoleiddio allanol ers 2000. Er hynny, clywsom alwadau am reoleiddio cryfach gan y caiff deddfwriaeth cydraddoldebau a chyflogaeth bresennol ei gweithredu'n *anghyson ac yn anghyfartal ar draws y pleidiau*. Roedd rhai yn gobeithio y gallai hyn gefnogi *ail-rywedd gwleidyddiaeth bleidiol drwy reoleiddio pleidiau, i gyflawni cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth gan fenywod*. Yn benodol, roedd cyfranogwyr eisiau gweld rheolau mewnol cryfach sy'n diogelu rhag ymddygiad rhywiaethol ac atgas tuag at fenywod gan aelodau'r pleidiau, gan gynnwys camdriniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol; y pleidiau'n gweithredu'r ddyletswydd gyhoeddus statudol i hyrwyddo cydraddoldeb yn amlycach, a gwneud ariannu cyhoeddus pleidiau yn amodol ar fwy o amrywiaeth.

Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod ymdrechion presennol yn canolbwyntio'n ormodol ar *normaleiddio* menywod mewn strwythurau pleidiol a seneddol sydd eisoes yn bodoli, sydd wedi'u dylunio o gwmpas anghenion dynion, ac roeddent yn dymuno gweld dull mwy radicalaidd: *nid yw [pleidiau] yn gartrefi naturiol nac yn llefydd mae menywod eisiau mynd iddyn nhw i ddatrys problemau, neu caiff menywod eu rhoi mewn geto*. Dadleuir y dylid disodli'r strwythurau presennol: *beth am dafu'r hen drefn drwy'r ffenest, ac ymfurfio mewn modd newydd a ffres*. Dywedodd sefydlwyr [Plaid Cydraddoldeb Menywod y Deyrnas Unedig](#) eu bod wedi sefydlu'r blaid gan eu bod yn teimlo nad oedd y model presennol yn gweithio i fenywod. Nod y blaid yw sicrhau apêl eang ar draws yr etholaeth gyfan ac osgoi safbwyntiau sy'n rhannu barn: *roedd yn ymwneud â chael llais gwahanol a phobl wahanol, a phersonoliaeth wahanol y tu ôl iddi*.

Ers 1918, mae 491 o fenywod wedi'u hethol fel Aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae cyfanswm nifer y menywod sydd wedi'u hethol i'r Tŷ ers 1918 nawr wedi mynd heibio i nifer presennol y dynion sy'n eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin (442).

Aelodau Seneddol Benywaidd: Papur Cefndir, Awst 2018, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Nodyn Briffio

ATEBOLRWYDD O FEWN FFRAMWEITHIAU A DEDDFAU RHYNGWLADOL

Clywsom yn gyson mai'r gwledydd hynny sy'n ymddangos fel petaent yn gwneud y mwyaf o gynnydd o ran cynrychiolaeth menywod yw'r rheini sydd wedi cyfeirio eu hymdrechion at ddiwygio yn seiliedig ar y cyfleoedd mewn fframweithiau a deddfau rhyngwladol allweddol. Gwelir dau ffactor fel rhai hollbwysig – cynnull menywod ynghyd, a chytuno i weithredu'n fyd-eang ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau menywod – ac maent wedi effeithio i ryw raddau ar yr holl wledydd sy'n ymrwmo i fframweithiau byd-eang sy'n pwysleisio *grym rhai o'r confensiynau rhyngwladol a bod mecanweithiau dilynol yn parhau.*

Mae tri fframwaith canolog sy'n diogelu hawliau menywod mewn cyfraith rhyngwladol yr oedd y cyfranogwyr o'r farn eu bod yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu cyfranogiad menywod mewn grym a gwleidyddiaeth: [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod](#) (CEDAW, 1979) [Datganiad a Llwyfan Gweithredu Beijing y Cenhedloedd Unedig](#) (1995), a [Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig](#) (2015). Er enghraifft, *ar ôl* [Datganiad] *Beijing, roedd hi'n drafodaeth wahanol.*

Clywsom fod y gwledydd sy'n defnyddio'r ymrwymadau hyn yn effeithiol yn gallu cyhoeddi cynlluniau, dyrannu adnoddau a bod ganddynt fecanweithiau atebolrwydd, ac y cânt eu cefnogi hefyd drwy weithio tuag at fecanweithiau atebolrwydd rhanbarthol. Clywsom am arferion rhanbarthol cryf yn rhannau o Affrica, megis drwy [Undeb Affrica](#), ac yn America Ladin a'r Caribî. Caiff fframweithiau byd-eang eu hategu gan fecanweithiau rhanbarthol pwysig, megis y Gynhadledd Ranbarthol Tairflynyddol ar Fenywod yn America Ladin a'r Caribî, a drefnir gan Gomisiwn

Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer America Ladin a'r Caribî (ECLAC) a'r Confensiwn Rhyng-America ar Atal, Cosbi a Dileu Trais yn erbyn Menywod (Belém do Pará) a'i [feganwaith dilynol](#) yng Nghomisiwn Menywod Rhyng-America a Chymdeithas Taleithiau America.

Tynnodd cyfranogwr sylw at y ffaith bod *cydraddoldeb rhwng y rhywiau a rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn rhannau allweddol o'r sgwrs, gydag ymrwymadau rhanbarthol ar greu fframwaith o ddeddfau ar y materion hyn.* Roedd llawer o'r cyfranogwyr rhyngwladol yn ystyried y Deyrnas Unedig fel gweithredwr rhyngwladol yn yr ymdrech i gael dull yn seiliedig ar dystiolaeth o sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran agendâu datblygu ac o ran cefnogi gwledydd yn yr ymrwymadau hyn, fel y dangoswyd yn yr adroddiad [Gweledigaeth Strategol ar gyfer Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau: Ei Photensial, Ein Dyfodol](#) gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y rhwydweithiau hyn wedi cael eu defnyddio'n llai effeithiol yng ngwledydd Prydain, er bod [Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol](#) yr Alban wedi'i ddylunio i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar draws yr holl feysydd polisi. Yng gwledydd Prydain, clywsom yn aml am ddatgysylltiad rhwng eu hymrwymadau rhyngwladol a'r camau a gymerir yn ein gwledydd ein hunain, megis *rydyn ni'n gwneud llawer o siarad ac ymchwil ac ati, ond mae gwneud newid ystyrion yn anoddach.* Mae arwyddion o newid posibl i helpu i gau'r bwllch gweithredu hwn gyda mwy o weithio ar draws y llywodraeth ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan gynnwys maes dod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben, ynghyd â phenodi Penny Mordaunt AS fel Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol ac fel Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau.

CYNRYCHIOLAETH YN Y DEYRNAS UNEDIG YN ÔL RHYW

Tŷ'R CYFFREDIN (Y Tŷ ISAF)

650 **208**
seddi fenywod



Tŷ'R ARGWLWYDDI (Y Tŷ UCHAF)

798 **209**
seddi fenywod



ARIANNU GWLEIDYDDIAETH

Soniodd menywod wrthym am y rhwystrau ariannol sy'n atal gyrfa mewn gwleidyddiaeth ar bob cam, gan gynnwys nad yw eu gobeithion ar gyfer bywyd ar ôl gwleidyddiaeth yn cyfateb i ragolygon yn dynion. Mae arian yn rhwystr yn fyd-eang, er ei fod yn amrywio o ran math a maint, fel y gwelwyd yn yr ymchwil am [Fenywod mewn Seneddau](#). a gomisiynwyd gan Fanc y Byd. Soniodd cyfranogwyr benywaidd o'r mudiad Llafur yng ngwledydd Prydain am llawer o fenywod yn elwa ar gefnogaeth undebau llafur pan oeddent yn ymgeiswyr, a deillir bod Plaid Cydraddoldeb Menywod wedi dechrau taliadau gofal plant ar gyfer ymgeiswyr, ond yn ystod y cam cyn dewis cytunwyd nad oedd llawer o gyllid ar gael i ymgeiswyr benywaidd. Soniodd rhai menywod bod cau'r [Gronfa Mynediad at Swyddi Etholedig](#) wedi rhwystro menywod anabl fel ymgeiswyr yn ddifrifol. Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y sefydliad Inclusion Scotland y bydd [cronfa ymgeiswyr anabl yr Alban](#). yn ail-agor. Unwaith y maent yn y swydd, y tu allan i seneddau cenedlaethol, mae'r [tâl yn amrywiol iawn ac yn isel yn gyffredinol](#). Siaradodd menywod yng ngwledydd Prydain am gosbau ariannol arweinyddiaeth, *ar y fainc gefn* [cynghorydd heb swydd weinyddol na llefarydd yr wrthblaid] *roedd gen i swydd llawn amser.*

Nawr dw i ar y fainc flaen [safle gweinyddol mewn cyngor lleol] *dw i'n ennill llai, a dw i erioed wedi gweithio mor galed yn fy mywyd...* Clywsom hefyd am reoliadau *hynod gymhleth* ar gyfer treuliau gofal plant sy'n annog menywod i beidio ceisio am symiau bach hyd yn oed, pan fo etholwyr yn beirniadu gwleidyddion drud.

Yn rhyngwladol, clywsom fod seneddwyr mewn rhai gwledydd fel Pacistan nid yn unig yn cael cyflog nad oes modd byw arno, ond hefyd eu bod yn talu am eu staff neu eu swyddfa, a bod rhaid iddynt dalu am y rhain eu hunain, [gan eithrio pawb ond y cyfoethocaf](#). Roedd effaith hyn yn glir i un cyfranogwr: *mae angen i* [fenywod] *redeg mewn etholiadau o dan amodau cyfartal, ac ar hyn o bryd maen nhw'n gwneud hynny o dan amodau gwahanol iawn. Yn gyffredinol, does ganddyn nhw ddim is-adeiledd ymgyrchu, dim cynorthwyr, ac adnoddau ariannol cyfyngedig. Felly dydy pobl ddim yn pleidleisio drostyn nhw, achos does dim modd dod i'w nabad nhw. Hyd yn oed gydag is-adeiledd cyfyngedig, maen nhw'n dal i lwyddo i gael 1,000 neu 2,000 o bleidleisiau. Dychmygwch pa mor bell bydden nhw'n mynd o dan amodau ymgyrchu mwy cyfartal. Ym Mrasil, caiff ymgeiswyr benywaidd sy'n dibynnu ar yr un lefel o adnoddau ariannol ag ymgeiswyr gwrywaidd eu pleidiau, fel arfer eu hethol gyda nifer sylweddol o bleidleisiau.*

GRYM CASGLU DATA

Mae'r Undeb Rhyng-Seneddol nawr yn rhestru 193 o wledydd yn nhabl data blynyddol Menywod mewn Seneddau Gwladol. Mae'r tabl wedi'i gyhoeddi ers bron i 30 mlynedd, ac fe'i hystyrir hyd heddiw fel mesuriad allweddol o gynrychiolaeth menywod mewn gwleidyddiaeth. Mae'r ymarfer casglu data hwn, sydd wedi'i hen sefydlu, yn dangos grym data wrth godi ymwybyddiaeth a chreu newid yn natblygiad menywod o ran cynrychiolaeth wleidyddol, gan ei fod yn galluogi olrhain lefelau cynrychiolaeth. Clywsom gan gyfranogwyr rhyngwladol fod cynrychiolwyr gwledydd eisiau deall pam eu bod nhw lle maen nhw a sut mae cyrraedd yn uwch yn y tabl.

Yn rhyngwladol, clywsom yr ystyrir bod gwledydd Prydain yn arwain ym maes casglu a dadansoddi data. Yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol, siaradodd llawer o gyfranogwyr yn angerddol am y ffaith bod gwledydd Prydain wedi gorfodi eu cyflogwyr i gyhoeddi eu [bwllch cyflog rhwng y rhywiâu](#) yn 2018. Clywsom fod y sylw yn y wasg ar ôl datgelu'r rownd gyntaf o ddata cyflog yn dangos bod *pobl wedi deall y stori*. Roedd awgrymiadau y gallai ymyriadau tebyg yn seiliedig ar ddata i ddangos y bwllch yng nghynrychiolaeth wleidyddol menywod ar draws gwledydd Prydain hefyd fod yn llwyddiannus. O ganlyniad, roedd galw sylweddol

am weld gwelliannau o ran casglu data ar ryngblethu a menywod yn y system wleidyddol, yn benodol gweithredu [Adran 106 o'r Ddeddf Cydraddoldeb](#) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gasglu a chyhoeddi data amrywiaeth eu hymgeiswyr, ac ehangu'r gofyniad hwn i etholiadau lleol: *dw i wedi fy syfrdanu nad oes gofyniad* [mewn deddf] *i gasglu'r data mewn pleidiau gwleidyddol – mae seneddau ieuencid yn ei wneud.*

Mae galwadau am welliannau o ran data ar gydraddoldeb rhwng y rhywiâu yn atseinio'r pryderon a amlygwyd yn adroddiad cysgodol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod y Deyrnas Unedig yn 2018: 'Mae diffyg data [yn adroddiad gwladol y Deyrnas Unedig], [sy'n adlewyrchu diffyg hanesyddol yn y dull casglu data systematig sy'n ofynnol er mwyn monitro cydraddoldeb menywod](#)'. Caiff yr ysfa hon am ddata gwell ei gweld yn rhyngwladol hefyd; mae Menywod y Cenhedloedd Unedig wedi cynnal proses pedair blynedd o hyd i [ddiffinio mesurau o dan y Nodau Datblygu Cynaliadwy i fesur cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol](#). Mae cymuned fyd-eang o arferion yn bodoli i archwilio ac i ganfod datrysiadau i'r heriau data niferus yn ymwneud â chydaddoldeb rhwng y rhywiâu yn [WikiGender](#).

MESURAU ARBENNIG DROS DRO - CWOTÂU

Clywsom alwadau am fesurau arbennig dros dro wedi'u deddfu, hynny yw cwotâu wedi'u deddfu, i gyflawni cydraddoldeb 50:50 o ran cynrychiolaeth ar draws seneddau a llywodraeth leol. Ymhlith y rhai a oedd o blaid cwotâu oedd y rhai *nad oedd yn naturiol o'u plaid, ond yn teimlo bod y ddadl yn perswadio*, y rheini a oedd yn siarad o brofiad o fod wedi'u hethol ar gwota: *Roeddwn yn teimlo wedi fy ngrymuso ac wedi fy nghywilyddio ei bod wedi dod i hyn, ond doedd dim lle wrth y bwrdd fel arall* a menywod a oedd yn goresgyn gwrthwynebiad personol cryf: *sylweddolais nad oedd dim yn newid yn strwythurol er gwaetha'r holl fenywod hynod alluog; doedd newid ddim yn digwydd yn ddigon cyflym*. Mae'r alwad hon yn atseinio ymgyrch [Menywod 50:50, Rhyw a Grym](#) (2018), [y Gynhadledd ar Gynrychiolaeth yn y Senedd](#) Llefarydd y Deyrnas Unedig (2010), y [Senedd Dda](#) (2016) a'r [Ymchwiliad i Fenywod yn Nhŷ'r Cyffredin](#) gan Bwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau (2017).

Mae gwledydd Prydain ac eraill y tu ôl i'r gwledydd hynny sy'n defnyddio mesurau llwybr cyflym megis cwotâu rhywedd cyfreithiol; Rwanda a Bolifia (safle cyntaf ac ail safle yn nhabl data'r Undeb Rhyng-Seneddol ar gynrychiolaeth menywod mewn seneddau gwladol). Mae gan y ddwy wlad gwotâu ymgeiswyr mewn deddf, ac mae'r gwledydd sydd hebddynt, gan gynnwys gwledydd Sgandinafia, ar ei hôl hi gyda chynrychiolaeth o gwmpas [35–40 y cant](#). Mae rhyw ffurf ar gwota neu gyfuniad o fathau o gwotâu yn gweithredu mewn mwy na [hanner gwledydd y byd](#) a 21 o 54 [o wledydd y Gymanwlad](#).

Gellir ystyried bod y gefnogaeth a welsom ar gyfer cwotâu yn groes i ddadleuon yn nghyfyngau prif ffrwd gwledydd Prydain. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo, o ystyried y diffyg cydsyniad gwleidyddol ar y mater, bod deddfwriaeth yng ngwledydd Prydain yn annhebygol ar hyn o bryd. Ystyrir bod y gwrthwynebiad yng ngwledydd Prydain yn deillio o syniadau am danseilio'r egwyddor o ddewis pobl ar sail gallu a dilysrwydd cynrychiolwyr a etholir drwy gwotâu, ac mae'n gyson ag [arolygon barn y cyhoedd](#): *byddai'n cael ei weld fel ymyrraeth anferth yn y broses democrataidd*.

Er bod cyfranogwyr yn cydnabod yn agored y problemau sy'n gysylltiedig â chwotâu sydd wedi'u dylunio a'u gweithredu'n wael, roeddent yn mynegi rhwystredigaeth nad yw llawer o wledyddion na'r cyhoedd yn deall yn iawn sut caiff systemau cwota eu gweithredu, a'n bod yn *dal i orfod amddiffyn ansawdd menywod sy'n dod i'r byd gwleidyddol*. Bu ymchwil a oedd yn dadansoddi naw o'r mythau mwyaf cyffredin am Aelodau Seneddol a etholwyd yng ngwledydd Prydain ar Restrâu Byrion Menywod yn Unig yn edrych ar lefelau cymharol o brofiad a gweithgarwch, a chanfuwyd: *nad yw cwotâu yn bygwth 'cymhwysedd' ar unrhyw gam o'r broses wleidyddol, ac nid yn unig nad oes diffyg 'ansawdd' yn gysylltiedig â'r defnydd o gwotâu ar sail rhyw, ond mae'n bosib y gallai rhestrau byrion menywod yn unig arwain at ddewis ymgeiswyr gwell*.

Derbyniwyd y byddai angen mesurau sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n benodol i gyd-destunau gwledydd Prydain, Ni welwyd hyn chwaith fel dewis amgen i newidiadau hirdymor yn y seneddau, y pleidiau a gwleidyddiaeth. Roedd y pethau allweddol a ddysgwyd yn seiliedig ar arfer rhyngwladol y clywsom amdanynt gan gyfranogwyr yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

Ennill arweinyddiaeth wleidyddol o drafodaeth gyhoeddus: Arweiniodd argyfwng ariannol Iwerddon ar ôl 2008 at bwyslais hollbwysig ar system wleidyddol Iwerddon, a thrafodaeth am ddiwygio gwleidyddol a roddodd gyfle i fynd i'r afael â chynrychiolaeth menywod.

Yn 2012, bu i Iwerddon ddeddfu cwotâu cynrychiolaeth menywod o 30 y cant, a fydd yn codi i 40 y cant yn 2023. Roedd pleidiau nad oeddynt yn cydymffurfio [mewn perygl o golli 50 y cant o'u harian cyhoeddus](#). Ym 1996, gwnaeth Seland Newydd newid sylweddol i'r system bleidleisio i symud oddi wrth y system cyntaf i'r felin, gyda defnydd cydamserol o [gwotâu yn system rhestrau'r pleidiau](#). Er bod newidiadau sylweddol i systemau etholiadol yn brin mewn democratiaeth sefydlog, mae hyn yn dangos nid yn unig llwyddiant wrth newid system yn ei gwraidd – mae cynnydd wedi bod yng nghynrychiolaeth menywod fel Aelodau Seneddol Maori, Pasifika ac Asiaidd – ond hefyd bod modd cael cefnogaeth y cyhoedd i gyflawni newid llwyr os ystyrir ei fod yn gwella cynrychiolaeth.

Dylunio ar gyfer cydraddoldeb: clywsom fod *trafodaethau bywiog ynghylch cwotâu yn America Ladin*, lle bu i lawer o lywodraethau ddeddfu yn y nawdegau i gael cynrychiolaeth menywod o 30 y cant, ond (fel Bolifia) maent nawr yn symud tuag at [cynrychiolaeth menywod o 50 y cant](#). Nod y camau hyn yw mynd i'r afael ag effaith anfwriadol cwotâu sy'n creu nenfwd ar gyfer cynrychiolaeth menywod, yn hytrach na llawr. Mae llawer o wledydd sy'n defnyddio systemau cynrychiolaeth gyfrannol yn gallu dylunio cwotâu sy'n eiledu ymgeiswyr benywaidd a gwrywaidd (lle mae gorfodaeth ar bleidiau i amnewid ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd). Mae modd defnyddio cwotâu mewn systemau cyntaf i'r felin yn dal i fod, fel y defnyddir mewn rhai etholiadau yng ngwledydd Prydain, er enghraifft drwy baru etholaethau cyfagos fel bod paneli dewis y blaid yn dewis un dyn ac un fenyw, neu ddefnyddio rhestrau byrion menywod yn unig yn hanner y seddi y mae modd eu hennill.

Cydbwyso cymelliannau a sancsiynau, a gorfodi cydymffurfiaeth: mae angen cymelliannau, sancsiynau a gorfodaeth er mwyn bod yn effeithiol. Yn Timor Leste, mae pleidiau sydd â 30 y cant ymgeiswyr yn fenywod ar eu rhestrau yn ennill [amser ychwanegol ar y radio a'r teledu](#). Yn 2012, daeth [Algeria](#) i fod yr unig wladwriaeth Arabaidd i fod â mwy na 30 y cant o Aelodau Seneddol benywaidd, drwy wrthod unrhyw restrau pleidiau a oedd yn methu â chyflawni lleiafswm penodol o fenywod oedd wedi'i gyfrifo ar sail maint etholaethau. Yn Ffrainc, cynnydd bach yn unig yn nifer y menywod a welwyd yn dilyn cyflwyno deddf cydraddoldeb 50:50 yn 2000, i 38.6 y cant yn y senedd wladol, gyda rhai gostyngiadau ar lefel ranbarthol a lleol. Ystyrir bod effaith y gyfraith wedi bod yn gyfyngedig o achos diffyg cymelliannau a sancsiynau effeithiol i gael menywod i seddi y mae modd eu hennill, rhai diwygiadau etholiadol anghyson diweddarach, ac ymgais strategol i sefydlu pleidiau newydd dros dro yn fwrriadol [er mwyn osgoi'r gyfraith cydraddoldeb](#).


Rhoi cefnogaeth ar waith: Mae angen cefnogaeth o'r cam cyn dewis hyd at yr yrfa ar ôl gwleidyddiaeth, i *gryfhau dilysrwydd a sgiliau, a mynd i'r afael â diffyg cefnogaeth i wleidyddion benywaidd o gymharu â dynion*. Mae'r rhai sy'n feirniadol o systemau cwota yn cyfeirio at y perygl o ethol menywod sydd heb lawer o brofiad gwleidyddol, sydd o bosib yn cael eu rheoli gan rymoedd teuluol, llinachol, pleidiol neu gymunedol. Mae menywod ym Mangladesh wedi cael eu diystyru a'u bychanu fel 'breninesau cwotâu', ond eto roedd cyfranogwr rhyngwladol yn teimlo bod tystiolaeth yn dangos bod ganddynt lai o adnodd na'r dynion cyfatebol.¹⁰ Ym Mecsico, mae gofyniad llwyddiannus i sicrhau bod canran o arian cyhoeddus yn cael ei gwario ar [hyfforddi ymgeiswyr benywaidd](#). Roedd cyfranogwyr yn cefnogi cynnig hyfforddiant ac addysg i baneli dewis ac aelodau pleidiau ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a rhagfarn anymwybodol, i newid syniadau o ran *sut mae pleidiau'n ffurfio normau ynghylch beth yw ymgeisydd da*.

208

yw nifer yr Aelodau Seneddol a etholwyd yn ystod Etholiad Cyffredinol 2017 – y nifer uchaf erioed, a 32 y cant o'r holl Aelodau Seneddol. Mae hyn wedi codi o 191 yn etholiad 2015, a dyma'r gyfran uchaf o unrhyw etholiad i Senedd y Deyrnas Unedig hyd yma.


Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

DEDDFWRFEYDD DATGANOLEDIG – MENYWOD YN Y LLYWODRAETH




Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

NIFER YR YMGEISWYR BENYWAIDD YN ETHOLIADAU CYFFREDINOL Y DEYRNAS UNEDIG




Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

AELODAU SENEDDOL DUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG A ETHOLWYD MEWN ETHOLIAD CYFFREDINOL (1987-2017)




Lleiafrifoedd Ethnig mewn Gwleidyddiaeth a Bywyd Cyhoeddus

CEFNDIR YSGOL AELODAU SENEDDOL YN ÔL RHYW




Braint Seneddol – Aelodau Seneddol 2017, Briff Ymchwil, Ymddiriedolaeth Sutton

LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL NEU DRAWSRYWEDDOL



Mae 45 o'r 650 o Aelodau Seneddol yn diffinio'u hunain yn agored yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsryweddol (LHDT)

Newyddion y BBC



© hpgruesen/Pixabay – CC0

Yn dilyn etholiadau Senedd Ewrop yn 2014, roedd 41 y cant o Aelodau Senedd Ewrop y Deyrnas Unedig yn fenywod.

Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

MECANWEITHIAU RHANBARTHOL AR GYFER MENYWOD: YR UNDEB EWROPEAIDD

Yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn benodol, clywsom am bwysigrwydd hanesyddol rôl yr [Undeb Ewropeaidd](#) o ran gyrru cynnydd. Mae cydraddoldeb rhwng menywod a dynion yn un o egwyddorion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd. Mae deddfwriaeth, cyfraith achosion a newidiadau i Gytuniadau wedi rhoi llawer o hawliau i fenywod yng ngwledydd Prydain, mae'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn dull ['dau lwybr i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes cydweithio datblygu cydweithrediad: prif ffrydio rhywedd a gweithredoedd sy'n seiliedig ar rywedd mewn nifer o ardaloedd'](#) ac mae ganddo [Gynllun Gweithredu Rhywedd](#) cynhwysfawr. Mae'r rhwymedigaeth 'dim atchwelyd' sydd ar aelod-wladwriaethau yn golygu, [na ellir tynnu hawliau cydraddoldeb yn ôl](#) ar ôl eu hennill. Pan fo aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn trafod fel bloc yn y Cenhedloedd Unedig, mae ei bwyslais ar hawliau menywod yn golygu ychwanegu pwysau sylweddol yn fyd-eang i'r agenda am gyfranogiad cyfartal i fenywod.

Beth mae Ewrop wedi'i wneud i Gymru. Mae'r Undeb Ewropeaidd, sydd wedi bod yn cefnogi gwahanol gyfleusterau i fenywod, ynghyd â chefnogi hawliau menywod o ran absenoldeb mamolaeth, yn golygu bod Ewrop wedi bod yn bwysig i fenywod. Mae'n gysylltiad y mae cyfranogwyr Gogledd Iwerddon yn awyddus i'w gadw: mae angen hoelio'r cysylltiadau sydd gennym gyda'r Undeb Ewropeaidd, e.e. y Lobi Menywod, mae arnom angen llais ar y lefel honno yn dal i fod, ac mae angen clywed beth sy'n digwydd.

Mae cydnabyddiaeth yn dilyn [pleidlais y Deyrnas Unedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd](#), nad yw cydraddoldeb yn

cael ei flaenoriaethu yn y broses: *roedd refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn teimlo fel dadl rhwng dynion, ac mae diffyg parhaus o fenywod o gwmpas y bwrdd fel rhan o'r [tîm negodi craidd](#). Er bod ymchwil gan academyddion ac arbenigwyr polisi ers 2016 yn rhagweld effaith niweidiol i fenywod, megis adroddiad annibynnol y [Grŵp Cyllideb Menywod a Fawcett](#), ym mis Mawrth 2018 adroddiad Fawcett, mae pryderon yn dal i fod nad oes trafodaeth ystyrlon ar lefel y llywodraeth ynghylch effaith Brexit ar fenywod, a does dim tystiolaeth o asesiad effaith cydraddoldeb ar unrhyw agwedd: *heblaw am y [Grŵp Cyllideb Menywod](#) ni fyddem yn gwybod sut mae Brexit yn effeithio ar fenywod.**

Gwelwyd colli mecanwaith rhanbarthol fel risg i hawliau menywod yng ngwledydd Prydain: *Mae Brexit yn beryglus iawn, byddwn ni'n cael ein gadael ar ôl pan fyddwn ni'n edrych ar awdurdodaethau eraill yng nghydestun camau i ddad-reoleiddio a thorri biwrocratiaeth.* Galwodd y cyfranogwyr am ddiogelu amddiffyniadau hawliau dynol a chydaddoldeb sydd eisoes yn bodoli ar frys, ac mewn ymateb i [dystiolaeth y llywodraeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod yn 2018](#) amlygodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y perygl na fyddai amddiffyniadau yn orfodol yn ôl cyfraith y Deyrnas Unedig neu y byddent yn cael eu diddymu. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai gwledydd Prydain ddefnyddio'r cyfle hwn i ddwyn ysbrydoliaeth gan y gwledydd hynny sydd wedi defnyddio Deddf Hawliau â grym cyfansoddiadol i ddiogelu hawliau dynol y tu allan i reolaeth gwleidyddion.

SENEDD EWROP (35.2 Y CANT YN FENYWOD)

GWLAD	SEDDI	MENYWOD	%
Y Ffindir	13	8	61.5
Y Deyrnas Unedig	72	24	33.3
Awstria	17	7	41.2
Malta	5	0	0

Menywod mewn cynullïadau seneddol rhanbarthol. Dewiswyd y gwledydd uchod i ddangos ystod cynrychiolaeth menywod yn Senedd Ewrop.

SYMUD SYSTEM: YNG NGHANADA A CHYMRU

Roedd y cyfranogwyr yn crybwyll yn aml yr angen am newid yn y system er mwyn gwreiddio cynnydd menywod o ran grym a gwleidyddiaeth mewn democratiaeth. Cyfeiriwyd yn aml at ddwy enghraifft o systemau gwleidyddol a llywodraethu sy'n gweithio yn y ffordd hon, ac felly byddai'n ddefnyddiol eu rhannu. Canada a Chymru oedd y rhain; mae Canada yn ddemocratiaeth gynrychioliadol sydd â system ffederal o ddemocratiaeth seneddol, ac mae Cymru'n weinyddiaeth ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig.


Yn 2018, mae Canada hefyd yn cydnabod canmlwyddiant ers i rai menywod ennill yr hawl i bleidleisio, gan fod menywod brodorol heb gael yr hawl i bleidleisio tan y chwedegau. Ar hyn o bryd mae Canada 19 safle yn is na'r Deyrnas Unedig yn y [tablau rhyngwladol](#) ar gynrychiolaeth menywod, ac roedd llawer o'r cyfranogwyr yn gweld y newidiadau yn y polisi a'r arfer yn gyffrous: *mae rhywedd wedi dod yn rhan o brif ffrwd eu hagenda*. Cyfeiriwyd at wreiddiau cyffredin fel gwledydd sy'n siarad Saesneg, tebygrwydd y system etholiadol, cyfieithu gwersi o wledydd Nordig, yn enwedig Sweden, a sylfaen gref mewn fframweithiau cyfreithiol hawliau dynol fel ffactorau allweddol wrth edrych tuag at Ganada. [Canada oedd un o'r gwledydd cyntaf i gadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod](#), gan sefydlu Gweinidog dros Fenywod ym 1971 ac asiantaeth lywodraethol [Statws Menywod](#) Canada ym 1976.

Mae cyhoeddiad Justin Trudeau am y cabinet cyntaf i gael cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghnada 'gan ei bod hi'n 2015', wedi cael ei gydnabod fel carreg filltir mewn arweinyddiaeth ar [gydraddoldeb menywod mewn grym a gwleidyddiaeth](#). Yn sail i'r datganiad amlwg hwn mae dull systematig o *fewnosod rhywedd* yn y dull o wneud penderfyniadau gwleidyddol. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys mabwysiadu polisi cynorthwyo rhyngwladol ffeministaidd [#HerVoiceHerChoice](#) yn 2017 a dull Canada o ddadansoddi cyllidebau yn ôl rhyw. Mae'r newidiadau strwythurol hyn yn hyrwyddo [newid diwylliant ac arddull arwain fodern](#), gyda gweision sifil yn trafod yn agored 'sut caiff cyfarfodydd eu cynnal; osgoi "fegluro" a dynion yn torri ar draws menywod; mynd i'r afael â rhagfarn anymwybodol – y pethau sy'n fwy cynnil ac awgrymog.' Mae'r llywodraeth wedi wedi atal mesur aelod preifat i gyflwyno cwotâu, ond mae camau parhaus yn cael eu cymryd i greu cydraddoldeb yng nghynrychiolaeth menywod, a oedd yn weladwy mewn diwygiadau i benodiadau annibynnol Seneddwr yn 2016, a oedd yn gofyn yn benodol am adlewyrchu amrywiaeth Canada, ac a welwyd mewn [penodiadau diweddar](#); buddsoddiad yn Equal Voice i greu gweithredoedd arloesol megis [Daughters of the Vote](#), sy'n cefnogi merched a menywod i fynd i'r byd gwleidyddol, gan gynnwys canolbwytio ar fenywod brodorol; a [Chronfa Gymunedol i Fenywod](#) sy'n buddsoddi yng nghyfranogiad llawn menywod ym mywyd economaidd, cymdeithasol a democrataidd Canada.

Yn 2003, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd) yng Nghymru oedd y corff llywodraethu cyntaf yn y byd i gael nifer cyfartal o ddynion a menywod, gan ei osod ar y blaen i Sweden. Yn yr ail gyfres o etholiadau, dychwelodd y Blaid Lafur 19 o fenywod ac 11 dyn, dychwelodd y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru 50 y cant o fenywod, ac fe aeth yr Aelodau Cynulliad Ceidwadol o ddim un i ddwy fenyw o 11 o aelodau. Perodd hyn syndod ar draws y byd o achos [cyflymder a maint y newid](#). Gyda dim ond pedair o 40 Aelod Seneddol Cymru yn Senedd y Deyrnas Unedig yn fenywod ym 1997, ystyriwyd bod diffyg democrataidd sylweddol. Cafodd cyflwyno paru etholaethau a chadw llefydd i fenywod ar frig rhestrau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ei briodoli i *fenywod* [gwleidyddion ac mewn cymdeithas sifil] a *wnaeth alwadau cyn y setliad datganoli* am [ddyletswydd cydraddoldeb statudol yn y Ddeddf a oedd yn sefydlu'r Cynulliad](#). Yn 2003, gwelwyd hyn gan rai fel cyfiawnhad bod mesurau dros dro o'r fath yn gallu cyflawni newid cyflym, 'Mae'r pendil wedi symud. Erbyn hyn mae gennym fodolau rôl hyderus iawn sydd wedi annog mwy o fenywod i gamu ymlaen' ([Rhodri Morgan, Prif Ysgrifennydd Cymru](#), 2000–09).

Mae gan y Cynulliad enw da pellgyrhaeddol fel sefydliad cynrychioliadol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at y clod y mae wedi'i dderbyn am fod yn weithle addas i bobl sydd â theuluoedd, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a phobl ag anabledd, ynghyd â'r ffaith bod ganddo fenywod mewn swyddi arweinyddol cryf. Ond, yn 2016, nododd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru bod risg uchel o gwmp yng nghynrychiolaeth menywod yn y Cynulliad; nodwyd bod menywod yn fwy tebygol o fod yn amddiffyn etholaethau sydd angen brwydo amdanynt, a dynion i raddau helaeth yn y [seddi diogel](#).

Ar ôl Etholiad y Cynulliad yn 2016, roedd Cymru yn dal i fod yn un o'r deddfwrfeydd datganoledig mwyaf cynrychioliadol, ond dim ond [41.7 y cant o'r Aelodau oedd yn fenywod](#). Nododd yr Athro Laura McAllister bod 'mantais y deiliad' yn arafu cyfradd newid; bathwyd y term hwn i ddisgrifio sefyllfa lle mae camau cadarnhaol cynnar wedi creu grŵp o fenywod sydd wedi'u hethol yn ystod dau etholiad cyntaf y Cynulliad ym 1999 neu 2003 a oedd â mwy o gyfle i gael eu hail-ddewis a'u hail-ethol wedi hynny, ond wedi hynny bod y Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi 'camu'n ôl' o fesurau cadarnhaol i hyrwyddo menywod, gan olygu bod [dynion yn dechrau disodli menywod mewn niferoedd anghymesur](#). Mae cyfuno hyn gydag ymddeoliad menywod a etholwyd yn wreiddiol ym 1999 a 2003, yn 'creu mantais i'r deiliad sy'n gweithio o blaid dynion, ac yn achosi heriau pellach wrth geisio cydraddoldeb rhwng y rhywiau', fel y mae'n gwneud yn San Steffan. Er mwyn cyflawni newid parhaus, clywsom alwadau am *gynllun etholiadol ar gyfer symud menywod ymlaen – mae'n fater o roi blaenoriaeth o ddiffri i'r materion hyn*.



Mae cyflawni mwy o'r busnes yn ystod oriau swyddfa yn golygu bod y sefydliad yn ymddangos mwy fel lle i weithio ynddo o ddifri, ac yn llai fel clwb yfed i ddynion.

JO SWINSON, AS, SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG ¹¹



11 Swinson J, *Equal Power* 2018, tudalen 47.

Y GWEITHLE GWLEIDYDDOL

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yng ngwledydd Prydain o ran yr amodau i fenywod yn y gweithle gwleidyddol ym mhob deddfwrfa. Fodd bynnag, awgrymodd y cyfranogwyr fod cyflawni newid diwylliannol wedi cymryd mwy o amser, a bod dulliau patriarchaidd yn dal i fod wedi'u gwreiddio yn sefydliadau gwleidyddol gwledydd Prydain, ac felly ei bod wedi teimlo ar adegau fel *dau gau ymlaen ac un cam yn ôl*.

Cefnogir hyn gan ymchwil yn dangos bod menywod yn y senedd yn dal i gael eu trin fel ymwithwyr; fel 'tresmaswyr di-groeso', sy'n wynebu gelyniaeth o'r herwydd. O ganlyniad, mae llawer o fenywod yn canolbwyntio ar ['ddatblygu awdurdod drwy brofi eu gwerth](#) yn barhaus' a thrwy osod eu hunain 'y tu hwnt i feirniadaeth'.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo ymdeimlad o frys, gan ddadlau dros ystod o gamau rhagweithiol a beiddgar i fynd i'r afael â strwythurau grym a phatrymau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn o ran sut *rydyn ni'n gwneud pethau fan hyn*. Mae'n alwad am ddull system gyfan o greu seneddau a sefydliadau gwleidyddol sy'n sensitif i rywedd, a ddiffinnir gan yr Undeb Rhyng-Seneddol fel 'un sydd â'i strwythurau, ei weithrediadau, ei dulliau a'i waith yn ymateb i [anghenion a diddordebau dynion a menywod](#)'.

Y prif themâu a oedd i'w clywed ar draws sefydliadau gwleidyddol gwledydd Prydain oedd newid agweddau a normau yn y gweithle; meithrin ewylls ar y cyd; manteisio ar gyfleoedd i ddylunio menywod yn y strwythur; newid y naratif; a rhywiaeth a chamdriniaeth. Yr enghreifftiau y clywsom amdanynt yw: mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle; setliadau a dyheadau gwleidyddol newydd; creu senedd dda: grŵp cyfeirio trawsbleidiol Tŷ'r Cyffredin; a llywodraeth leol.

NEWID AGWEDDAU A NORMAU YN Y GWEITHLE

Caiff newidiadau cadarnhaol mewn sefydliadau gwleidyddol eu cysylltu â'r newid ehangach a welwyd dros y can mlynedd diwethaf o ran gweithleoedd yn addasu i'r nifer cynyddol o fenywod yn y gwaith a rôl ddatblygedig menywod mewn cymdeithas: *mae seneddau'n ficrocosm o'r gymdeithas ehangach, mae seneddau sy'n fwy sensitif i rywedd yn tueddu i adlewyrchu cymdeithas sy'n fwy cytbwys o ran y rhywiau*.

Mae llawer o newidiadau ymarferol wedi galluogi cyfranogiad menywod yn y gweithle gwleidyddol.

Mae nifer o newidiadau ar waith i wneud gweithleoedd yn fwy addas i rieni, ac maent yn hanfodol o ystyried y nodwyd bod bwch mamolaeth ymhlith seneddwyr y Deyrnas Unedig, hynny yw, [mae mamau wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth](#) yn Nhŷ'r Cyffredin. Er enghraifft, mae Senedd yr Alban wedi darparu gofal plant am ddim i Aelodau a'u hymwelwyr ers iddi agor, mae Senedd y Deyrnas Unedig nawr yn cynnig [meithrinfa](#) ar gyfer sesiynau dydd a nos; mae rhai cynghorau lleol yn cynnig cyfleusterau bwydo o'r fron, wedi adolygu eu horiau busnes deddfwriaethol, ac yn trin rhai [costau gofal plant](#) fel treuliau a ganiateir. Yn 2018, mae camau wedi'u cymryd i gyflwyno ['absenoldeb babanod'](#) i aelodau o Senedd y Deyrnas Unedig. Er bod symudiadau cadarnhaol, clywsom am yr angen am ragor o gynnydd a chysondeb, ac roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylai sefydliadau gwleidyddol gydymffurfio yn fwy tryloyw â'r rheolau a'r safonau sy'n arferol mewn gweithleoedd ar draws y sector cyhoeddus a phreifat, ac y gellid gwneud mwy i ddysgu gan sectorau eraill.

MEITHRIN EWYLLYS AR Y CYD

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod na fydd cynnydd cyflym a pharhaus yn digwydd oni bai bod ewylls wleidyddol gref, perchnogaeth sefydliadol a chyfrifoldeb ar y cyd i yrru'r newid. Mae hyn yn gofyn am fabwysiadu arferion blaengar yn y gweithle *yn gyffredinol* yn yr holl sefydliadau cenedlaethol a lleol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i bleidiau, arweinwyr, aelodau etholedig a swyddogion oll chwarae rhan – gan dynnu sylw at ymddygiad gwael; treialu ffyrdd newydd o weithio; gweithio ar draws pleidiau, sectorau a ffiniau. Dywedwyd wrthym bod hyn yn cynnwys rhannu'r hyn a ddysgir gydag academyddion ymgyrchwyr, busnesau a chymunedau: *allwn ni ddim mynd i'r afael â hyn fel mater ynddo'i hun. Mae angen i ni gyflwyno newid diwylliannol ar draws y system. Mae hyn yn dibynnu arnon ni i gyd i ymrwymo i fyw ac anadlu'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gweld, gwneud nid dweud!*



Yn 2013, roedd oddeutu 45 y cant o Aelodau Seneddol benywaidd heb blant, o gymharu â dim ond 28 y cant o Aelodau Seneddol gwrywaidd.

MANTEISIO AR GYFLEOEDD I DDYLUNIO MENYWOD YN Y STRWYTHUR

Clywsom am bwysigrwydd defnyddio cyfleoedd i ddylunio is-adeiledd a diwylliant mwy cynhwysol a gwella perfformiad o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau; bod unrhyw gyfnod o newid yn cynrychioli cyfle i ailddylunio o gwmpas menywod. Soniodd aelodau o ddeddfwrfeydd cenedlaethol gwledydd Prydain wrthym sut *mae'r broses o ddatganoli wedi cynnig cyfleoedd pwysig i seneddau arloesi a thrawsblannu syniadau newydd i draddodiadau cryfion San Steffan*, a manteisio ar y cyfle i newid er mwyn dylunio'n bwrpasol. Ystyriwyd mai amrywiol oedd y graddau y manteisiwyd ar gyfleoedd tebyg mewn camau i ddatganoli grym i Gynulliad Llundain, ac yn ddiweddarach i ddinas-ranbarthau yn Lloegr.

NEWID Y NARATIF

Roedd cyfranogwyr yn ystyried bod newidiadau i ddiwylliant ac arferion yn y gweithle mewn sefydliadau gwleidyddol yn *well i bawb*; yn helpu gwleidyddion i weithio'n well; yn cefnogi cynrychiolaeth mwy cynhwysol; ac yn gwella democratiaeth. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod newid yn golygu bod angen i'r cyfryngau, a phawb sy'n gweithio yn y byd gwleidyddol, fod yn eiriolwyr dros y manteision ehangach: *er enghraifft, byddai mwy o hyblygrwydd, oriau sy'n addas i rieni ac opsiynau i weithio'n rhan amser yn fanteisiol i ddynion a menywod*. Ystyriwyd y

byddai'n fanteisiol pe bai Senedd y Deyrnas Unedig yn symud tuag at weithio yn ystod oriau busnes arferol, yn hytrach na gyda'r hwyr fel sydd wedi digwydd yn draddodiadol, a hynny nid yn unig i fenywod ond i ddynion, pobl ag anableddau a phobl â chyfrifoldebau gofalu hefyd, ac i alluogi cynrychiolwyr i aros mewn cysylltiad â'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli.

RHYWIAETH A CHAMDRINIAETH

Clywsom gan gyfranogwyr bod angen enbyd i roi diwedd ar *gasineb* mewn gwleidyddiaeth. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod presenoldeb rhywiaeth ddydd i ddydd ar draws pob lefel o wleidyddiaeth, a diffyg parch tuag at fenywod. Disgrifiodd rhai bod diwylliant sy'n gyffredinol ymosodol yn rhan sylfaenol o *ddyluniad, strwythurau a chonfensiynau gwrthwynebol* [Senedd y Deyrnas Unedig]. Cyfeiriodd [Cynhadledd y Llefarywr ar Gynrychiolaeth yn y Senedd yn 2010](#) at bryderon tebyg a dderbyniwyd: 'Nodwyd yn aml yn y dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniom, ar ein fforwm ar-lein ac yn ein trafodaethau o gwmpas y wlad, bod canfyddiad o ddiwylliant y senedd fel un ymosodol yn rhwystr i bobl rhag cyfranogi'. Canfu [Fawcett](#) fod 'bron i bedwar ymhob deg o gynghorwyr benywaidd wedi profi sylwadau rhywiaethol oedd wedi'u cyfeirio atynt gan gynghorwyr eraill' a 'thystiolaeth o ddiwylliant *macho* ac ymosodol yn llawer o siambrau cynghorau'. Gwelir hyn fel 'symptom o ddiwylliant patriarchaidd' sydd wedi ceisio diogelu'r dynion mae'n eu gwasanaethu ers amser maith.

AMRYWIAETH CYNGHORWYR BENYWAIDD

OEDRAN

Cynghorwyr rhwng 65 a 74 oed

35%

ANABLEDD

Cynghorwyr a ddywedodd fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

19% benywaidd

22% gwrywaidd


ETHNIGRWYDD

Cynghorwyr a oedd yn arddel hunaniaeth ddu a lleiafrifoedd ethnig

5.5% benywaidd

3.8% gwrywaidd

A yw Llywodraeth Leol yn Gweithio i Fenywod?
Cymdeithas Fawcett



MYND I'R AFAEL AG AFLONYDDU RHYWIOL YN Y GWEITHLE

Ym mis Tachwedd 2017, ar ôl cyfres o gyhuddiadau yn ymwneud â chamymddygiad rhywiol a diwylliant o fwlio yn San Steffan, gorchmynnodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, Theresa May, adolygiad i'r modd y gellir atal a chosbi ymddygiad o'r fath yn well. Datgelodd [adroddiad](#) dilynol gan y gweithgor trawsbleidiol o seneddwr fod un ymhob pump o bobl sy'n gweithio yn Senedd y Deyrnas Unedig wedi profi neu wedi bod yn dyst i aflonyddu rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda menywod yn adrodd dwywaith cymaint o achosion o aflonyddu rhywiol â dynion. Canfu arolwg ar wahân a gynhaliwyd gan yr [Ymddiriedolaeth Menywod Ifanc](#) fod 51 y cant o Aelodau Seneddol benywaidd ac 17 y cant o Aelodau Seneddol gwrywaidd yn San Steffan yn bersonol ymwybodol o aflonyddu rhywiol sy'n digwydd yn y senedd.

Mae llywodraethau a phleidiau gwleidyddol eraill, ar draws gwledydd Prydain ac yn rhyngwladol, hefyd wedi bod yn dod i delerau â maint y broblem. Mae [arolwg gan yr Undeb Rhyng-Seneddol](#) wedi canfod bod 65 y cant o seneddwr benywaidd ar draws y byd wedi profi sylwadau rhywiol bychanol, a bod 21 y cant wedi profi rhyw fath o drais rhywiol. Ym mis Mawrth 2018, aeth swyddogion y Cenhedloedd Unedig, diplomyddion ac arbenigwyr o'r gymdeithas sifil ati i drafod [sut i oresgyn aflonyddu rhywiol yn y Cenhedloedd Unedig](#), gan gydnabod nad oes unrhyw sefydliad gwleidyddol yn ddiogel rhagddo, a bod angen arweinyddiaeth o'r brig.

Yn dilyn argymhellion y Gweithgor, cyflwynodd [Grŵp Llywio Polisi Cwynion ac Anghydfod Annibynnol Senedd y Deyrnas Unedig](#) raglen ddiwygio, a oedd yn ystyried: mabwysiadu polisi aflonyddu rhywiol unigol

cryf newydd; gweithdrefn annibynnol ar gyfer adrodd, cefnogaeth a chwynion yn cynnwys cyngor arbenigol ar drais rhywiol; cod ymddygiad newydd ar gyfer pawb yn y Senedd a chryfhau mesurau i hyrwyddo cyfrinachedd ac osgoi erledigaeth i'r rhai sy'n cwyno. Cymeradwywyd y rhaglen a [Pholisi Cwynion ac Anghydfod](#) newydd trwy bleidlais ym mis Gorffennaf 2018. Roedd y cyfranogwyr y clywsom ganddynt yn croesawu dull ac argymhellion y Gweithgor, gan gynnwys arweinyddiaeth weithgar ac amlwg gan fenywod, aelodaeth eang y grŵp, ei ymrwymadau i ddatblygu polisi arbenigol ac i ddiwylliant dim goddefgarwch. Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i weld newidiadau sylfaenol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar draws pob sefydliad gwleidyddol ac mewn bywyd cyhoeddus yn ehangach, gan gynnwys mewn cynghorau lleol.

Ystyrir bod y gwaith hwn yn gydnabyddiaeth arloesol y gall diwylliant seneddau fod yn elyniaethus mewn ffyrdd cudd, yn enwedig i fenywod o achos aflonyddu rhywiol, ac mae'n fodel o sut gellir mynd i'r afael â hyn er mwyn cael gwared â'r rhwystrau mwyaf grymus i fenywod rhag cyfranogi mewn gwleidyddiaeth. Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Andrea Leadsom AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, a fu'n cadeirio'r [adroddiad trawsbleidiol](#), 'bydd y weithdrefn annibynnol newydd yn dangos ein bod ni eisieu bod y senedd orau yn y byd o ran trin pawb sy'n gweithio yma gydag urddas a pharch. Mae hwn yn gam sylweddol wrth gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen ar y Senedd.' Clywsom fod seneddwr y Deyrnas Unedig eisoes wedi rhannu'r hyn maent yn ei ddysgu gyda Chanada, o dan arweiniad Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau.

SETLIADAU A DYHEADAU GWLEIDYDDOL NEWYDD

Pan enillodd rhai menywod yr hawl i bleidleisio ym 1918, roedd yn rhan o newid ehangach yn y trefniant gwleidyddol gan fod [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl](#) hefyd yn rhyddfrefinio pum miliwn o ddynion dosbarth gweithiol. Nododd y cyfranogwyr fod y patrwm hwn o wneud enillion i fenywod fel rhan o newid ehangach i gyfansoddiad gwleidyddol cenedl yn thema a gaiff ei hailadrodd. Er enghraifft, bu i genhedloedd a oedd wedi'u coloneiddio ehangu'r rhyddfraint i fenywod yn ystod y broses o ddiwygio cyfansoddiadol pan ddaethant yn annibynnol, megis Pacistan. Ym Mhacistan, rhoddwyd y bleidlais i fenywod ym 1947, cafodd pleidleisiau mewn etholiadau cenedlaethol eu haildatgan yng nghyfansoddiad dros dro 1956, ac mae'r [cwotâu yn dal i gael eu defnyddio heddiw](#). Ond ni chymerodd eraill y cyfle hwn i ddylunio cydraddoldeb i fenywod yn y strwythur. Gydag annibyniaeth Samoa ym 1962 er enghraifft, dim ond matais (neu benaethiaid gwrywaidd) gafodd yr hawl i bleidleisio, ac ni chyflwynwyd yr hawl i bawb bleidleisio tan 1991. Er hynny, clywsom eu bod wedi datblygu [model cwota](#) ers hynny a all fod yn ddefnyddiol i wledydd eraill yn y rhanbarth.

Clywsom fod creu sefydliadau gwleidyddol newydd yng ngwledydd Prydain wedi cynnig cyfle enfawr i newid, gan *nad oes status quo i'w oresgyn*; heb fwyafrif o ddynion eisoes wedi'i sefydlu, mae'n haws gwrthio tuag at gynhwysiant o'r dechrau. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at y drefn o sefydlu deddfwrfeydd cenedlaethol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban fel cam

hollbwysig yng ngwledydd Prydain, lle llwyddodd gwleidyddion benywaidd a phwysau gan sefydliadau cymdeithas sifil i arwain at drafodaethau a sbarduno cyfranogiad gwleidyddol cyfartal menywod. At hynny, clywsom y cymhellwyd menywod yn yr Alban i newid y drafodaeth ynghylch dyheadau am annibyniaeth yn ystod y refferendwm annibyniaeth yn 2014: *cafodd y refferendwm annibyniaeth ei feirniadu'n eitha trwm yn gynnar, ond yna fe welsom gynnydd o ran ymgyrchwyr ar lawr gwlad, a menywod yn symud o wleidyddiaeth g fach i wleidyddiaeth g fawr*.

Er hynny, clywsom hefyd am siom menywod yn Lloegr pan na welwyd unrhyw gamau amlwg i ddylunio cydraddoldeb i fenywod yn rhan o'r strwythur ar ddechrau'r broses o [ddatganoli](#) grymoedd i lefel dinas-ranbarthau. Bu i'r trafodaethau, y dewis o ymgeiswyr, ac etholiad dilynol chwe dyn i'r chwe rôl 'Maer Metro' ddenu beirniadaeth sylweddol am y [diffyg amrywiaeth o gwmpas y bwrdd](#) o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan ddynion y tu ôl i ddrysau caeedig. Wedi hynny, cymhellwyd menywod a dynion i alw am fwy o lais i fenywod a sylw i amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar lefel dinas-ranbarthau, a gwelwyd cynnydd [#DivaManc](#), [Llais Menywod Gorllewin Canolbarth Lloegr](#) a [Menywod Grymus Gogledd Lloegr](#), a aeth ati'n benodol i greu clymbleidiau o wleidyddion, ymgyrchwyr a phobl fusnes fenywaidd a'u cefnogwyr i sicrhau *na chaiff y cyfle i ddylunio ar gyfer amrywiaeth ei fethu*.

CREU SENEDD DDA: GRŴP CYFEIRIO TRAWSBLEIDIOL TŶ'R CYFFREDIN

Mae'n bosib ein bod ni'n hoffi meddwl amdanon ni ein hunain fel mam yr holl seneddau ond... mae cymaint y gallwn ni yn San Steffan ei ddysgu, ac y dylem ei ddysgu, gan ddeddfwrfeydd eraill yn rhyngwladol, ac yn wir o'r seneddau a'r cynulladau datganoledig sydd yng ngwledydd Prydain... Mae llawer am Dŷ'r Cyffredin rydw i'n falch iawn ohono, mae hefyd waddol sylweddol na fydden ni'n ei ddewis pe baen ni'n dechrau o'r dechrau...

Y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS,
Llefarydd Tŷ'r Cyffredin

Mae'r Gwir Anrhydeddus John Bercow AS wedi cynnull [Grŵp Cyfeirio'r Tŷ Cyffredin ar Gynrychiolaeth a Chynhwysiant](#) i weithredu argymhellion yr adroddiad annibynnol [Senedd Dda](#), a luniwyd gan yr Athro Sarah Childs, i wneud Senedd y Deyrnas Unedig yn *wir gynrychioliadol, tryloyw, hygyrch, atebol ac effeithiol yn ei holl weithrediadau*. Mae'r gwaith yn manteisio ar ddau gyfle – canmlwyddiant Deddf Cynrychiolaeth y Bobl a'r [rhaglen Adfer ac Adnewyddu](#) ar gyfer Palas

San Steffan – i yrru diwygio seneddol ac i ddylunio ar gyfer mwy o amrywiaeth.

Roedd y cyfranogwyr yn croesawu diwygio, gydag un yn dweud bod San Steffan *yn bell y tu ôl i'r troad yn hytrach nag o'i flaen, gyda ffyrdd o weithio wedi dyddio sy'n normaleiddio normau gwrywaidd a rhywiaeth sy'n anodd iawn eu gwaredu* ac un arall yn dweud [bod] *llawer o resymau pam nad yw'r Senedd yn dal i weithio'n dda i fenywod*. Mae'r Senedd Dda yn fodel o arferion da rhyngwladol, sy'n adeiladu ar waith yr Undeb Rhyng-Seneddol ar Seneddau sy'n Sensitif i Rywedd. Mae 42 o argymhellion yn gweithredu fel glasbrint ar gyfer gweithle mwy cynhwysol: concord ar ymddygiad annerbyniol ac amhroffesiynol yn y Tŷ a sancsiynau gwell yn erbyn y rhai sy'n torri'r rheolau; 'datganiad tŷ' ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhieni, mabwysiadu a gofalu; cod gwisg wedi'i ddiweddarau; treialu gosodiadau a gofodau cymdeithasol newydd a mwy cynhwysol a newid amserlenni, cyfnodau eistedd a phleidleisiau i gynyddu rhagweladwyedd, hyblygrwydd ac oriau busnes arferol; a dechrau archwiliad senedd sensitif i rywedd yn hydref 2018.

NIFER YR ARWEINWYR BENYWAIDD MEWN CYNGHORAU




Mae llai nag **1 ymhob 5** o arweinwyr cyngorau yn fenywod.




Dynion sy'n cael **6 o bob 7** o swyddi cabinet cyngorau sy'n arwain at y brig.

Does Local Government Work for Women?
Cymdeithas Fawcett



NIFER Y CYNGHORWYR BENYWAIDD



Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth
 Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cyfrifiad Cenedlaethol o Gynghorwyr Awdurdodau Lleol 2013
 Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe), Etholiadau Llywodraeth Leol 2012
 Y Gymdeithas Ddiwygio Etholiadol, Sbotolau ar Gymru: Menywod a Llywodraeth leol
 NISRA, Menywod yng Ngogledd Iwerddon 2015

LLYWODRAETH LEOL

Mae dyhead a rennir yn drawsbleidiol erbyn hyn i gael niferoedd cyfartal, ond does dim cytundeb o ran sut. Mae gwelliant wedi bod mewn rhai cyngorau a phleidiau, ond mae cynnydd yn cael ei atal gan fod cyfran gyffredinol y cyngorwyr benywaidd yn sound ar oddeutu 30 y cant.

Sarah Pickup, Dirprwy Brif Weithredwr, y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Mae cynnydd menywod yn y 418 o gyngorau sy'n rhan o lywodraeth leol yng ngwledydd Prydain yn adlewyrchu'r duedd ryngwladol, gyda chynrychiolaeth menywod yn fwy cyfyngedig ar lefel senedd wladol, gan roi diffyg cyffredinol o 3,028 [o gyngorwyr benywaidd](#). Yn fyd-eang clywsom fod niferoedd uchel o fenywod yn gweithredu ar *lefel sylfaenol gweithrediadau gwleidyddol* mewn rolau ffurfiol neu anffurfiol fel arweinwyr yn gweithio i *wneud gwahaniaeth i'w cymuned*. Drwy wneud hynny, mae menywod yn datblygu llawer o'r sgiliau sydd eu hangen mewn swydd gyhoeddus.

Clywsom y dylai llywodraeth leol *fod yn ddewis naturiol* i fenywod mewn gwleidyddiaeth, a'i bod yn gam da tuag at gynrychiolaeth ar lefel genedlaethol. Amlygwyd pwysigrwydd adeiladu capasiti gyda menywod ar lefel leol gwleidyddiaeth mewn gwaith gan [Sefydliad Democratiaeth San Steffan](#) ac eraill yn Irac, Yemen, Palesteina a Syria. Mae llawer o enghreifftiau o fenywod mewn llywodraeth leol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau yn eu cymunedau lleol; ar panchayats (cyngorau lleol) yn India, roedd nifer y prosiectau dŵr yfed mewn ardaloedd oedd â chynghorau yn cael eu harwain gan fenywod 62 y cant yn uwch na chynghorau lle roedd dynion yn arwain. Yn [Norwy](#), canfuwyd perthynas achosol uniongyrchol rhwng presenoldeb menywod mewn cyngorau trefol a darpariaeth gofal plant.

Er hynny, amlygodd y cyfranogwyr broblem recriwtio a chadw barhaus. Mae cynrychiolaeth menywod wedi stopio cynyddu [wrth i lai o fenywod symud ymlaen drwy'r biblinell llywodraeth leol](#), ac i'r rhai sy'n gwneud hynny aros am gyfnod byr yn unig. Amlygodd rhwydwaith Menywod mewn Llywodraeth Leol y Gymanwlad hyn fel *her fawr i bleidiau gwleidyddol sydd eisiau bod yn gynrychioliadol, drwy adael carfan o wleidyddion benywaidd nad yw pleidiau yn gallu eu cyrraedd*. Amlygodd un cyfranogwr y rhwystrau rhyng-gymunedol ychwanegol sydd gan rai menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yng ngwledydd Prydain sy'n ymwneud â

gwleidyddiaeth leol yn y cymunedau sydd â dylanwad cryf y 'system biradari' o Bacistan, a ddisgrifir fel system yn seiliedig ar garennydd a ddefnyddir i gadw diwylliant a pharch at hynafgwyr y gymuned, sydd fwy na thebyg yn ddynion, drwy deyrngarwch i'r 'tylwyth'. Gellir defnyddio'r system hon ymhlith rhai cymunedau Asiaidd i wthio [ymgeiswyr Mwslemaidd benywaidd](#) allan o wleidyddiaeth.

Aeth Cymdeithas Fawcett a'r Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol ati i gynnull [Comisiwn Llywodraeth Leol i Loegr](#) yn 2017. Edrychodd y Comisiwn ar egluro'r bwch yng nghynrychiolaeth menywod o achos diffyg newidiadau gweithredol a diwylliannol, ac amrywiaeth eang o arferion yn cyfyngu ar y ffordd mae llywodraeth leol yn gweithio i fenywod. Er bod rhai cyngorau yng ngwledydd Prydain yn dewis rhoi tâl mamolaeth, cynnal cyfarfodydd ar adegau sy'n fwy addas i'r teulu ac yn cymryd camau cadarn yn erbyn ymddygiad rhywiaethol a chamdriniaeth, nid yw'r mwyafrif yn gwneud hynny. Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod 'diwylliant sydd wedi dyddio... yn dal llywodraeth leol yn ôl – ac mae'n rhaid ei foderneiddio nawr er mwyn bod yn addas at bwrpas yn yr 21ain ganrif.' Ochr yn ochr ag ymchwil [IPPR](#) sy'n cymharu'r Almaen a'r Deyrnas Unedig, galwodd y Comisiwn am newid ar raddfa eang i ddarparu hawliau absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a rhianta; mynd i'r afael â lwfans i ofalwyr a threuliau gofal plant; adolygu amserau cyfarfodydd; egluro a gorfodi codau ymddygiad i gael gwared ag ymddygiad rhagfarnllyd a difriol a defnyddio technoleg i gefnogi cynhwysiant. Mae [Stockport](#) yn un o nifer o gyngorau sydd wedi pasio cynnig i gefnogi argymhellion y Comisiwn ac i ymrwymo i'r camau gweithredu.

Er bod achos cryf dros ddiwygio ar frys er mwyn bod mwy o fenywod yn rhan o wneud penderfyniadau yn lleol, clywsom hefyd fod llywodraeth leol yn *wynebu newidiadau eraill, sy'n gwneud sgysiau'n heriol iawn* megis effeithiau toriadau i ariannu gwladol. Nid yw'r newid chwaith yn llwyr o dan reolaeth cyngorau unigol gan fod angen rhywfaint o newid deddfwriaethol, er enghraifft cyfreithloni presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd cyngorau. Roedd cytundeb y byddai manteision sylweddol o roi diwedd ar yr anghysondeb sylweddol mewn arferion lleol. Yn yr Alban, clywsom fod [Adolygiad Llywodraethu Lleol](#) yn digwydd ac awgrymwyd y gellid addasu *rhestr wirio'r Undeb Rhyng-Seneddol ar seneddau sy'n sensitif i rywedd i lywodraeth leol; mae pwysau fframwaith rhyngwladol o gymorth*.

Mae bod â menywod yn yr ystafell bwysicaf yn 10 Stryd Downing wedi gwneud gwahaniaeth anferthol. Yr ysbrydoliaeth i fenywod i raddau helaeth, yn fy mhlaid i beth bynnag, yw gweld menywod yn gwneud y swydd... ‘Mae hi’n gallu ei wneud e. Mae hi yna, galla i ei wneud e.’ Margaret Thatcher wnaeth gwleidyddiaeth yn berthnasol i mi, nid dynion mewn siwtiau llwyd.

**MARIA MILLER AS, SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG;
CADEIRYDD Y PWYLLGOR DETHOL MENYWOD A CHYDRADDOLDEBAU**

ARWEINYDDIAETH

Dros y can mlynedd diwethaf, mae'r Deyrnas Unedig wedi cael dau Brif Weinidog benywaidd, a nifer cynyddol o fenywod mewn swyddi arweinyddol gwleidyddol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae menywod yn arwain, neu'n cyd-arwain, hanner y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn Senedd y Deyrnas Unedig a/neu'r gweinyddiaethau datganoledig, a menywod yw Prif Weinidogion yr Alban, Gogledd Iwerddon, a'r Deyrnas Unedig. Er bod hyn yn dangos newid dramatig, awgrymodd cyfranogwyr fod newidiadau yn y ffordd y caiff arweinwyr benywaidd eu trin a'u gweld wedi bod llawer arafach. Mae'r llwybr i'r brig yn llawer anoddach i fenywod sy'n wynebu sawl rhwystr sy'n rhyngblethu megis dosbarth, hil, cred, anabledd a rhywioldeb.

Y themâu a ddaeth i'r amlwg mewn trafodaeth am y prif alluogwyr, rhwystrau a chyfleoedd dysgu o ran arweinyddiaeth i ddatblygu cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth oedd: modelau rôl a chefnogwyr; normaleiddio arweinyddiaeth; y cyfryngau; y status quo; ac arddulliau arwain gwahanol. Roedd dyhead i ymchwilio ymhellach i enghreifftiau'n ymwneud â: menywod ar y brig; amrywiaeth a derbyn gwahaniaeth; dynion yn hyrwyddo newid; arweinyddiaeth mewn ansicrwydd gwleidyddol ac adeiladu heddwch.

MODELAU RÔL A NODDWYR

Dywedodd y cyfranogwyr wrthym fod modelau rôl yn bwysig: *allwch chi ddim bod yn rhywbeth na allwch chi ei weld*. Dywedwyd wrthym fod cael menyw yn Rhif 10, fel Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ddyheadau pob merch a menyw, a chyfeiriodd llawer o fenywod Ceidwadol yn benodol at Margaret Thatcher fel *ysbrydoliaeth fawr i ddod yn rhan o wleidyddiaeth*. Yn ôl gwleidyddion benywaidd, mae *cael menywod ar y brig mewn swyddi pwysig iawn yn bwysig – mae'n cyfleu neges enfawr i gymdeithas ac i fenywod*.

Roedd y gwleidyddion benywaidd y siaradom â nhw yn gweld annog menywod eraill i arwain fel *rhan o'n swydd* ac yn trafod eu profiadau pwysig eu hunain o gael eu mentora gan fenywod eraill. Clywsom alwadau angerddol eraill ar fenywod i ddal eu hunain yn fwy atebol am *basio'r ysgol i'r rhai oddi tanynt*. Roedd awgrym y gallai menywod

ynghwledydd Prydain fabwysiadu'n ehangach yr arfer o 'noddi', a ddefnyddir yn fwy cyffredin yn yr Unol Daleithiau, lle mae noddwr yn ymgymryd â rôl fwy rhagweithiol: cysylltu â phobl ddylanwadol, mynd ati i hyrwyddo, a hyd yn oed codi arian dros ymgeisydd.

Clywsom hefyd fod angen i fenywod sydd wedi bod yn arweinwyr gael eu cofio'n amlycach, er mwyn gallu eu cynnig fel modelau rôl: *roedd Barbara Castle yn rhywun amlwg – ond roedd hi o Ogledd Lloegr, yn ddi-flewyn-ar-dafod ac mae hi wedi diflannu* [o hanes poblogaidd]. Codwyd beirniadaeth debyg gan rai eleni, yn nodi nad yw cyfraniad [Mo Mowlam](#) i gytundeb heddwch Gwener y Groglith yng Ngogledd Iwerddon wedi'i gydnabod yn llawn wrth ddathlu ugain mlynedd ers y cytundeb. Mae camau pwysig i fynd i'r afael â'r anweledigrwydd hwn yn amlwg. Mae Senedd y Deyrnas Unedig yn ymroddedig i ddangos mwy o ddarluniau o Aelodau Seneddol benywaidd ac aelodaeth amrywiol yr Aelodau Seneddol drwy [gomisiynu gwaith celf newydd](#) a chael gwared â'r rheol 'deng mlynedd ers eu marwolaeth', sy'n golygu mai dim ond Aelodau sydd wedi marw ers o leiaf ddegawd a gaiff eu cynrychioli yn y gweithiau celf. Yn 2018 hefyd gwelwyd llwyddiant i ymgyrchoedd i gael cerflun o'r ymgyrchydd dros y bleidlais i fenywod [Millicent Fawcett](#) i ymuno â'r cerfluniau o 11 dyn y tu allan i Senedd y Deyrnas Unedig, a cherflun o'r swffragét [Emmeline Pankhurst](#) ym Manceinion. Mae ymdrechion yn parhau i godi arian i gael cerflun o [Annie Kenney](#), a oedd yn swffragét dosbarth gweithiol, yn Oldham.



Ar hyn o bryd, mae menywod yn arlywyddion neu'n brif weinidogion mewn 16 gwlad. Mae hyn yn gyfwerth â naw y cant o'r 194 gwlad sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig ar hyn o bryd.

Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin





Rydych chi'n gweld 'llwyddiant' pan fyddwch chi'n gweld menywod mewn safleoedd o rym yn cael ei normaleiddio. Mae'n bosib nad ydyn ni wedi gweld [y normaleiddio hwnnw] yn unman eto, ond mae'n ymddangos ein bod ni'n gweithio tuag ato mewn rhai gwledydd, efallai yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl cael prif weinidog sy'n fenyw am dros ddegawd, gallwch ddadlau o bosib bod menywod mewn safle o rym yn cael eu derbyn yn ddiwylliannol.

DR SONIA PALMEIRI, YMGYNGHORYDD RHYWEDD AC ARWEINYDDIAETH WLEIDYDDOL, AWDUR ADRODDIAD YR UNDEB RHYNG-SENEDDOL, SENEDDAU SENSITIF I RYWEDD

NORMALEIDDIO ARWEINYDDIAETH

Er bod nifer cynyddol o fenywod yn y swyddi uchaf, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo bod ffordd hir yn dal i fod cyn y caiff arweinyddiaeth wleidyddol gan fenywod ei normaleiddio yng ngwledydd Prydain a ledled y byd: *rydych chi'n cael un fenyw ar y brig ac mae pobl yn meddwl 'dyna ni', ond mae ffordd hir i fynd yn dal i fod cyn cael tegwch*. Soniwyd nad oedd y Deyrnas Unedig wedi bod â Changhellor y Trysorlys (Gweinidog Cyllid) benywaidd erioed, bod diffyg cynrychiolaeth ehangach o ethnigrwydd a dosbarth yn y swyddi uchaf, bod galw parhaus am arddull arweinyddiaeth benodol gan fenywod, a'r duedd barhaus i fenywod gael portffolios o faterion y'u gelwir yn rhai 'meddal'. Bob blwyddyn, mae'r Undeb Rhyng-Seneddol a'r Cenhedloedd Unedig yn mapio rôl fyd-eang menywod fel gweinidogion llywodraeth, ac yn olrhain yn gyson duedd menywod i gael portffolios o faterion 'meddal' sy'n canolbwyntio ar [Deuluoedd/ Plant/leuenctid/yr Henoed/Anabl](#).

Roedd safbwyntiau cymysg ar y cynnydd a wnaed yn ehangach o ran menywod yn arwain, a sut mae hynny'n cefnogi'r gwaith o normaleiddio menywod fel arweinwyr yn y byd gwleidyddol. Awgrymwyd bod pobl yn fwy tebygol o weld Aelod Seneddol benywaidd fel rhywbeth arferol, er enghraifft, os oes menywod mewn swyddi amlwg eraill yn lleol: *rydyn ni'n ffodus iawn yn ein hardal ni bod y Prif Gwnstabl yn fenyw, un o bedair o blith 44 yn y wlad, mae pennaeth yr ysbyty lleol yn fenyw; rydw i wedi trio casglu menywod allweddol at ei gilydd*. Awgrymodd rhai fod newidiadau mewn gwleidyddiaeth yn adlewyrchu *newid mewn busnesau, gyda mwy o fenywod mewn swyddi ar fyrddau, fel cyfarwyddwyr anweithredol ac yn edrych am swyddi fel ymddiriedolwyr nag erioed o'r blaen* ac awgrymwyd bod gan y sectorau lawer i'w ddysgu gan ei gilydd wrth fynd i'r afael â rhagfarn a normaleiddio menywod yn arwain. Rhannodd y menywod hefyd bryderon parhaus am beryglon tocenistiaeth – gwirioneddol neu dybiedig – wrth gymryd swyddi ar bwyllgorau ac ar lwyfannau cyhoeddus.

Y CYFRYNGAU

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i gynrychiolwyr gwleidyddol fod yn llawer mwy gweladwy mewn bywyd cyhoeddus nag yr oeddent gan mlynedd yn ôl. Mae eu gallu yn debygol o gael ei farnu yn ôl yr hyn mae pobl yn ei weld a'i glywed yn y cyfryngau prif ffrwd ac ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n annog gwleidyddiaeth personoliaeth.¹² Mae tystiolaeth barhaus o'r rhagfarn ar sail rhyw yn y modd y caiff arweinwyr benywaidd eu portreadu yn y cyfryngau, y sylw prin a geir yn y wasg o gymharu, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ganfyddiad y cyhoedd o'u gallu i arwain ac i [ddal y llywodraeth neu eraill i gyfrif](#). Mae rhai [elfennau o'r cyfryngau](#) yn dal i ystyried ei bod yn briodol gofyn i wleidyddion benywaidd am eu ffrwythlondeb, eu hatyniad rhywiol a maint eu dillad yn hytrach na'r materion difrifol maen nhw'n eu trafod. Er bod newid wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf o ran dominyddiaeth hanesyddol gohebwy'r a golygyddion gwleidyddol gwrywaidd, mae'r dull o adrodd a sylwebu ar wleidyddiaeth Prydain yn dal i fod yn wrywol i raddau helaeth. Mae'r adroddiad [Senedd Dda](#) yn argymhell camau i sicrhau bod oriel y wasg yn y senedd yn gynrychioliadol.

Y STATUS QUO

Hyd yn oed pan fydd menywod yn cyrraedd y brig nid yw hynny'n gwarantu grym a dylanwad gwirioneddol. Clywsom fod *gallu dynion y tu ôl i'r llen i gael eu ffordd eu hunain gyda'r pethau hyn yn ddi-ben-draw*. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr gwleidyddol yn dibynnu ar arfer grym cymell tawel, hynny yw y gallu i ddenu, dwyn perswâd a chyfethol i gyflawni pethau, gan olygu ei bod yn bwysicach fyth bod arweinwyr benywaidd yn adeiladu rhwydwaith ac amlygrwydd. Rhannwyd straeon am gonfensiynau anffurfiol amrywiol a thactegau gwleidyddol 'rhwydwaith y bechgyn' sy'n dal i gau arweinwyr benywaidd allan, boed hynny'n ymwybodol ai peidio. Mae Harriet Harman AS wedi disgrifio, er enghraifft, bwysigrwydd ble mae gweinidog yn eistedd wrth fwrdd y Cabinet, a sut caiff y weithred o gadw neu dorri'r confensiwn hwnnw ei ddefnyddio i gynnal y status quo.¹³ Clywsom hefyd nad yw normaleiddio *presenoldeb menywod yn digwydd drwy gael menywod mewn swyddi grymus yn unig, ond drwy gael dynion yn gweithio gyda nhw ac yn derbyn eu hawdurdod*.

Er hynny, clywsom hefyd drafodaeth ynghylch y ffyrdd mae menywod wedi cerfio rolau grymus yn y byd gwleidyddol, yn aml trwy ddal llywodraethau a chyrrff cyhoeddus i gyfrif mewn ffyrdd pwysig o'r tu mewn i blaid y llywodraeth a'r wrth-blaid. Gan gyfeirio at Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn benodol, rhannodd y cyfranogwyr yr enghreifftiau canlynol: Margaret Hodge AS, a oedd yn gadeirydd ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac a gafodd lawer o sylw gwleidyddol a sylw yn y wasg drwy ei swydd; gwaith Maria Miller AS wrth geisio am gydraddoldeb drwy'r Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau; a Dr Sarah Wollaston AS a ddaeth â'i phrofiad proffesiynol i swydd cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

¹² Phillips J, *Everywoman: One Woman's Truth about Speaking the Truth*, 2017, t73.

¹³ Harman H, *A Woman's Work*, 2017, t281.



Ac yn fy mhrofiad i, mae menywod yn aml yn cynnig dull gwahanol o wleidyddiaeth i'r hyn mae dynion yn ei gynnig. I fenywod, gall gwleidyddiaeth ymwneud â gwrando a dysgu gan eraill gymaint ag y mae am ddatgan eich safbwyntiau a'ch barn eich hun. Ac mae hynny i gyd er lles. Achos pan fo mwy nag un ffordd o wneud pethau neu fwy nag un safbwynt ar fater, caiff ein dealltwriaeth ei chyfoethogi a gallwn gyflawni canlyniadau gwell.

Y GWIR ANRHYDEDDUS THERESA MAY AS, PRIF WEINIDOG Y DEYRNAS UNEDIG

GWAHANOL ARDDULLIAU ARWAIN

Trafododd llawer o'r cyfranogwyr y ffyrdd gwahanol o weithio ac arwain y mae llawer o fenywod yn dod â nhw i wleidyddiaeth. Er enghraifft, nododd rhai fod gwleidyddion benywaidd yn gallu chwarae rôl hanfodol o ran cryfhau'r berthynas gynrychioliadol drwy eu gallu i gynnull pobl o'r *gwaelod i fyny, o'r brig i lawr ac o'r canol am allan*, gan gadw perthynas fwy cynrychioliadol ac atebol fel cynrychiolydd etholedig mewn rhwydwaith hollbwysig. Roedd awgrym bod symud pwyslais yn digwydd, o arddull arwain hierarchaidd o'r brig i lawr, tuag at arddull lai gorchmynnol a mwy colegol, sy'n creu gofod ar gyfer deialog, a bod y newid yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y menywod ym myd gwleidyddiaeth, gan ddod â dull gwahanol gyda nhw. Gwelwyd hyn fel newid cadarnhaol i'r cywair, ac fel rhywbeth sy'n adlewyrchu datblygiad ar draws sectorau eraill o ran sut caiff grym ei arfer. Roedd rhai cyfranogwyr yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd i fenywod sy'n arwain mewn gwleidyddiaeth weithio gyda menywod mewn sectorau eraill, gan gynnwys byd busnes, i rannu'r hyn maent yn ei ddysgu gan gydnabod bod pob menyw yn *wynebu'r un heriau*. I'r un perwyl, mae ymchwil ar [Gynghorydd yr 21ain Ganrif](#) yn disgrifio arweinwyr gwleidyddol sy'n hwyluswyr, yn gysylltwyr ac yn drefnwyr.

MENYWOD AR Y BRIG

Roedd Margaret Thatcher ar y tu allan pan ddaeth hi'n Brif Weinidog benywaidd cyntaf y Deyrnas Unedig ym 1979, yn un o 19 Aelod Seneddol benywaidd yn unig, ac yn ymuno â rhestr fechan o arweinwyr benywaidd ar draws y byd. Erbyn heddiw mae menywod yn gynyddol amlwg yn y 'swyddi uchaf'. Mae Theresa May, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, yn aelod o restr sy'n tyfu o [arweinwyr benywaidd rhyngwladol](#): ers 1960, mae cyfanswm o 32 o fenywod wedi bod yn arlywyddion a 41 wedi bod yn brif weinidogion ledled y byd, ac mae 70 gwlad wedi bod â rhyw ffurf ar arweinyddiaeth wleidyddol gan fenyw (etholedig, penodedig, dros dro neu arall). Mae'r rhestr yn cynnwys Indira Gandhi fel Prif Weinidog benywaidd cyntaf India, a'r unig un, ym 1966; Benazir Bhutto a etholwyd ym 1988 yn Brif Weinidog ar Bacistan; a Sheikh Hasina a'i gwrthwynebydd Khaleda Zia, a wasanaethodd am 23 mlynedd rhyngddynt yn arwain Bangladesh o 1992 ymlaen. Mae Iwerddon a

Gwlad yr Iâ wedi cofnodi ugain mlynedd neu fwy o arweinyddiaeth gan fenywod dros yr hanner canrif diwethaf.

Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o wledydd y byd erioed wedi bod â menyw yn eu harwain ac, yn wahanol i Margaret Thatcher, prin y mae menywod sy'n arwain yn aros mewn swyddi ar y brig am gyfnod hir. Yn 2017 dim ond [18.3 y cant o weinidogion llywodraethol y byd oedd yn fenywod](#). Clywsom *nad oedd yr un llywydd na phrif weinidog benywaidd yn Uwch-gynhadledd yr Americas yn ddiweddar, ac roedd hynny'n amlwg iawn*. Mae [tystiolaeth](#) hefyd yn awgrymu nad oes 'perthynas systematig lle mae gwlad wedi cael menyw fel arweinydd cenedlaethol o ganlyniad i gynrychiolaeth benodol o fenywod mewn senedd, na bod arweinydd benywaidd wedi arwain yn awtomatig at gynnydd yn nifer yr Aelodau Seneddol benywaidd... nid oedd 'diferu am i fyny' na 'diferu am i lawr' yn digwydd yn awtomatig rhwng yr arweinydd cenedlaethol a'r senedd. Nid yw cael menyw i'r brig o reidrwydd yn arwain at welliannau yn nghynrychiolaeth ehangach menywod, na'r ffordd arall chwaith. Un rheswm a gynigiwyd dros hyn yn hanesyddol oedd bod menywod mewn swyddi arweinyddol wedi gorfod gweithio'n unigolyddol mewn amgylcheddau sydd wedi'u dominyddu gan ddynion, ac nad ydynt wedi gallu cyflawni hyn.



Newid allweddol sydd angen ei weld yw mwy o fenywod ar y brig, mewn swyddi pwysig iawn, p'un ai'n Arlywydd yr Unol Daleithiau neu'n Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Mae'n bwysig, ac mae'n cyfleu neges enfawr i'r gymdeithas gyfan ac i fenywod fel unigolion. Mae angen mwy o fenywod mewn swyddi go iawn, swyddi grymus sy'n amlwg ac yn weladwy.

LU ECCLESTONE, UWCH GYNGHORYDD LLYWODRAETHU YR ADRAN DROS DDATBLYGU RHYNGWLADOL



Fe bardduwyd Julia Gillard; ni fyddai'r un prif weinidog gwrywaidd wedi cael ei drin yn yr un modd. Roedd hi'n brif weinidog gwych. O ganlyniad, dydy menywod eraill ddim eisiau gwneud hynny bellach. Dw i wedi siarad gyda nifer fawr o fenywod na fyddai'n mynd i'r byd gwleidyddol bellach.

MARIA OSMAN, ARBENIGYDD CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH, AWSTRALIA

Awgrymwyd bod menywod yn gorfod bod yn *macho* er mwyn llwyddo. Disgrifiwyd y Prif Weinidog Margaret Thatcher fel 'yr unig ddyn yn ei chabinet'.¹⁴

Mae rhai menywod wedi defnyddio hiwmor i helpu i oresgyn diwylliant *macho*; bu i Harriet Harman AS gyflogi Ayesha Hazarika (comediwr) fel ei hymgyngorydd gwleidyddol a Phennaeth Staff, a helpodd hi i wneud defnydd da o hiwmor yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog pan oedd yn arwain fel Llefarydd ar ran yr Wrthblaid.¹⁵ Ystyriwyd bod Margaret Thatcher wedi defnyddio ei bag llaw fel arf ar gyfer effaith ddramatig, 'beth wnaeth hi oedd perfformio arweinyddiaeth mewn ffordd na allai'r un dyn fod wedi gwneud: gyda'i gwallt a'i bag llaw, yn eistedd ar danc, roedd hynny'n wleidyddiaeth *macho* yn sicr.'¹⁶

AMRYWIAETH A GWAHANIAETH DERBYNIOL

Nid mater o fod yn fenyw yn unig yw e: Mae gen i beth arall hefyd, sef Iliw.

Y Farwnes Verma, cyn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Deyrnas Unedig yn yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol

Mae nifer cynyddol o fenywod a lefelau cynyddol o amrywiaeth ymhlith arweinwyr gwleidyddol gwledydd Prydain. Cyfeiriodd cyfranogwyr sawl tro at amlygrwydd Diane Abbott AS, a etholwyd ym 1987 fel y fenyw ddu gyntaf yn Senedd y Deyrnas Unedig, sef Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid erbyn hyn, a'r Aelod Seneddol ddu fenywaidd sydd wedi gwasanaethu hiraf; a Ruth Davidson ASA, arweinydd Ceidwadwyr yr Alban sy'n fenyw lesbiaidd ac yn agored am hynny. Er hynny, mae menywod LHDT+, [menywod anabl](#) a [menywod duon](#) a [lleiafrifoedd ethnig](#) yn dal i gael eu tangynrychioli mewn swyddi gwleidyddol arweinyddol.

Clywsom gan lawer o gyfranogwyr am yr angen am fwy o amrywiaeth, a dywedodd un: *mae 30 y cant o'r Aelodau Seneddol yn fenywod, ond sut mae ymdrin â rhyngblethu? Mae'n ymwneud ag amrywiaeth, ac mae angen i ni wella cynrychiolaeth gwahanol bobl yng ngwledydd Prydain.* Mae ymchwil wedi dangos, yr ystyrir bod yr ymgeiswyr sy'n cael eu dewis yn '[wahanol mewn modd derbyniol](#)' a bod rhaid iddynt gydymffurfio ag agweddau allweddol yr ymgeisydd nodweddiadol. Mae hyn yn golygu bod y llwybrau at wleidyddiaeth ac arweinyddiaeth yn parhau i fod yn gul ac yn wrthodol, hynny yw, yn agored i'r rheini nad ydynt yn rhy wahanol.

Clywsom fod y rhwystr i fenyw ddu ddosbarth canol yn uwch nag ydyw i fenyw wen ddosbarth canol, ac mae'n uwch eto i fenywod du dosbarth gweithiol: mae dosbarth

yn chwarae rhan. *Mae pobl o gefndiroedd lleiafrifol sy'n ddosbarth canol yn codi yn y rhengoedd. Gallai deimlo fel tocenistiaeth, [bod yn] weladwy heb sylwedd.* Roedd pryderon hefyd bod y rheini sy'n llwyddo i gyrraedd swyddi gwleidyddol arweinyddol yn wynebu amgylchedd mwy gwrthwynebus na'u cydweithwyr.

Roedd ffydd ac arweinyddiaeth wleidyddol gan fenywod yn faes yr awgrymodd llawer o gyfranogwyr y dylid ei ystyried ymhellach. Roedd hyn yn amlwg mewn trafodaethau yng Ngogledd Iwerddon, lle mae crefydd a gwleidyddiaeth wedi'u gwau'n dynn at ei gilydd. Fel y fenyw Sikh gyntaf i gael ei hethol i Dŷ'r Cyffredin yn 2017, soniodd [Preet Gill AS](#) am bwysigrwydd annog a chefnogi mwy o fenywod o wahanol greddau i gamu i'r byd gwleidyddol, ac am y llongyfarchion niferus a gafodd hi gan y gymuned Sikh ar ôl ei hethol.

Siaradodd arbenigwyr yn y maes hwn am y cymhlethodau a'r heriau y mae menywod yn eu hwynebu ar ôl cael eu hethol i gynrychioli pobl, ar sail nodweddiad disgrifiadol, megis eu hethnigrwydd neu eu crefydd, a all beri iddi fod yn anodd iddynt weithredu fel arweinwyr annibynnol ac i herio arferion yn y gymuned honno: *Dyna'r peth am ddilysrwydd, eich gweld chi fel rhywun sy'n cynrychioli'r gymuned yn y ffordd mae'r gymuned eisiau cael ei deall.* Dywedodd un gwleidydd *roedd disgwyl i fi gyflawni delwedd o'r 'fenyw Fwslemaidd dda' i gyd-fynd â rhyw bortread cartwn o fenyw Fwslemaidd.* *Yn lle fy nhrin i fel unigolyn gyda fy sgiliau a fy mhrofiadau fy hun, roedd yn haws gan bobl fy nhrin i fel ticflwch.* Clywsom bryder hefyd ynghylch diffyg gofod seciwlar ar gyfer menywod yng ngwledydd Prydain nad yw'n wrth-grefyddol, a phryder am y perygl y bydd *derbyn popeth sy'n grefyddol heb feirniadaeth yn cael effaith niweidiol ar gynnydd gwleidyddol yng ngwledydd Prydain.*



Ar hyn o bryd, mae chwe menyw yn y Cabinet (gan gynnwys y Prif Weinidog), sef 26 y cant o 23 swydd (heb gynnwys y rhai sydd 'hefyd yn mynychu'r Cabinet').

Menywod yn y Senedd a'r Llywodraeth, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

¹⁴ *The Whole Woman*, Germaine Greer, 1999, t384.

¹⁵ *A Woman's Work*, Harriet Harman, 2018, t280.

¹⁶ Campbell B, *Iron Ladies: why do women vote Tory?*, 1987

Maer Llundain, Sadiq Khan, yn ymuno yn yr orymdaith i fenywod yn Llundain ar 4 Mawrth 2018.



DYNION YN HYRWYDDO NEWID

Yn Neuadd y Ddinas, rydw i wedi addo bod yn ffeminydd balch.

Sadiq Khan, Maer Llundain

Roedd consensws bod newid yn dibynnu ar ewyllys wleidyddol gref, a bod angen i ddynion a menywod ddatblygu cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a mynd ag eraill gyda nhw. Dywedwyd wrthym droeon am bwysigrwydd *dod â dynion gyda ni hefyd*. Y brif thema oedd bod angen newid y naratif i hyrwyddo'r neges bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn fanteisiol i bawb: *ei fod yn beth da i bawb, i'r gymdeithas, i'r economi a bod cydraddoldeb yn rhywbeth y dylen ni i gyd weithio tuag ato*. Argymhellodd un cyfranogwr y dylid cyflwyno dynion yn hyrwyddo newid fel strategaeth weithredu ar draws gwledydd Prydain.

Roedd safbwyntiau gwahanol o ran p'un a ddylid annog mwy o arweinwyr gwleidyddol (benywaidd neu wrywaidd) i ddisgrifio eu hunain yn gyhoeddus fel ffeminyddion. Penderfynodd Sadiq Khan, Maer Llundain, sy'n falch o'i gabinet maerol amrywiol sydd â chydwbysesedd rhwng y rhywiau, ymuno â [Jacinda Ardern a Justin Trudeau](#) yn 2018, gan ddisgrifio ei hun yn gyhoeddus fel ffeminydd. Dros y flwyddyn, ymrwymodd i gynyddu'r gweithgarwch tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn Llundain gyda rhaglen o weithgarwch, gan gynnwys menter [Ein Hamser: Cefnogi Arweinwyr y Dyfodol](#), a ddisgrifiwyd fel y *rhaglen fentora fwyaf o'i bath i gael ei mabwysiadu yn y sector cyhoeddus* i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn swyddi arweinyddol, a phontio'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Awgrymodd cyfranogwyr bod y Maer wedi dangos ewyllys ac ymrwymiad gwleidyddol clir, a'r gallu *gael y bobl gywir o gwmpas y bwrdd*. Yn rhyngwladol, penododd Arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron [gabinet a oedd yn gyfartal rhwng y rhywiau](#) ar ôl cael ei ethol yn 2017, ac ym mis Mehefin 2018 menywod gafodd fwyafrif y swyddi yn [Llywodraeth newydd Sbaen](#) o dan y Prif Weinidog Pedro Sánchez.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at ymgyrch [#HeforShe](#) y Cenhedloedd Unedig a'r [fenter dynion sy'n arwain gan Global Forum](#) fel ymgyrchoedd llwyddiannus i annog dynion i hyrwyddo newid. Mae'r mudiad [#HeForShe](#) yn annog arweinwyr gwleidyddol gwrywaidd i sbarduno newid ar draws meysydd cyhoeddus a phreifat, gan ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i arweinwyr

gwrywaidd a cheisio cymell pawb i hyrwyddo cydraddoldeb. Yn ymgyrch dynion sy'n arwain Global Forum, gwelwyd dros 70 o benaethiaid gwrywaidd gwladwriaethau a llywodraethau yn rhoi eu rheswm personol dros gael mwy o fenywod fel arweinwyr. Caiff y datganiadau hyn eu harddangos yn barhaus mewn fforymau megis pencadlys y Cenhedloedd Unedig, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Undeb Affrica, Fforwm Economaidd y Byd, a llawer o seneddau ledled y byd. Soniodd sawl cyfranogwr am annog eu cydweithwyr gwrywaidd i wrthod gwahoddiadau i baneli nad ydynt yn cynrychioli'r ddau ryw ac amrywiaeth, ac i ddod yn rhan o'r ymgyrch [#nomoreallmalepanels](#).

Bu i'r cyfranogwyr gydnabod dynion droeon am helpu i ddatblygu cynrychiolaeth ac arweinyddiaeth menywod drwy annog menyw i gynnig ei hun. Disgrifiodd y menywod yr anogaeth a gawsant gan aelodau o bleidiau, cyd-aelodau undebau llafur ac ymgyrchwyr. Dywedodd un Aelod Seneddol bod ei rhagflaenydd wedi rhoi galwad iddi i ddweud y byddai'n rhoi gorau i'w sedd er mwyn iddi hi gael sefyll. Soniodd Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol (Gogledd Iwerddon) am Aelod arall yn *fy nghymryd i dan ei adain, roedd e'n fentor gwych i fi, roedd e'n gwybod beth oedd fy ngallu ac roedd e'n fy ngwthio i*.

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y rôl bwysig y gall dynion ei chwarae fel partneriaid, tadau ac ewythrod. Bu hyn yn naratif effeithiol ar gyfer ymgyrch y Ceidwadwyr [Women2Win Daughters](#) a oedd yn cynnwys fideo o wleidyddion gwrywaidd yn siarad am eu dyheadau ar gyfer eu merched. Soniodd rhai cyfranogwyr am y ffaith bod rhai menywod yn cael swyddi gwleidyddol arweinyddol oherwydd eu gŵr neu eu tad, ac am heriau rheolaeth deuluol neu linachyddol dros wleidyddion ac ymgeiswyr, gan roi enghraifft o fenywod yn Ynysoedd y Cefnfor Tawel, sy'n aml yn *cael swydd gyhoeddus oherwydd poblogrwydd eu gŵr. Mae'r gŵr yn marw ac mae'r fenyw'n cymryd ei le, ac mae pobl yn teimlo cydymdeimlad. Unwaith i'r cyfnod ddod i ben, mae llawer o'r menywod hyn yn rhoi'r gorau iddi, maen nhw yno gan eu bod wedi'u gorfodi i fod yno, a dydyn nhw ddim yn gwybod sut i wneud y gwaith yn dda. A dw i wedi clywed bod hyn yn wir mewn gwledydd eraill weithiau gan fod eu tad yn arfer bod yn wleidydd*.



O'r 16 maer sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol yn Lloegr, dim ond pedair sy'n fenywod.

Tudalen 11, Atodiad 1, Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin Rhif 05000, 12 Mehefin 2017



Mae'r chwe maer metro etholedig yn Lloegr yn ddynion.

Tudalen 12, Atodiad 2, Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin Rhif 05000, 12 Mehefin 2017

ARWEINYDDIAETH MEWN ANSICRWYDD GWLEIDYDDOL AC ADEILADU HEDDWCH

Roedd yn gyfuniad o'r adeg gywir a gallu ei wneud yng Ngogledd Iwerddon, oherwydd roedd gennym ni 20 i 25 mlynedd o waith ar lawr gwlad yn sgil gwrthdaro, a'r ddau beth yma'n dod ynghyd, ac roedd hynny'n cynnwys llawer iawn o fenywod ar lefelau a rhannau gwahanol o'r broses a oedd yn gallu torchi llewys a sicrhau ei fod yn gweithio.

Bronagh Hinds, Sylfaenydd DemocraShe, Gogledd Iwerddon

Wedi fy magu yn Libya, ro'n i'n gwybod bod llawer o bethau nad oeddwn i'n gallu siarad amdany'n nhw y tu allan i'r cartref. Roedd rhaid i fi adael fy ngwleidyddiaeth yn y tŷ. Dw i nawr yn ceisio'n barhaus i helpu i greu gofodau a llwyfannau i fenywod allu siarad am y pethau maen nhw'n poeni amdany'n nhw heb ofn.

Amna Abdullatif, ymgyrchydd dros hawliau menywod

Mae llawer o'r newidiadau mawr o ran grym a dylanwad gwleidyddol menywod dros y can mlynedd diwethaf wedi digwydd drwy'r cyfleoedd a gynigiwyd wrth adeiladu heddwch ar ôl gwrthdaro. Roedd cyfranogwyr yn deall yn iawn y gall rolau menywod mewn gwleidyddiaeth a chymdeithas ehangu yn ystod adegau o wrthdaro neu ansefydlogrwydd gwleidyddol, gan rymuso menywod drwy annibyniaeth economaidd ac ehangu gorwelion. Cafodd menywod eu cymell yn rhyngwladol mewn niferoedd nas gwelwyd o'r blaen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; [cyflogwyd dwy filiwn o fenywod o'r newydd yng ngwledydd Prydain yn unig](#). Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, aeth niferoedd mawr o fenywod i weithio mewn diwydiannau er mwyn cefnogi'r rhyfel. Clywsom fod menywod yn ystod gwrthdaro yn cael eu cymell i ganfod eu llais gwleidyddol: *yn Ariannin a Chile, cymhellwyd menywod cyffredin i herio eu diogelwch eu hunain er mwyn canfod beth ddigwyddodd i'w meibion a'u merched*. Yng Ngogledd Iwerddon, soniodd y cyfranogwyr am *fenywod wedi'u cymell, menywod yn asgwrn cefn i gymunedau, yn canfod tir cyffredin, a chryfder yn y modd roeddent yn gweld eu hunain*.

Credir bod ansefydlogrwydd yn achosi cynnydd yng nghymhelliant menywod, ac mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi canfod, mewn gwledydd lle mae cyfranogiad a mynediad menywod i'r maes cyhoeddus yn fwy cyfyngedig, bod [lefel uwch o ansefydlogrwydd gwleidyddol](#). Deïllir bod y cyfnodau hyn o gymhelliant yn cael *effaith enfawr ar amlygrwydd menywod*, [maent yn dangos] *ein bod*

ni'n gyfartal. Ond does dim sicrwydd y bydd y cyfraniad hwn yn cael ei gydnabod gyda hawliau ffurfiol na chyfleoedd parhaus, ac mewn llawer o sefyllfaoedd ar ôl gwrthdaro mae rolau menywod yn crebachu, gan greu tensiwn wrth i fenywod wrthod *mynd yn ôl i'w bocs*. Yn y Deyrnas Unedig, ochr yn ochr â rôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd newid Prif Weinidog, cyd-destun yr ymgyrchoedd dros y bleidlais cyn y rhyfel (a ohiriwyd yn ystod y rhyfel), a chyfaddawd yn hanfodol er mwyn ennill y bleidlais i rai menywod ym 1918, ond nodir na roddwyd y bleidlais i'r mwyafrif helaeth o fenywod a oedd wedi ymuno â gweithlu'r rhyfel, sy'n golygu bod modd cwestiynu a roddwyd y bleidlais fel cydnabyddiaeth [am gyfraniad menywod yn ystod y rhyfel](#). Roedd Gwanwyn Arabaidd 2010-12 yn drobwynt i gyfranogiad gwleidyddol menywod yn rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Yn ystod y gwrthryfeloedd, *gwelsom fenywod yn codi eu llais, gwelsom nhw'n ymgynnull ar lawr gwlad ac ar-lein gan nad oedd gofodau cyhoeddus yn ddiogel*. Roedd [cymell menywod](#) yn naratif canolog. Wrth i'r don o brotestiadau bylu, ystyrir yr effaith ar fenywod fel cam yn ôl i raddau helaeth, ac yn yr unig lywodraeth ddemocrataidd Arabaidd sy'n bod, clywsom fod gan fenywod yn *Nhiwnisia fwy o lais cyn y Gwanwyn Arabaidd*. Ond clywsom hefyd fod y menywod a oedd yn creu gofodau yn y rhanbarth yn ystyried mai *sgyrsiau tawel y menywod a'u gwaith o adeiladu mudiad gyda'u cefnogwyr rhyngwladol* sy'n bwysig nawr yn yr ardaloedd hynny lle gall ansefydlogrwydd neu drawsnewid gwleidyddol greu'r cyfle am newid.



© 總統府/Flickr

Taiwan Tsai Ing-wen, Arlywydd 14eg tymor Taiwan.

(PARHAD)

Mae'r Farwnes May Blood, a oedd yn ymgyrchydd heddwch yn ystod dyddiau tywyllaf Gogledd Iwerddon, yn siarad yn aml am fenywod yn dal gwedd cymdeithas at ei gilydd, wrth i bopeth arall gwmpo'n ddarnau. Mae'n debyg bod y sefyllfa'r un peth ledled y byd, yn enwedig yn y gwladwriaethau hynny lle mae'r mwyaf o wrthdaro yn y Dwyrain Canol. Mae menywod yn gwneud peth o'r gwaith caletaf mewn gwleidyddiaeth bob dydd.

Yr hyn sy'n ddigalon yw'r hyn sy'n digwydd pan maen nhw'n codi eu dwylo i wneud swydd wleidyddol ffurfiol – i gystadlu am yr awdurdod a'r adnoddau i wneud y gwaith roedden nhw eisoes yn ei wneud. Ymddengys fod adlach, gan fenywod a dynion, pan fo menywod yn sefyll am arweinyddiaeth wleidyddol. Nid yw'r ddeinameg hon wedi'i chyfyngu i unrhyw ardal ddaearyddol; mae'n rhywbeth y mae angen i'n holl gymdeithasau weithio arno.

Shannon O'Connell, Uwch Ymgyngorydd Polisi, Rhywedd a Gwleidyddiaeth, Sefydliad Democratiaeth San Steffan

Caiff rôl ffurfiol i fenywod wrth negodi a gweithredu heddwch ei chydabod fel rhywbeth hanfodol i gael sefydlogrwydd ar ôl gwrthdaro: lle bynnag y bo gwrthdaro, rhaid i fenywod fod yn rhan o'r datrysiad. Mae llwyddiannau. Ar ôl dechreuad araf, sicrhodd sefydliadau rhyngwladol fod gan fenywod le ffurfiol wrth adeiladu heddwch yn Rwanda yn dilyn yr hll-laddiad. Yng Ngogledd Iwerddon, ystyrir bod sylfaen gref mewn cymdeithas sifil a sefydliadau menywod yn rhywbeth sydd wedi galluogi ffurfio Clymblaid y Menywod i sicrhau cynhwysiant yn nhrafodaethau heddwch Gwener y Groglith. Mae Penderfyniad 1325 Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ar fenywod, heddwch a diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol bod


menywod yn cyfrannu'n llawn ac y caiff hawliau menywod eu diogelu, yn benodol ar ffurf cynllun gweithredu. Mae Colombia wedi prif ffrydio'r gofyniad hwn, o'r fframwaith cyfansoddiadol i bolisi cyhoeddus a'r ymgyngoriad cyhoeddus ar y cytundeb i roi diwedd ar wrthdaro mewnol. Er bod bylchau yn dal i fod, ystyrir bod hyn wedi sicrhau 'cyfranogiad a chynrychiolaeth eang o leisiau menywod mewn gofodau o'r fath'.

Er hynny, mae pryderon eang yn dal i fod o ran menywod yn cael eu cadw o'r bwrdd heddwch yn rhy aml, neu mai tocenistaeth yw eu presenoldeb yn unig, ac mae diffyg atebolrwydd ar gyfer ymrwymadau rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn golygu bod enillion yn ansefydlog: Dw i newydd ddod yn ôl o Bosnia, ac mae'n anodd iawn ar fenywod yno; maen nhw'n fregus iawn, ac nid capasiti'r menywod yw'r broblem. Mae rhai ffactorau cyffredin i'w gweld o ran ymleiddio menywod. Mae rôl ddominyddol pleidiau gwleidyddol yn dyblygu'r rhesymeg patriarchaidd bresennol, yr ymleiddio sy'n digwydd i fenywod mewn strwythurau meithrin cymunedau ac o ran cefnogaeth ariannol, ac ystyrir bod ymgysylltu menywod yn cael ei danseilio gan sefyllfaoedd diogelwch ansefydlog. Er enghraifft, yn Irac mae system gwota yn cefnogi ymdrech i gael mwy o fenywod mewn seddi, ond caiff ei thanseilio gan drais enwadol cynyddol a gwrthwynebiad crefyddol i gyfranogiad menywod.

Clywsom fod hyn yn cyfyngu ar gynnydd ar faterion o bwys. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon clywsom yn benodol am ddiffyg cynnydd ym maes gofal plant: rydyn ni'n dal i aros am strategaeth gofal plant, mae yna neiniau a theidiau a ymgyrchodd amdani fel rhieni. Ac yn debyg i lawer o wledydd ar ôl gwrthdaro, mae pryderon sylweddol am lefelau trais domestig a thrais arall, a'r angen am adnoddau i fynd i'r afael â hyn yn wyneb patriarchaeth systemig a chasineb tuag at fenywod, mewn cymdeithas dreisgar a militaraid iawn.

PORTFFOLIOS CYNGHORWYR BENYWAIDD

Amlder geiriau ym mhortffolios aelodau benywaidd cabinet cynghorau ar draws awdurdodau cyfunol Lloegr



Mae angen i chi ddeall problem yn dda iawn er mwyn bod yn eiriolwr ar ei chyfer. Ni fyddai gan y dyn mwyaf tosturiol ymwybyddiaeth o sut beth yw bod yn ferch mewn ysgol gynradd – felly mae angen i chi wrando a pharchu'r profiad unigryw mae menywod a merched yn eu cynnig i'r drafodaeth, ac mae angen i ddynion ddeall a gwerthfawrogi hynny.

SARAH CHAMPION AS, SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG



Y CANLYNIADAU: NEWID I FYWYDAU MENYWOD

Roedd gwleidyddion yn sôn yn gyson bod natur a chywair trafodaethau gwleidyddol yn newid oherwydd, wrth i nifer y menywod mewn strwythurau seneddol gynyddu, mae llais benywaidd llawer cryfach i'w glywed. Caiff hyn ei adlewyrchu gan seneddwyr ledled y byd; er enghraifft, mae Dirprwyon benywaidd yn [Rwanda](#) yn dweud ei bod yn llawer haws codi materion am fenywod, ac y gwneir hynny'n amlach, ers iddynt sicrhau'r gynrychiolaeth uchaf o fenywod yn y byd. Mae'r niferoedd cynyddol o fenywod, drwy weithio ar y cyd, wedi newid yr agenda gwleidyddol a'r gyfraith yn llwyddiannus i [wella bywydau menywod a merched](#).

Clywsom farn gadarn bod cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn deddfwrfeydd, ac yn y llywodraeth drwy hynny, yn trosi yn gynrychiolaeth sylweddol drwy ddod â'r materion hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i [fywydau menywod i'r fforwm gwleidyddol](#). Rydym yn cyfeirio yma at enghreifftiau a godwyd yn gyson fel meysydd lle ystyrir bod cynrychiolaeth menywod wedi gwella safle menywod. Clywsom fod hyn yn deillio o brofiadau bywyd gwleidyddion benywaidd fel menywod, eu hagosatrwydd at wleidyddiaeth gymunedol a llawr gwlad a sefydliadau menywod, a gwahaniaeth yn y modd caiff deddfwriaeth ei llywio gan fenywod, y modd y caiff ei datblygu a'i chyflwyno.

Mae seneddwyr benywaidd wedi dod ag ystod eang iawn o feysydd polisi i'r amlwg yn rhyngwladol, o ymreolaeth economaidd menywod, gofal plant a deddfwriaeth cydraddoldeb i waith Sweden ar [glirio eira mewn modd sy'n decach rhwng y rhywiâu](#). Mae gwahaniaethau ar draws gwledydd a rhanbarthau o ran beth yw'r materion pwysig ar gyfer menywod, er enghraifft mae hawliau tir, HIV/AIDS a lleddfu tlodi yn hanfodol yn y [de byd-eang](#). Roedd yr ymatebwyr yn gweld lefel sylweddol o bethau cyffredin ar draws awdurdodaethau o ran y galluogwyr a'r rhwystrau rhag creu newid ym mywydau menywod, a'r themâu arwyddocaol a archwiliwyd oedd: sefydlogrwydd gwleidyddol; aliniad â pholisi'r llywodraeth; newid cywair y drafodaeth; y 'materion cywir'; ac aeddfedrwydd y broses llunio polisi. Mae'r [dystiolaeth](#) o effaith uniongyrchol gwleidyddion benywaidd ar allbynnau polisi yn tyfu, a nododd y cyfranogwyr mai'r enghreifftiau allweddol i'w hystyried yn ddyfnach oedd: cyllidebu yn ôl rhyw; menywod a'u gwaith; iechyd rhyw ac atgenhedlu a hawliau atgenhedlu menywod; a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

SEFYDLOGRUYDD GWLEIDYDDOL

Mae'r cydweithrediad a drafodwyd yn gofyn am ryw lefel o sefydlogrwydd gwleidyddol, rhoi gofod i wleidyddion benywaidd geisio a datblygu dylanwad trawsbleidiol. Er enghraifft, cymerodd cawcws [Cyfleoedd Cyfartal yr Wcrain](#) flynyddoedd i'w sefydlu o achos 'rhaniadau dwfn rhwng pleidiau gwleidyddol', cyn goresgyn hyn i ddrafftio deddfwriaeth ar drais domestig, masnachu mewn plant ac amddiffyniad cymdeithasol i famau a thadau sengl.

ALINIAD Â PHOLISI'R LLYWODRAETH

[Rwanda](#) yw'r wlad orau yn y byd o ran cynrychiolaeth menywod yn y senedd. Er hynny, mae ymchwil yn dangos [y gall dylanwad seneddwyr benywaidd ar bolisi gael ei gyfyngu](#) mewn amgylchedd gwleidyddol sy'n dal i fod yn awdurdodaidd iawn. Clywsom y gall fod cyfyngiadau ar weithio trawsbleidiol ar anghenion menywod yng ngwledydd Prydain hefyd yn [sgil rhaniad llymder a diwygio budd-daliadau](#). Roedd ymraniad gwleidyddol cryf ar greu cap [budd-daliadau](#) newydd i gartrefi ac ar y 'cyfyngiad dau blentyn', sy'n cyfyngu ar daliadau lles i deuluoedd, oni bai bod plant ychwanegol wedi'u geni o ganlyniad i drais, neu berthynas drwy orfodaeth. Ystyriwyd hyn yn ddadleuol, ac fe'i beirniadwyd gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#), o achos y posibilrwydd o gynyddu tlodi plant a'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag adrodd am drais er mwyn hawlio lles, mewn cyd-destun lle mai dim ond oddeutu 17 y cant o'r rhai sy'n profi [trais rhywiol](#) sy'n adrodd amdano wrth yr awdurdodau.



Cerflun yn coffáu bywyd Millicent Fawcett yn cael ei ddadorchuddio gyferbyn â'r Senedd ym mis Ebrill 2018. Dyma'r cerflun cyntaf o fenyw i gael ei godi yn Sgwâr y Senedd.

NEWID CYWAIR Y DRAFODAETH

Clywsom fod modd gweld llwyddiant dylanwad pan *nad yw'r drafodaeth yn un emosiynol neu o'r galon bellach, ond yn sgwrs llawer mwy gonest* am fanteision cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae [Sweden](#) wedi prif ffrydio rhywedd fel pwnc drwy newid cyfeiriad o 'faterion menywod' i agendâu sy'n gwella bywydau pawb. Ledled y byd, rydym wedi gweld bod yr ymgyrchu a'r sgwrs am drais yn erbyn menywod a merched yn gynyddol yn cynnwys yr effaith economaidd (colled) i'r gymdeithas gyfan fel newid pragmataidd yn y naratif polisi i amlygu [canlyniadau buddsoddi gwariant y wladwriaeth](#).

Y 'MATERION CYWIR'

Soniodd rhai menywod am agendâu [yn San Steffan] *nad oes hawl ganddynt i wneud sylwadau arnynt* neu lle caiff dadansoddiad yn seiliedig ar rywedd ei ddiystyru fel petai'n amherthnasol. Ystyriai rhai fod economeg galed yn dal i fod ar gau i fenywod, a chlywsom fod diffiniadau o gynnyrch domestig gros ar draws y byd yn parhau i fod yn rhy gyfyng i ddylanwadu ar newid ym mywydau menywod, er enghraifft *deall gwerth gwaith atgennedlu menywod*. Cwestiynwyd hefyd i ba raddau y mae seneddwy'r yn gallu *sicrhau bod deddfwriaeth yn ystyried menywod yn eu cyfanrwydd*.

Amlygodd rhai cyfranogwyr hefyd yr anhawster y gall menywod, o bob cred, ethnigrwydd a chefnid, ei wynebu os ydynt yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn modd amlwg. Er bod rhai cyfranogwyr yn awyddus i gyfeirio at hyrwyddwyr cydraddoldeb rhwng y rhywiau, rhai hanesyddol a phresennol, o wledydd Prydain ac yn rhyngwladol, yn gyffredinol yr un enwau a grybwyllwyd, a mynegodd rhai cyfranogwyr bryder ynghylch diffyg arweinyddiaeth amlwg. Beiwyd hyn yn rhannol ar berygl gwirioneddol a thybiedig y byddai arweinwyr benywaidd yn cael eu diystyru pe bai ganddynt agenda ffeministaidd: *ar ôl cael fy ethol, ces i fy rhybuddio gan fy nghyd-gynghorwyr, dynion a menywod, y byddai perygl y byddwn i'n cael fy 'rhoi yn y bocys yna'*.

AEDDFEDRWYDD Y BROSES LLUNIO POLISI

Ystyriwyd bod y gallu i effeithio ar fywydau menywod yn dibynnu ar ba mor dda roedd y broses llunio polisi yn gweithio ar y cyfan. Yn benodol, clywsom am bwysigrwydd *rhoi sylw i'r sail dystiolaeth rydyn ni i gyd yn gwybod sy'n*

bodoli. Ystyriwyd bod dystiolaeth yn hanfodol er mwyn llwyddo: *yn yr Alban mae uned llywodraeth yn llawn ystadegwyr cymwys a gwybodaeth gwyddor gymdeithasol sy'n gallu dehongli ar sail rhywedd; set o sgiliau unigryw a phwysig iawn*. Dadleuwyd bod hyn i'w weld yn glir yn yr adroddiad blynyddol [Canlyniadau Cydraddoldeb a Phrif Ffrydio](#). Nododd y cyfranogwyr hefyd fod y gwaith o ddilyn effaith polisi ar gynrychiolaeth menywod yng ngwledydd Prydain yn ei ddyddiau cynnar, er bod hyn yn waith sydd wrth galon polisi cymorth a datblygu rhyngwladol yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill.

Roedd *bwlch cyflawni yn cael ei grybwyll yn gyson: mwy neu lai yn unrhyw wlad, gallech chi agor llyfr deddfwriaethol a dod o hyd i bolisi addysg ar ferched, trais yn erbyn menywod a merched, cyfle cyfartal – ac ar bapur maen nhw'n hyfryd, ond wedyn rydych chi'n gweld y realiti*. Y *bwlch yw'r cyflwyno, yr ariannu, yr adnoddau, olrhain, gwerthuso*. Er enghraifft, yn [Namibia](#), ystyrir bod problem o ran seneddwy'r benywaidd yn cyflwyno diwygiadau yn llwyddiannus. Cymeradwywyd deddfwriaeth ar anffurfio organau cenedlu benywod yn [Irac a reolir gan y Cwrdiaid](#) ond mae cwestiynau wedi bod wedyn am absenoldeb camau dilynol. Yn yr Alban, clywsom bryderon fod *gennym o bosib [y] fframwaith cyfreithiol gorau yn y byd ar drais yn erbyn menywod a merched, ond mae cyfradd euogfarnau trais rhywiol wedi gostwng ddeg y cant yn y flwyddyn ddiwethaf*. Yn fwy calonogol, clywsom fod gan yr Alban arferion da ar waith [o ran mecanweithiau craffu ar ôl deddfu](#); nodwyd bod y mecanweithiau hyn yn bwysig i sicrhau y caiff ymrwymadau cydraddoldeb mewn statud eu gweithredu gan lywodraethau.

Y prif wahaniaethau mae menywod yn eu gweld yn y gwledydd hynny sy'n gwneud y cynnydd mwyaf yw y caiff anghydraddoldeb menywod a'r angen i fynd i'r afael â hyn mewn polisi *ei dderbyn yn sylfaenol*. Clywsom am bwysigrwydd derbyn yn ddiffuant *nad yw'n fater dadleuol*. Yn benodol, cyfeiriodd menywod at lywodraeth Sweden, sy'n honni mai nhw yw'r [lywodraeth ffeministaidd gyntaf yn y byd](#) a'r ffaith fod rhywedd yn y brif ffrwd ganddynt yn dystiolaeth o'r newid hwn ar draws llywodraeth gyfan. Dywedodd menywod yr Alban wrthym eu bod yn teimlo *bod bodolaeth [anghydraddoldeb i fenywod] wedi'i dderbyn gan weinyddiaethau olynol, maen nhw wedi deall hynny, ac felly nid yw wedi cael ei herio'n ganolog erioed*.

CYLLIDEBU YN ÔL RHYW

Bu'r cyfranogwyr y siaradom gyda nhw yn edrych yn ôl ar yr enillion gwleidyddol a pholisi niferus a phwysig, sydd wedi newid bywydau yn aml, a wnaed i fywydau menywod ar faterion penodol ac 'unigol'. Roedd cytundeb eang y caiff cynnydd nawr ei lywio gan y gweinyddiaethau hynny sy'n mabwysiadu dull systematig (wrth sylfaen polisi llywodraeth, gellid dadlau) drwy ddefnyddio cyllidebu yn ôl rhyw. Y broses o ddadansoddi cyllideb yn ôl ei heffaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau yw [cyllidebu ar sail rhywedd](#) gan greu 'cyllidebau sy'n cydnabod sefyllfaoedd ac anghenion gwahanol menywod a dynion ac sy'n ceisio hyrwyddo cydraddoldeb'. Mae ystod eang o [dulliau ac arferion](#) wedi'u datblygu i gefnogi'r broses hon.

Bu i [lywodraeth y Deyrnas Unedig](#) beilota dulliau cyllidebu yn ôl rhyw yn 2004, ond nid yw wedi mabwysiadu dull yn y brif ffrwd. Mae [Llywodraeth Cymru](#) wedi profi cyllidebu yn ôl rhyw. Mae [llywodraeth yr Alban](#) wedi dechrau peilot cyllidebu yn ôl rhyw sy'n canolbwyntio'n benodol ar greu enghreifftiau o arfer da yn y broses asesu effaith cydraddoldeb a chodi cymhwysedd rhywedd ymhlith y staff;

Y nod yw codi cymhwysedd rhywedd ar draws y sefydliad, gan ddechrau gyda pheilot yn y portffolio Economi. Dylai hyn arwain at ddealltwriaeth well o effaith newidiadau i gyllidebau a pholisïau ar rywedd.

Lesley Irving, Uned Cydraddoldebau, Llywodraeth yr Alban

Yng [Ngogledd Iwerddon](#) ym mis Mai 2018, cyhoeddwyd yr ymchwil empirig cyntaf i gael ei gynnal ar gyllidebu yn ôl rhyw, a gynhaliwyd gan academyddion a chyda rhanddeiliaid y gymdeithas sifil. Gan drydar yn fyw o'r digwyddiad, nododd [Grŵp Cyllideb Menywod yr Alban](#) 'Os gall @WomensBudgetGrp fel sefydliad cymdeithas sifil wneud dadansoddiad cronus manwl o ansawdd da o effeithiau penderfyniadau cyllidebu, pam na all Trysorlys y Deyrnas Unedig? #cyllidebucynhwysol'

Dangosodd [arolwg](#) yn 2016 fod bron i hanner gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi cyflwyno, yn bwriadu cyflwyno neu wrthi'n ystyried cyflwyno, cyllidebu yn ôl rhyw. Ymrwymodd Canada i ddadansoddi cyllidebu yn ôl rhyw yn Beijing ym 1995, a chyda phwysau trwm gan gymdeithas sifil i gyllidebu yn ôl rhyw drwy gyllideb amgen flynyddol Canolfan Dewisiadau Polisi Canada, cyflwynodd cyllideb ffederal 2018 'ddadansoddiad ar sail rhywedd a'r tu hwnt'. Mae'r dull hwn yn ystyried sut mae mesurau polisi, gwario a threthi yn wahanol rhwng menywod a dynion, mewn [cyllideb](#) a ddisgrifir fel un sy'n 'angori ffyniant cenedlaethol hirdymor yng nghydraddoldeb economaidd menywod'. Mae mynd i'r afael â gwaddol anghydraddoldeb sy'n rhan o bolisi cyhoeddus, a dyrannu'r adnoddau, yn rhan greiddiol o waith prif ffrydio rhywedd. Clywsom obeithion y gallai cyllidebu yn ôl rhyw lywio newid cymdeithasol ehangach, fydd yn *dechrau gwerthfawrogi'r gwaith mae menywod yn ei wneud, gofal plant cymaint â phlymio, a dangos ei bwysigrwydd*.

MENYWOD A'U LLAFUR

Roedd [Grunwick] yn drobwyt mewn gwaith gwrth-hiliaeth a gwleidyddiaeth o blaid ffeministiaeth, cyfrannodd at urddas a chydraddoldeb i bob menyw a gweithiwr, gan gynnig modelau rôl oedd yn fenywod gwleidyddol oedd yn edrych fel fi.

Yasmin Rehman, ffeminydd ac ymgyrchydd hawliau dynol

Mae newidiadau deddfwriaethol i hawliau cyflogaeth wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau ymreolaeth economaidd i fenywod, ac i newid y syniadau o [gyfranogiad menywod i'r gymdeithas ehangach](#), gan gynnwys herio mudiadau llafur sydd wedi'u dominyddu gan ddynion. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd gweithredu diwydiannol gan fenywod yng ngwledydd Prydain ers y 19eg ganrif, [Streic Merched y Matsys](#) i [streic peirianyddion Dagenham](#) (yr ystyrir ei bod yn ganolog i gyflwyno'r Ddeddf Cyflog Cyfartal), a'r ffordd y llwyddodd [streic Grunwick](#) gan fenywod o darddiad De Asiaidd i roi hawliau gweithwyr ymfudol ar y map.

Yng Nghymru, clywsom am Streic y Glowyr fel addysg wleidyddol a oedd yn *ysbrydoliaeth i fenywod a oedd yn Aelodau Seneddol ac yn Aelodau Cynulliad. Mae ein plant, ein hwyryon a'n hwyresau yn fwy gweithgar yn wleidyddol*.

Wyth mlynedd a deugain ar ôl cyflwyno'r Ddeddf Cyflog Cyfartal, roedd gofyniad statudol newydd y Deyrnas Unedig, lle mae'n rhaid adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yn cael ei ganmol am *ddechrau sgursiau anhygoel ynghylch sut cyrhaeddod ni yma a beth sydd ei angen, mae hwn yn rhwystr hyd oes ym mywydau menywod y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef*.

Mae'r diwrnod pan aeth 90 y cant o [fenywod Gwlad yr Iâ ar streic](#) ym 1975 yn un eiconig, gweithred i 'ddangos gwaith angenrheidiol menywod ar gyfer economi a chymdeithas Gwlad yr Iâ'. Diolchir i'r weithred am wthio'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb ddilynol yn ei blaen. I ddechrau, cafodd y streic ei hail-adrodd bob degawd fel symbol o'r frwydr barhaus, ond mae amler y streic wedi cynyddu ers 2010 mewn ymateb i'r 'cynnydd bach iawn a wnaed mewn 30 mlynedd'. Ym Mangladesh, [mae Menywod y Cenhedloedd Unedig a CARE International](#) wedi bod yn gweithio gyda gweithwyr dillad benywaidd i fynd i'r afael â grymuso economaidd drwy hawliau gweithwyr a datblygu sgiliau arweinyddiaeth yn sgil galwadau rhyngwladol ar frandiau byd-eang i flaenoriaethu rhyddid gweithwyr i ymgysylltu yn wyneb erledigaeth [y wladwriaeth o ymgyrchwyr llafur](#).

Ym mis Medi 2017, gorymdeithiodd miloedd o fenywod yn Buenos Aires, Ariannin i ymgyrchu yn erbyn trais yn erbyn menywod a hawliau cyfartal.



© NurPhoto/Getty

IECHYD RHYWIOL AC ATGENHEDLU A HAWLIAU ATGENHEDLU MENYWOD

Dywedodd menywod wrthym: *mae'n bwerus iawn – yr hyn sydd wedi newid o ran hawliau atgenhedlu.* Sicrhawyd deddfwriaeth a buddsoddiad mewn iechyd atgenhedlu yn dilyn cynrychiolaeth gynyddol gan fenywod ar draws y byd: yn [Rwanda a De Affrica](#), er enghraifft. Yn [Zambia](#) yn 2017, galwodd y Llefarydd ar seneddwr benywaidd i ddefnyddio eu dylanwad ar y materion hyn. Yn ddiweddarach, ym mis Mai 2018, pleidleisiodd y mwyafrif llethol yn Iwerddon i [Ddiddymu'r Wythfed Diwygiad](#). Cafwyd llwyddiant yn y bleidlais hon drwy gymell poblogaidd ac eiriolwyr gwrywaidd grymus, yn enwedig yn y Taoiseach Leo Varadkar. Roedd wedi'i wreiddio mewn degawdau o ymgyrchu gan ymgyrchwyr llawr gwlad dros hawliau i fenywod, yn gweithio ochr yn ochr â lleiafrif o wleidyddion a oedd yn cefnogi diwygio.

Ledled y byd, mae ymgyrchoedd ideolegol wedi ysgogi camu'n ôl ar faterion iechyd rhyw ac atgenhedlu menywod a hawliau atgenhedlu, a gaiff ei herio gan

[gydweithrediad parhaus gwleidyddion a sefydliadau menywod](#). Cyfeiriodd y cyfranogwyr at llawer o enghreifftiau. Daeth [sefydliadau anllywodraethol](#) rhyngwladol ynghyd i gynnig cefnogaeth i'r rheini a oedd yn gwrthwynebu mesur 'Atal Erthylu' a gyflwynwyd yng Ngwlad Pwyl ym mis Mawrth 2018. Yn llawer o wledydd [America Ladin](#) mae'r diffyg mynediad at wasanaethau iechyd atgenhedlu, addysg rhyw gynhwysfawr, a dulliau atal cenedlu yn rhwystro menywod rhag ymarfer eu hawliau fel dinasyddion yn llawn. Yn ogystal, mae Arlywydd yr Unol Daleithiau wedi'i gyhuddo o '[dargedu iechyd menywod yn gyson ers y dechrau](#)' gartref a thramor. Gyda'r ymgais fwyaf diweddar gan seneddwr i fynd i'r afael ag anghysondeb yn hawliau rhyw ac atgenhedlu menywod yn y Deyrnas Unedig, mewn [trafodaeth yn San Steffan](#) gwelwyd dwy Aelod Seneddol benywaidd yn rhannu profiadau personol o erthyladau, *mewn ffordd na fyddai modd ei dychmygu ond dair wythnos ynghynt* [cyn canlyniad refferendwm Iwerddon].



© OpenRoadPR/Pixabay – CC0

MYND I'R AFAEL Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

Roedd consensws ymhlith y rhai y siaradom gyda nhw mai trais yn erbyn menywod a merched, heb os, yw'r mater y mae'n rhaid i seneddwyr benywaidd ei osod ar frig eu hagenda, a gellir dadlau mai dyma lle mae eu heffaith wedi bod amlycaf a mwyaf pellgyrhaeddol. Ystyrir i raddau helaeth mai trais yn erbyn menywod a merched yw'r enghraifft fwyaf eithafol o anghydraddoldeb i fenywod, ac mae'n achos ac yn ganlyniad i'r anghydraddoldeb hwnnw, ymhlith pethau eraill, sy'n lleihau eu gallu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a bywyd gwleidyddol ([argymhelliad cyffredinol Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod](#)).

Dywedodd y cyfranogwyr wrthym nad ystyriwyd trais yn erbyn menywod a merched fel mater polisi cyhoeddus tan i fenywod godi'r mater yn Senedd y Deyrnas Unedig, a byddai'r heddlu'n dal i wrthod ymyrryd mewn 'achos domestig'. Dechreuodd seneddwyr benywaidd weithio'n agos gydag ymgyrchwyr dros ryddid i fenywod a llochesi, gan ddechrau yn y saithdegau, er mwyn codi ymwybyddiaeth, cryfhau deddfwriaeth a gorfodi cyflwyno polisi. Mae'r gwaith hwn, ers yn agos at bedwar degawd, wedi arwain yn ddiweddar at wneud [rheoli drwy orfodaeth](#) yn drosedd, a chaiff ei adnabod fel ffurf ar drais domestig yng ngwledydd Prydain. Mae gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig strategaeth yr un ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a phan oedd Theresa May yn Ysgrifennydd Cartref (rôl y Gweinidog dros faterion mewnol rhwng 2010 a 2016), blaenoriaethodd y gwaith o greu dull traws-lywodraethol o weithio. Mae Cymru a'r Alban wedi arwain y ffordd yn rhyngwladol o ran [arfer deddfwriaethol](#). Yn yr Alban, clywsom: *yn yr wythnos gyntaf roedd trafodaeth gan yr aelodau ynghylch trais domestig. Roedd yn dangos y newid yn 1999 – ac roedd yn teimlo fel petai'r ymgyrchwyr dros hawliau menywod yn rhan o'r ddeddfwrfa* [Senedd yr Alban].

Soniodd llawer o wledyddion benywaidd am eu dymuniad i weithredu'n bersonol ar y mater hwn.

Dw i'n llwyr ymwybodol, pan ddes i'n Weinidog dros Gyfiawnder, mai fy mlaenoriaeth uchaf oedd mynd i'r afael â thrais domestig, mae'n siŵr mai dyma un o'r troseddau mwyaf cyffredin yng Nogledd Iwerddon, ac mae'n berthnasol i fi fel menyw.

Claire Sugden, Aelod Cynulliad Gogledd Iwerddon.

At hynny, clywsom, ers i Gymru a Lloegr gyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throsedd etholedig yn 2012, fod rhai o'r menywod a etholwyd wedi blaenoriaethu trais yn erbyn menywod a merched, megis Sue Mountstevens yn Avon a Gwlad yr Haf a Vera Baird DBE CF yn

Northumbria. Mae ymchwil wedi canfod bod 'Comisiynwyr Heddlu a Throsedd benywaidd yn fwy tebygol o flaenoriaethu trais yn erbyn menywod a merched yn eu Cynllun Heddlu a Throsedd blyneddol'.¹⁷

Clywsom am lawer o gynghorwyr a gwleidyddion lleol benywaidd sydd wedi gweithio ochr yn ochr â'r sector menywod ar lawr gwlad i ddiogelu gwasanaethau yn wyneb toriadau llymder cynyddol ac wedi datblygu arferion arloesol i ddylanwadu ar bolisi gwladol. Mae ymgeisydd y Blaid Cydraddoldeb Menywod, Tabitha Morton, wedi gweithio gyda sefydliadau menywod yng Nglannau Merswy i sicrhau bod trais yn erbyn menywod a merched yn cyrraedd yr agenda, a'i fod wedi'i gynnwys ym mlaenoriaethau [dilynol etholiad Maerol Dinas-Ranbarth Lerpwl](#) yn 2017. Deëllir bod y penderfyniad a wnaed yn Swydd Nottingham i drin [atgasedd tuag at fenywod fel trosedd casineb](#) wedi newid agweddau dioddefwyr, cyflawnwyr y troseddau a'r cyhoedd, a thrwy hynny wedi bwydo i [Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau Tŷr Cyffredin](#).

Mae llawer o'r cynnydd byd-eang wedi'i sbarduno gan [seneddwyr benywaidd](#). Mae deddf trais sy'n seiliedig ar rywedd 2006 [Rwanda](#) yn llwyddiant nodedig gan Ddirprwyon benywaidd. Roedd cynghreiriau rhwng ymgyrchwyr y tu allan i'r Senedd a menywod y tu mewn yn hanfodol er mwyn pasio'r [Mesur Trais Domestig yn Ne Affrica](#) ym 1998. Mae mynd i'r afael ag anffurfio organau cenedlu benywod fel ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched wedi uno gwleidyddion benywaidd a gwrywaidd mewn llawer o wledydd, gan gynnwys [Lloegr, Cymru, yr Alban](#) a [Kenya](#). Mae'r Senedd Iracaidd-Cwrdaidd wedi pasio'r [ddeddfwriaeth anffurfio organau cenedlu benywod cyntaf o'i bath yn y Dwyrain Canol](#) ac mae ymdrechion wedi bod yn [nwyrain Affrica](#) i gyflwyno fframwaith cyfreithiol rhanbarthol i gryfhau dulliau cenedlaethol. Mae'r Gynghrair o Aelodau Seneddol Benywaidd o wledydd Arabaidd er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, a gefnogir gan Sefydliad Democratiaeth San Steffan, wedi arloesi gyda [Chonfensiwn Arabaidd drafft yn erbyn Trais yn erbyn Menywod a Merched a Thrais Domestig](#).

Bu i rai cyfranogwyr gydnabod enghreifftiau o welliannau mewn perthnasau gweithio rhwng llunwyr polisi ac arbenigwyr trais yn erbyn menywod a merched dros y blyneddau diwethaf, ond soniwyd hefyd am yr achosion proffil uchel parhaus o ymosodiadau a thrais rhywiol sy'n arwain at yr angen i ystyried y newid diwylliannol mwy sydd ei angen i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched. Wrth ystyried hyn ym mis Mehefin 2018, ystyriodd y [Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau](#) dystiolaeth am rôl y cyfryngau a'r diwylliant ehangach ar aflonyddu rhywiol ar fenywod a merched mewn gofodau cyhoeddus fel rhan o'i ymchwiliad.

Dros y can mlynedd diwethaf, un o'r peiriannau newid mwyaf sylweddol yw gwell mynediad i fenywod at addysg, gan arwain at fwy o annibyniaeth economaidd a dylanwad yn y gymuned gyfan.

SUE INGLISH, SEFYDLIAD DEMOCRATIAETH SAN STEFFAN



BYD SY'N NEWID?

Soniodd ein cyfranogwyr am newidiadau ysgubol a welwyd dros y can mlynedd diwethaf yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol mewn themâu mawr fel pleidleisio, yr economi, gofal, addysg, cyfiawnder a throsedd, diwylliant, technoleg ac agweddau tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a'r effaith mae'r rhain wedi'i chael ac yn parhau i'w chael ar fenywod, grym a gwleidyddiaeth.

I'r cyfranogwyr, mae cysylltiad annatod yn dal i fod rhwng datblygiad menywod mewn gwleidyddiaeth a grymoedd yn y byd ehangach sy'n newid, sy'n gweithredu fel galluogwyr a rhwystrau, gydag effaith gadarnhaol a negyddol, ac ystyrir nad yw rhai newidiadau ehangach yn digwydd yn ddigon cyflym. Y themâu allweddol a drafodwyd oedd: agweddau'r cyhoedd tuag at gydraddoldeb; rhyddid economaidd; y sector diwylliannol; a thechnoleg. Yr enghreifftiau penodol a archwiliwyd yng nghyd-destun **Byd sy'n newid?** oedd: #MeToo; gwaith gofal a domestig; trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth; cyfranogiad gan fenywod a'r bleidlais; Citizen Girl ac ymgysylltiad â phobl ifanc.

AGWEDDAU'R CYHOEDD TUAG AT GYDRADDOLDEB

Roedd cytundeb bod newidiadau cadarnhaol wedi bod mewn agweddau dros y can mlynedd diwethaf, a arweiniwyd gan y cynnydd mewn ffeministiaeth a chonsensws cynyddol bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ddymunol. Nododd llawer fod carreg filltir allweddol wedi'i chyrraedd pan gafodd nod unigol (Nod 5) ar gydraddoldeb i fenywod a merched ei gynnwys yn y nodau datblygu cynaliadwy, a fabwysiadwyd gan arweinwyr y byd yn 2015, ynghyd â phrif ffrydio rhywedd a chynhwysiant yn yr 16 nod arall, sy'n arwydd bod agweddau wedi newid yn rhyngwladol i fenywod a merched. Er hynny, roedd cyfranogwyr o wledydd Prydain yn ystyried bod y nodau normadol hyn, a chyfraith ddomestig, yn dal i fod ar y blaen i'r sefyllfa yn y wlad, o ran safbwyntiau ac agweddau. Dywedodd y cyfranogwyr fod rhywiaeth yn dal i fod yn amlwg, a bod dynion nad ydynt yn ei weld na'i ddeall yn dal i fod.

Awgrymodd arolwg Fawcett, [State of the Nation 2016](#), fod mwyafrif pobl gwledydd Prydain o blaid cydraddoldeb, gyda 'dros ddau draean o bobl yn cefnogi cyfle cyfartal i fenywod a dynion' ac yn credu y byddai 'cydraddoldeb i fenywod a dynion yn dda i'r economi ac iddyn nhw'n bersonol', er y nodwyd mai 'dim ond saith y cant sy'n disgrifio eu hunain fel ffeminydd.' Disgrifiodd rhai o'n cyfranogwyr ymateb gwael i ffeministiaeth ac awgrymwyd bod ffeministiaeth yn wynebu argyfwng dirfodol a bod angen ei hail-ddyfeisio. Roedd pawb yn cytuno bod y cyfrifoldeb dros newid diwylliannol yn un cyfunol, a phwysleiswyd pwysigrwydd magu ein meibion i barchu menywod a'u trin yn gyfartal a sicrhau bod dynion yn cefnogi'r achos.

RHYDDID ECONOMAIDD

Myfyriodd nifer o gyfranogwyr ar y ffaith ei bod yn anodd iawn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu swydd gyhoeddus heb loches diogel, bwyd a diogelwch: *mae'n rhaid i bobl gael yr adnoddau i'w galluogi nhw i gamu i'r gofod hwnnw*. Mae newid enfawr yng nghyfranogiad economaidd ffurfiol menywod a gwelliannau i fywydau dydd i ddydd menywod yn golygu bod menywod dros y blynyddoedd wedi cymryd mwy o swyddi wrth i amodau eu galluogi. Erbyn hyn mae gan fwy o fenywod yr annibyniaeth a'r sicrwydd economaidd sydd ei angen arnynt i fynd i mewn i wleidyddiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd *pan briododd fy mam yng nghyfraith fel athrawes, roedd rhaid iddi ofyn am ganiatâd y pennaeth i barhau i weithio a phan ddes i'n was sifil, fi oedd un o'r rhai cyntaf nad oedd rhaid i fi adael pan briodais i, ar ôl diddymu'r rhwystr priodas ym 1973*.

Ond amlygodd y cyfranogwyr y ffaith bod yr amodau economaidd yn dal i ffafrio dynion, a dim ond yn galluogi rhai menywod i fynd i mewn i wleidyddiaeth. Adlewyrchir hyn yn y niferoedd is o fenywod, yn enwedig o ddosbarthiadau cymdeithasol difreintiedig, ymhlith aelodaeth pleidiau a swyddogion pleidiau. Roedd llawer o gyfranogwyr yn rhannu'r farn bod *angen i ni ystyried gyda'n gilydd pwy sydd ar goll, pwy gaiff eu heithrio ac ystyried pwy sy'n dod i'r cyfarfodydd hyn a phwy sydd â'r amser?* Gyda mwy o fenywod na dynion yn byw mewn tlodi, a mwy o fenywod yn parhau i ysgwyddo'r '[baich triphlyg](#)' (sef y tair rôl mewn cymdeithas; gwaith atgenhedlu, gwaith cynhyrchu a gwaith rheoli cymuned), barnwyd ei bod yn anochel y bydd grym a chyfranogiad gwleidyddol yn parhau i fod yn anghyfartal: *pan edrychwch chi ar yr economi a natur tlodi o ran y rhywiau, pa gapasiti sydd gan fenywod i gamu i rolau grymus?* Pwysleisiodd menywod hefyd pa mor ansicr a bregus mae'r newid yn teimlo yn ymarferol, yn enwedig mewn cyfnodau o ddirywiad economaidd neu ansafonlogrwydd gwleidyddol: *mewn cyfnod o lymder lle mae menywod wedi dwyn baich y pwysau, mae'n anodd gweld cynnydd*.

RÔL ADDYSG

Un neges allweddol oedd rydyn ni'n dechrau yn rhy hwyr yn y Deyrnas Unedig o ran datblygu llythrennedd gwleidyddol merched a'u hymwybyddiaeth o ystrydebau rhyw. Galwodd y cyfranogwyr am wneud mwy mewn addysg ffurfiol i herio ystrydebau rhyw, gan gysylltu hyn â chynnydd menywod mewn cyfranogiad gwleidyddol: *mae'n bwysig pwysleisio bod y cynnydd yng nghynrychiolaeth wleidyddol menywod yn uniongyrchol berthnasol i waith hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y byd cyhoeddus a'r preifat.*

Roedd galwadau cryf i ddysgu am gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ystod y blynyddoedd cynnar ac argymhelliad i wneud cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn rhan o gymhwyster cyffredinol hyfforddiant i athrawon. Roedd hyn yn cynnwys trafod rôl ymosodiadau ac aflonyddu rhywiol mewn ysgolion, o ran cefnogi a sefydlu ystrydebau rhywedd i'r dyfodol, a'r angen i herio hyn. Daeth [Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau](#) ar y pwnc hwn i'r casgliad bod profiad merched mewn ysgolion o ddydd i ddydd yn cynnwys profi aflonyddu rhywiol, ymosodiadau rhywiol a chamdriniaeth â lluniau, ac nad yw bechgyn yn cael eu cosbi am wneud hynny, gan fod yr athrawon yn ei drin fel ymddygiad arferol gan fechgyn.

Roedd cytundeb ein bod ni'n bell iawn o weld cydraddoldeb i fenywod wedi'i sicrhau a'i brif ffrydio ar draws y cwricwlwm. Gellid gofyn i fusnesau wneud mwy i gefnogi dysgu am gydraddoldeb rhwng y rhywiau gan fod gwelliant mewn ffeithiau amrywiaeth yn siarad drosto'i hun, mae bylchau llai rhwng y rhywiau yn creu cyfleoedd a mwy o arian. Mae argymhellion [Fawcett](#) yn cynnwys 'mwy o... ganllawiau ar gyfer mynd i'r afael â rhagfarn ar sail rhyw wrth ddarparu cyngor gyrfaal a phrentisiaethau'.

Mae Senedd Ieuencid y Deyrnas Unedig wedi bod yn galw am [Gwricwlwm am Oes ers](#) amser. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at enghreifftiau o brosiectau addysg wleidyddol sy'n ymgorffori cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn ardaloedd ar draws Prydain a [chynghrair o sefydliadau](#) sy'n gynyddol drefnus o ran hyrwyddo addysg wleidyddol. Fodd bynnag, yn unol ag adroddiad diweddar [Pwyllgor Dethol Dinasyddiaeth ac Ymwneud Dinesig Tŷ'r Arglwyddi](#), nid oedd y cyfranogwyr o'r farn fod addysg dinasyddiaeth bresennol yng ngwledydd Prydain yn mynd yn ddigon pell.

Roedd barn gymysg gan y cyfranogwyr ar y lefelau ymwneud dinesig a gwleidyddol presennol ymhlith pobl ifanc, ond roedd consensws bod manteision i'w cael o ymgysylltu a grymuso pobl ifanc gyda galwadau penodol er mwyn helpu i gael mwy o fenywod ifanc yn rhan o waith ymgyrchu. Roedd parch mawr tuag at waith cymunedol llawr gwlad sy'n digwydd yn y maes hwn, a gwnaed rhai sylwadau cadarnhaol am raglen y [Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol](#) sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth.

Mae potensial i rannu'r hyn a ddysgir gan brosiectau i wella gwaith prif ffrydio rhywedd mewn ysgolion ymhellach. Er enghraifft: *Roedd gan WomanKind raglen addysg a oedd wedi'i llunio dramor ac a ddaeth i wledydd Prydain – ar adeiladu parch a dinasyddiaeth, ac yn mynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu ar sail rhywedd mewn ysgolion.* Roedd awydd am gyfathrebu, cyfnewid gwybodaeth a chwistrellu syniadau o wledydd eraill: *byddai'n fuddiol iawn dod ag arweinwyr yng ngwledydd Prydain ynghyd, gyda rhai arweinwyr allanol da.*

Y SECTOR DIWYLLIANNOL

Mae diwylliant a'r celfyddydau wedi chwarae rôl enfawr yn [nathliadau canmlwyddiant gwledydd Prydain](#) eleni. Mae menywod (a rhai dynion) wedi dod ynghyd ar draws gwledydd Prydain i greu baneri, perfformio, canu, ysgrifennu llyfrau a chronau, a siarad yn gyhoeddus, fel y defnyddiodd y swffragetaid gyhoeddiadau eraill gan mlynedd yn ôl.

Nodwyd y digwyddiad gyda chelf gyhoeddus, gan gynnwys comisiynu cerfluniau newydd, gorymdeithiau lliwgar a ffrwydriad o ddigwyddiadau celfyddydol mewn dinasoedd a chymunedau ar draws gwledydd Prydain. Dywedwyd wrthym fod y sector diwyllianol yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo cyfranogiad, cynrychiolaeth a grym menywod, a chaiff ei esgeuluso'n rhy aml. Yn eu llyfr, *The Stalled Revolution* disgrifiodd Eva Tutchell a John Edmonds sut y bu i theatr, dawn, cerddoriaeth, paentio a cherflunio ffynnu yn ystod y ddwy ymgyrch gan fenywod yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Nid cyd-ddigwyddiad oedd hyn. Yn ystod cyfnodau o chwyldro deallusol a chyffro gwleidyddol, rydyn ni'n dueddol o ganfod yr hyn sy'n ein symbylu... Roedd Cynghrair Etholfraint yr Actoresau, a sefydlwyd ym 1908, yn hyfforddi menywod oedd heb arfer â siarad yn gyhoeddus i fynegi eu hunain, ac roeddent yn helpu i goreograffu a llwyfannu rhai o sioeau gwleidyddol yr ymgyrch.¹⁸ I'r perwyl hwn, yn ystod 2018 sefydlwyd y [Grŵp Gweithredu Canmlwyddiant](#), cynghrair o dros 100 o ymgyrchwyr, gwleidyddion a sefydliadau hawliau menywod, i gefnogi dathliadau'r canmlwyddiant er mwyn creu gwaddol parhaus a chreu sylweddol i hawliau menywod yng ngwledydd Prydain ac ymwneud gwleidyddol menywod.

Clywsom hefyd fod yr *ymateb artistig a diwyllianol i'r refferendwm* lannibyniaeth yr Alban] yn bwysig wrth herio'r ffordd wrywaidd, gwelw a hen o edrych ar wleidyddiaeth... a newidiwyd cywair y drafodaeth. Clywsom hefyd am rym diwylliant a'r celfyddydau wrth ddod â menywod (er nid menywod yn unig) yn rhan o faterion ac ymgyrchu gwleidyddol, gan gysylltu ar draws rhwystrau diwyllianol ac ieithyddol, ac o ran creu'r egni a'r momentwm sydd ei angen i sicrhau newid.

TECHNOLEG

Mae cynnydd cyflym mewn technoleg wedi achosi newid dramatig yn y ffordd mae pobl yn clywed y diweddaraf am wleidyddiaeth, yn cymryd rhan, ac yn rhyngweithio gyda'u cynrychiolwyr gwleidyddol. Mae'r teledu a chyfryngau prif ffrwd wedi chwarae rhan bwysig dros y can mlynedd diwethaf yn y modd y mae gwleidyddiaeth yn digwydd, ac mae'n parhau i wneud hynny. Er hynny, gellir dadlau mai'r newid mwyaf a welwyd yw bod y cyfryngau cymdeithasol wedi creu gofodau newydd i gysylltu a rhannu mwy a mwy, ynghyd â cham-drin menywod mewn gwleidyddiaeth yn anffodus.

Rhodddwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol a negyddol o'r effaith mae hyn yn ei chael o ran cyfranogiad a grym gwleidyddol menywod.

Trafododd y cyfranogwyr yr hyblygrwydd mae technolegau newydd yn ei gynnig, gan gynnwys ffonau, cynadleddau fideo, gliniaduron, fel newidiadau sy'n galluogi mwy o fenywod i weithio wrth deithio, i weithio'n fwy hyblyg ar adeg ac mewn lle sy'n addas iddyn nhw, i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ac i adeiladu rhwydweithiau ac ymgyrchoedd pwerus, fel y gwelwyd gydag ymgyrch #MeToo. Ond, fel yr adroddir yn eang, mae'r gofodau newydd hyn wedi'u dominyddu i raddau helaeth gan leisiau dynion, yn debyg i'r ffynonellau cyfryngol traddodiadol, ac mae cyfraniadau a phrofiadau menywod yn dal i gael eu [tan-gofnodi a'u tangynrychioli](#) yn rhy aml. Rhodddwyd enghreifftiau o'r data sy'n dangos y bwch o ran [aidrydar menywod ar Twitter](#) a'r bwch tudalennau rhwng y rhywiau ar [Wikipedia](#).

#METOO

Mynegwyd llawer o frwdfrydedd gan y cyfranogwyr am rôl #MeToo; mudiad rhyngwladol ar y cyfryngau cymdeithasol yn herio aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol: Mae [#MeToo] yn enfawr, mewn ffordd mae wedi rhoi egni newydd i ffeministaeth ac mae'n teimlo fel petai newid yn yr aer. Gwelwyd y mudiad fel enghraifft newydd a phwerus o sut y gellir defnyddio technoleg i ddefnyddio llais a phrofiad menywod a symbylu menywod i weithredu yn y maes cymdeithasol a gwleidyddol: mae ymgyrch #MeToo a'r pethau ofnadwy rydyn ni wedi bod yn clywed amdany'n nhw o ran aflonyddu rhywiol ac ati yn golygu bod menywod yn dweud rydyn ni wedi cael digon, rhaid i bethau wella. Clywsom fod y potensial ar gyfer creu undod rhyngwladol rhwng menywod a merched yn amlwg, ac yn enwedig y gallu i ennyn ymateb menywod ieuengach: undod rhyngwladol, fel aelod o genhedlaeth y mileniwm, mae'n eich cymell.

Nododd y cyfranogwyr ganlyniadau cadarn y mudiad fel man cychwyn pwysig i weld dynion yn cael eu dal i

gyfrif ac i agor trafodaethau: mae ymgyrch gyhoeddus #MeToo yn bwysig, yn Ariannin daeth yr ymgyrch yn erbyn lladd menywod yn sgwrs am drais a chynrychiolaeth yn ehangach. Roedd rhai o'r farn bod yr ymgyrch wedi galluogi pobl i ddangos cysylltiadau rhwng agendâu cydraddoldeb: mae'n adeiladu'r achos – cysylltu agendâu pwysig (megis cynrychiolaeth a thrais ar sail rhywedd. Yng ngwledydd Prydain, awgrymwyd bod ymgyrch #MeToo wedi adfywio dicter. Gwelsom hefyd ymdrefnu uniongyrchol yn yr ymgyrch wrth i ymgyrchwyr gwleidyddol yng ngwledydd Prydain annog aelodau pleidiau i rannu straeon am aflonyddu rhywiol yn ddi-enw a cheisio cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnodau #LibDemsToo a #LabourToo. Er i ni glywed gobaith ein bod ar bwynt tyngedfennol a chyfle amserol i wthio'n galed, i agor drysau, i fod yn radicalaidd roedd cydnabyddiaeth eang bod angen gweithredu'n unedig ac yn gyflym fel bod y llwyfan hwn yn cyflawni newid: y broblem yw os nad ydyn ni'n symud yn gyflym a gweld newid, bydd yn chwalu.



GOFALU A GWAITH DOMESTIG

Roedd llawer o drafodaeth gyfoethog a bywiog am y diffyg cynnydd yng ngwledydd Prydain o ran gofal, cyflogedig neu ddi-dâl, gofal plant neu ofal henoed, a gwaith domestig. Er i rai nodi bod *dyfeisio'r peiriant golchi* a theclynnau domestig eraill wedi rhoi'r *allwedd i ryddhau menywod o dasgau tŷ*, nodwyd bod y ffaith bod menywod yn parhau i wneud rhan helaeth o'r holl waith gofalu a domestig yn cael effaith uniongyrchol ar gyfranogiad, cynrychiolaeth a grym gwleidyddol menywod. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at dystiolaeth bod gwleidyddion yng ngwledydd Prydain yn edrych tuag at wledydd Nordig, yn enwedig Sweden a Gwlad yr Iâ, lle roedd cynrychiolaeth menywod a chyfranogiad gwleidyddol uwch yn cydberthyn â rolau rhianta mwy cyfartal a llai o [fwlch rhwng y rhywiau](#). Er enghraifft, ymwelodd [Cawcws Democratiaeth Menywod y Cynulliad Cenedlaethol](#) â Senedd Gwlad yr Iâ yn 2014 i ddysgu gan senedd hynaf y byd. Er nad awgrymodd neb bod unrhyw un wlad yn *gweithredu'n berffaith*, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yr enghreifftiau hyn yn amlygu pwysigrwydd *creu'r amodau ar gyfer cymdeithas decach*, gan gynnwys y ffaith mai dim ond trwy ofal plant o ansawdd a rhianta ar y cyd y mae modd cael digon o fenywod mewn swyddi, ac o ganlyniad mewn safleoedd sy'n gwneud penderfyniadau (cyflwynwyd absenoldeb rhianta ar y cyd yn [Sweden](#) ym 1974 ac mae rhianta ar y cyd wedi dod yn arfer cyffredin).

Dywedodd ein cyfranogwyr fod angen bod yn fwy rhagweithiol yng ngwledydd Prydain wrth herio'r arferion presennol o ran oriau gweithio a rhianta, er mwyn newid deinameg y cartref a'r gweithle, er enghraifft normaleiddio gweithio hyblyg a rhan amser i bawb: *mae'n rhaid i swyddi yn y trydydd sector a gwleidyddiaeth fod yn hyblyg, yn rhan amser, ac nid mewn polisiau ar bapur yn unig ond eu cyflwyno'n iawn*. Mae argymhellion yr adroddiad diweddar [Tadau a'r gweithle](#) gan y Pwyllgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau yn cefnogi hyn, ac yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â diwylliant macho sy'n atal tadau rhag manteisio ar hawliau tadolaeth a chyfleoedd gweithio hyblyg a rhan amser. Roedd [ymateb y llywodraeth](#), er ei fod yn gwrthod llawer o'i argymhellion, yn cydnabod bod gan y llywodraeth *ddylanwad uniongyrchol ar yr hyn sy'n digwydd yn y gweithle*. Amlygodd y rhai y siaradom gyda nhw bod angen i wleidyddion fod ar flaen y gad o ran anelu am normau rhianta a gofalu newydd – *dylai ein gwleidyddion a'n sefydliadau gwleidyddol fod yn arwain y ffordd yn hytrach na chwmpo tu ôl* – a'r angen i edrych yn ehangach, y tu hwnt i rianta, i ystyried cyfrifoldebau gofalu yn gyffredinol fel rhan o adolygiad o sut y caiff gofal ei werthfawrogi.

TRAIS YN ERBYN MENYWOD MEWN GWLEIDYDDIAETH

Mae wir angen i ni weithio'n galetach i greu gofod ar gyfer lleisiau gwahanol. Dw i'n meddwl ein bod ni wedi gweld tuedd annifyr lle, er mwyn eu diogelwch, mae pobl – seneddwr hyd yn oed – yn ofni codi llais; mae'n iasol i fenywod.

Yr Anrhydeddus Patricia A Torsney, Sylwedydd Parhaol Undeb Rhyng-Seneddol i'r Cenhedloedd Unedig

Mae profiadau menywod o'r [swffragetiaid](#) hyd at fenywod yn brwydro dros gynrychiolaeth ar draws y byd heddiw, yn dangos y caiff trais seicolegol a chorfforol ei ddefnyddio'n gyffredin yn erbyn menywod sy'n ceisio cymryd rhan mewn prosesau democrataidd.¹⁹ Ym mis Chwefror 2018, cynhaliodd Sefydliad Democratiaeth San Steffan a phleidiau gwleidyddol gwledydd Prydain yr uwch-gynhadledd ryngwladol [Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod mewn Gwleidyddiaeth](#). Bu'r cynadleddwyr yn edrych ar ddatrysiadau, gan gynnwys gweithredoedd megis [Deddf Bolifia yn erbyn Aflonyddu a Thrais Gwleidyddol yn erbyn Menywod](#), a oedd yn ymateb i 4,000 o gwynion am aflonyddu gan fenywod sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth dros yr wyth mlynedd yn dilyn 2012. Yn 2016, ffurfiwyd y mudiad rhyngwladol, [#NotTheCost](#), i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn benodol. Mae ymgyrchoedd gwledydd Prydain a rhai rhyngwladol yn cynnwys [Reclaim the Internet](#) ymgyrch drawsbleidiol gan Yvette Cooper AS a [Fix the Glitch](#). Mae neges allweddol i'r ymgyrchoedd hyn, sef na ddylid derbyn trais geiriol, trais ar y cyfryngau cymdeithasol na thrais corfforol fel y norm newydd.

Pan ofynnwyd iddynt mewn arolwg gan yr Undeb Rhyng-Seneddol, roedd 45 y cant o'r holl [seneddwr benywaidd](#) rhyngwladol wedi cael bygythiadau o ladd, treisio, curo neu gipio yn ystod eu cyfnod yn y swydd, ac roedd 65 y cant wedi profi sylwadau rhywiaethol bychanol droeon. Mae menywod dair gwaith yn fwy tebygol na dynion o dderbyn [sylwadau rhyweddol negyddol](#), hynny yw yn berthnasol i'w gwedd, eu statws priodasol, neu eu gallu o achos eu rhyw. Mae

cynrychiolwyr sy'n disgrifio eu hunain yn agored fel ffeminyddion yn wynebu atgasedd parhaus; mae Jess Phillips AS wedi sôn am dderbyn dros [600 o fygythiadau trais rhywiol dros gyfnod o un noson](#). Mae aflonyddu a chamdriniaeth yn cael effaith anghymesur ar ymgeiswyr duon a lleiafrifoedd ethnig, Mwslемаidd ac Iddewig, lle caiff camdriniaeth ar sail rhywedd ei chyfuno â [hiliaeth](#), [Islamoffobia](#), a [gwrth-semitiaeth](#); roedd dros hanner y trydariadau ymosodol ar Aelodau Seneddol yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol 2017 wedi'u cyfeirio at un aelod seneddol benywaidd ddu, [Diane Abbott](#), Ysgrifennydd Cartref yr wrthblaid. Mae rhywiaeth, camdriniaeth a bygythiadau ar-lein yn cymell menywod i beidio ag ymwneud â gwleidyddiaeth gynrychioliadol ar bob lefel, gan eu bod yn *dad-ddilysu*, yn *dad-ddyneiddio*, yn *tynnu sylw*, yn *peri ofn* ac yn *anghymell menywod*, ac wedi'u *cydblethu â bygythiadau a gweithredoedd o drais corfforol*, maent wedi'u dylunio i dawelu ac i reoli menywod. Er nad yw trais gwleidyddol wedi'i gyfeirio at fenywod yn unig, mae'n [seiliedig ar rywedd](#).

Bu i lofruddiaeth yr Aelod Seneddol Jo Cox yn ei thref enedigol yn Swydd Efrog yn 2016, synnu'r byd. Caiff trais mor eithafol [yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth](#) ei gysylltu fel arfer â gwledydd sydd â chyfraddau uwch o droseddau treisgar heb gosbau, llai o gynrychiolaeth gan fenywod ac anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd uchel, neu lle mae gwladwriaeth yn mynd drwy drawsnewidiad neu'n dioddef aflonyddwch gwleidyddol. Yn yr Aifft, yn dilyn y Gwanwyn Arabaidd, arweiniodd cwmp diogelwch o 2010 ymlaen at ddefnydd [cynyddol o drais rhywiol systematig yn erbyn menywod](#) sy'n gweithio yn y byd gwleidyddol. Ac ym mis Mawrth 2018, wrth gwblhau'r astudiaeth hon, rydym hefyd wedi gweld ymgyrchydd a chynghorydd yn Rio de Janeiro, Marielle Franco, yn cael ei llofruddio ym Mrasil. [Ystyrir bod rhai llywodraethau yn rhan weithredol o beri trais](#); yn Serbia o dan yr Arlywydd Milošević gwelwyd dirmyg ac ymosodiadau llywodraethol agored ar gyrrff anllywodraethol menywod oedd yn gweithio dros heddwch a hawliau dynol menywod.

CYFRANOGIAD MENYWOD A'R 'BLEIDLAIS'

Yr hyn dw i'n ddweud pan dw i'n ... siarad gyda menywod sy'n dweud efallai na wnawn nhw bleidleisio, yw y dylai pawb bleidleisio. Dyma eu cyfle nhw i gael dweud eu dweud am bwy sy'n rhedeg eu gwlad. Mae menywod sydd wedi aberthu eu bywydau am yr hawl i bleidleisio yn y wlad hon, a phobl ar draws y byd sy'n dyheu i gael y rhyddid hwn, felly fe ddylen ni ei ddefnyddio.

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS,
Prif Weinidog y Deyrnas Unedig

Gan mlynedd ar ôl i rai menywod ennill y bleidlais, adroddir bod 85 y cant o fenywod [wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y Deyrnas Unedig](#), (o gymharu ag 83 y cant o ddynion) ac [mae menywod yr un mor debygol o fynd i bleidleisio â dynion](#). Nid ystyrir bod y [blwch rhwng y rhywiau o ran dewis pleidlais](#), hynny yw y gwahaniaeth mewn cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol rhwng dynion a menywod, yn gyson, ac mae'n amrywio yn ôl yr etholiad. Mae pleidiau gwleidyddol wedi gwneud ceisiadau unedig ers yr wythdegau am 'bleidlais y menywod'. Y mwyaf diweddar oedd yn 2015, gyda [bws ymgyrchu pinc y blaidd Lafur](#) a'r ymgais i ffemineiddio'r blaidd Geidwadol o dan David Cameron. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf ei bod yn debygol nad oes un ffordd, na ffordd hawdd, o ennill cefnogaeth menywod wrth y blwch pleidleisio, ond gan eu bod yn 50 y cant o'r pleidleiswyr, mae rheswm da i drio.


Mae menywod ledled y byd yn arfer eu hawl yn ymwybodol drwy bleidleisio. Clywsom gan wleidyddion gwledydd Prydain *am gwrdd â menywod yn weddol aml sy'n dweud 'mae fy ngŵr i'n dweud y dylwn i bleidleisio i [enwi gwleidydd arall] ond dw i'n credu y bydda i'n pleidleisio i chi*'. Er hynny, dywedodd cyfranogwyr wrthym hefyd iddynt gwrdd â menywod sy'n parhau i droi at eu gwŷr neu deulu wrth benderfynu pwy i bleidleisio drostynt, neu sy'n ei ystyried fel penderfyniad ar y cyd. Yng ngwledydd Prydain a ledled y byd, mae llawer o *rystrau diwylliannol, llwythol a chrefyddol yn dal i fod sy'n atal menywod rhag gweithredu a chymryd rhan mewn gwleidyddiaeth*, a chlywsom am rym

systemau sy'n 'seiliedig ar dylwyth' o ddylanwadu ymostyngol a chyfyngu ar ryddid menywod yn benodol. Cyfeiriwyd at enghreifftiau yn Ynysoedd y Môr Tawel a rhai cymunedau Asiaidd yng ngwledydd Prydain: *mae hyn yn dangos eto y rhwystrau diwylliannol, crefyddol a chymunedol y mae menywod duon a lleiafrifoedd ethnig o gymunedau ffydd yn eu hwynebu yn ogystal â rhwystrau cymdeithasol ehangach*.

Roedd cyfranogwyr yn deall bod rhwystrau ychwanegol i rai grwpiau o fenywod yng ngwledydd Prydain, yn enwedig menywod digartref, Sipsiwn neu Deithwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches, a menywod sy'n byw mewn lloches neu sy'n profi trais domestig. Clywsom gan un cyfranogwr am fenywod wedi'u dadryddfrenio o achos ansicrwydd am eu dinasyddiaeth mewn perthynas â pholisi mewnffudo: *os yw [menywod] sydd wedi'u geni a'u magu yma ers degawdau yn gallu cael eu halltudio, beth mae bod yn ddinesydd yn ei olygu? Sut mae cymryd rhan yn y drafodaeth os nad ydych chi'n ddinesydd?* Nodwyd hefyd ei bod yn dal i fod yn aneglur os, ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, bydd y [tair miliwn o ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd](#), gan gynnwys menywod, sydd yng ngwledydd Prydain, yn dal i allu pleidleisio ar lefel leol.

Pwysleisiodd sefydliadau ymgyrchu nad oes datrysiadau cyflym o ran ymgysylltu â menywod sydd wedi'u dadryddfrenio. Cyfeiriwyd at waith pwysig, er enghraifft, gan fudiadau [Menywod dros Ffoaduriaid Benywaidd](#), [Rosa](#) ac [UK Feminista](#): *mae'n broses araf iawn ... yn llythrennol dim ond llefydd i fenywod gwrdd, ymdeimlad o gymuned, grymuso menywod i wneud pethau ac i newid pethau*. Pwysleisiodd y rheini y clywsom ganddynt fod *cyfranogiad democrataidd yn fwy na chael eich cynrychioli gan gynrychiolydd gwleidyddol*, a bod angen cefnogi cyfranogiad dinesig a democrataidd ehangach menywod. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r posibilrwydd, pe bai'r Deyrnas Unedig yn creu modelau llywodraethu mwy lleol, y gellid hybu cyfranogiad menywod, yn enwedig os ydynt yn teimlo bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agosach iddynt a bod mwy o dderbyniad o'u rôl fel dinasyddion gweithredol.

Y GANRAN A BLEIDLEISIODD YN ETHOLIAD CYFFREDINOL Y DEYRNAS UNEDIG YN 2015 AC 2017 YN ÔL RHYWEDD





© bones64/Pixabay – CC0

CITIZEN GIRL AC YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC

I ddathlu can mlynedd ers i rai menywod ennill y bleidlais a [Blwyddyn Pobl Ifanc yr Alban](#), mae Girlguiding yr Alban wedi ymuno â Menywod 50:50 i lansio [Citizen Girl](#), i rymuso'r genhedlaeth nesaf o arweinyddwr benywaidd mewn gwleidyddiaeth a thu hwnt. Ochr yn ochr â rhaglen Girlguiding ar draws gwledydd Prydain 'Gweithredu dros Newid', mae Citizen Girl yn un o nifer cynyddol o brosiectau yn y gymdeithas sifil sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol i wella llythrennedd gwleidyddol, eiriolaeth ac ymgysylltiad gwleidyddol gyda menywod ifanc a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys [Bite the Ballot](#), [The Politics Project](#), [Rosa](#), [Reclaim](#), [Uprising](#), [Young Women Lead](#), [UK Feminista](#) a [RiseVoiceVote](#). Mae Senedd y Deyrnas Unedig yn cynnal rhaglen allgymorth ac yn benodol, gweithdai [Menywod yn y Senedd](#). Mae yna fudiad ffyniannus ynghlwm â [Senedd Ieuencid y Deyrnas Unedig](#) a [Chyngor Ieuencid](#) ac mae maerau'r Deyrnas Unedig yn penodi pobl ifanc fwyfwy i rolau ymgynghori, megis [Ieuencid Bryste](#) ac [Awdurdod Cyfun Ieuencid Manceinion Fwyaf](#). Ystyrir bod ymrwymiad cryf gan y mentrau ieuencid hyn i gydbwysedd rhwng y rhywiol, er enghraifft mae cynllun Maer Ieuencid Bryste yn mynd ati'n bwrpasol i benodi un cynrychiolydd gwrywaidd ac un benywaidd. Roedd ein cyfranogwyr yn edrych ymlaen am y cyfleoedd i fenywod ifanc ymwneud â gwleidyddiaeth, ond hefyd yn cadw mewn cof bod angen i'r ymgysylltiad hwn fod yn eang ac mewn llawer o ofodau: *mae angen i ni sicrhau nad y senedd ieuencid yw'r unig lwybr i bobl ifanc chwarae rhan.*

Wrth ystyried lefelau ymgysylltu menywod ifanc â gwleidyddiaeth, crybwyllodd y cyfranogwyr fod rôl arddulliau newydd a gwahanol o ymgyrchu gwleidyddol yn bwysig wrth ddenu pobl ifanc gan gynnwys menywod, fel y cynnydd mewn ymgyrchu ar y cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o gelfyddydau gweledol. Roedd enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yng ngwledydd Prydain yn cynnwys cynnydd y mudiad [Momentum](#), ymgyrch [#weareurope](#) a gaiff ei harwain gan bobl ifanc, camau'r [Blaid Geidwadol i adfywio'r adain ieuencid](#), ac yn rhyngwladol, cyfeiriodd y cyfranogwyr at rôl ymgyrch Bernie Sanders yn yr Unol Daleithiau o ran cyrraedd pleidleiswyr ifanc. Yn [etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig 2017](#) gwelwyd y ganran uchaf o ieuencid yn pleidleisio ers 25 mlynedd, gyda 57 y cant o bobl 18 ac 19 oed yn pleidleisio, ac ar gyfer menywod rhwng 18 a 24 oed, cynyddodd cyfranogiad o 44 y cant yn 2015 i 53 y cant. Er bod hyn yn dal i fod yn sylweddol is na phleidleiswyr hŷn (pleidleisiodd 84 y cant o bobl dros 70 yn 2017), roedd yn dilyn trafodaeth gyhoeddus sylweddol am effaith pleidlais Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn 2016 ar ddyfodol pobl ifanc. Mae ymgyrch boblogaidd am yr hawl i bleidleisio yn 16 oed ar gyfer holl etholiadau gwledydd Prydain. Yn [yr Alban](#), rhoddwyd y bleidlais i bobl 16 ac 17 oed ar gyfer y Refferendwm Annibyniaeth yn 2014, ac maent nawr yn pleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau lleol, gan gofrestru cyfradd bleidleisio o 75 y cant.

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae'r astudiaeth hon yn adlewyrchu'r safbwyntiau a glywsom, yn bennaf gan fenywod ond hefyd gan rai dynion, gwleidyddion, academyddion, arbenigwyr cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ymgyrchwyr yn 2018. Caiff eu lleisiau eu hadlewyrchu yn yr adroddiad drwyddo draw wrth dystio i'r enillion niferus sydd wedi bod i fenywod yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol, gan gofio'r rhai a weithredodd yn unigol ac ar y cyd, a sôn am ble mae'r angen am newid yn parhau er mwyn datblygu cyfranogiad menywod mewn grym a gwleidyddiaeth.

Clywsom fod realiti cynnydd mewn grym a chynrychiolaeth merched yn un o enillion araf a thameidiog: *yn wleidyddol* [rydyn ni'n] *edrych ar newid cynyddol, ac nid un eiliad eureka*. A lle bo gafael yn y foment yn cynnwys *gwthio rhywedd i'r drafodaeth pan fo'r cyfle'n codi*. Nid yw'r cyfleoedd na'r eiliadau hyn yn rhai ar hap, ond yn ganlyniad i bwyntiau tyngedfennol a grëwyd gan ystod o ffactorau. Clywsom drafodaeth a chanmoliaeth sylweddol i'r rôl mae llawer o weithredwyr hollbwysig wedi'i chwarae o ran cyflawni cynnydd, drwy weithredu ac arweinyddiaeth unigol gan fenywod, ac wrth *fod yn ddewr a lleisio'u barn*. Ar yr un pryd, roedd pryder y gallai'r pwyslais hwn ar neilltuo un arweinydd, os caiff ei ddefnyddio'n anfeiriadol, leihau neu hepgor rôl y rhai nad oes modd eu gweld sy'n gyrru newid.

Clywsom hefyd nad yw cynnydd yn gronnu bob tro: *mae'r syniad y bydd yn cymryd hyn a hyn o flynyddoedd i gael hyn a'r llall, yn cymryd yn ganiataol y bydd y broses yn syml a bod y llwybr yn un syth, ac nid yw hynny'n wir*. Er i fenywod ddathlu eiliadau a *gyflawnodd bethau na ellir eu dad-wneud yn y daith i gael cynrychiolaeth gyfartal*, soniodd llawer am y teimlad bod yr enillion yn *fregus* a bod angen parhaus i gadw gwyladwriaeth, i *gadw ein llygad ar y bêl*. Mae'n glir iawn yn ôl safbwyntiau'r rhai y clywsom ganddynt, nad yw gweithredoedd unigol yn gyrru cynnydd. Drwy gydol y sgysiau, clywsom am bwysigrwydd ein chwe thema allweddol a'r berthynas rhyngddynt i gyflawni newid: ymgyrchu gan fenywod a chwaeroliaeth; y rheolau; y gweithle gwleidyddol, swyddi arweinyddol; y canlyniadau ac effaith y byd ehangach sy'n newid.

Wrth galon y drafodaeth, clywsom ddyhead i newid natur sylfaenol y rolau mae menywod a dynion yn eu chwarae yn ein cymdeithas: *rhannu'r gofal, rhannu'r gwaith fel y bloc adeiladu sylfaenol i gyflawni cydraddoldeb grym, mae menywod yn gwthio i sicrhau deddfwriaeth, ond os nad ydyn ni'n creu'r is-adeiledd, y gofal plant, y ffordd rydyn ni'n darparu gofal cymdeithasol yn ehangach ac yn peidio â rhoi gwerth ar hynny, yna dydyn ni ddim yn mynd i gael yr hanfodion i gyflawni newid*.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod gwledydd Prydain yn cyrraedd y *pwynt tyngedfennol* gyda nifer cynyddol o fenywod cymwys ac amlwg yn arwain yn y byd gwleidyddol: *erbyn hyn mae gennym ni lawer o fenywod huawdl o amgylch y bwrdd, ac rydyn ni'n dechrau clywed eu lleisiau, mewn gwleidyddiaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol, mae croeso mawr i hynny*. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i ystyried y posibilrwydd mai nawr yw'r adeg i gyflawni newid pellach: *mae'n teimlo fel petai newid yn yr aer*.

Mae natur y cyfnodau hyn yn golygu mai dim ond wrth edrych yn ôl y mae modd eu gweld fel cyfnodau canolog i'r achos, p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol o ran effaith. Nid oedd hyn yn atal trafodaeth drylwyr gan gyfranogwyr am natur ac effaith bosibl dau gyfle posibl ar hyn o bryd i gynnydd gwleidyddol menywod. Mae'r cyntaf yn berthnasol i fenywod ledled y byd, *a yw ymgyrch #MeToo yn bwynt tyngedfennol rhyngwladol newydd?* ac mae'r ail yn fwy uniongyrchol berthnasol i fenywod yng ngwledydd Prydain, *beth mae Brexit yn ei olygu i hawliau a chynnydd menywod gwledydd Prydain?* Mae'r ddau'n parhau i fod yn gwestiynau agored ar gynnydd menywod mewn grym a gwleidyddiaeth.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn glir at dystiolaeth o enillion menywod yn y byd gwleidyddol yn gwneud gwahaniaeth ystyrion i fywydau menywod a merched yng ngwledydd Prydain ac ar draws y byd, o hawliau llafur menywod, iechyd rhywiol ac atgennedlu a hawliau atgennedlu, hyd at gyllidebu yn ôl rhyw ac yn benodol drwy weithredu'n fyd-eang i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Nid yw ethol menywod yn ddigon ynddo'i hun i alluogi canolbwyntio ar anghenion menywod a merched mewn prosesau gwleidyddol – mae angen gwneud mwy. Clywsom hefyd frwdfrydedd mawr am fecanweithiau rhyngwladol a ffyrdd eraill y gellir cyfnewid syniadau a gwreiddio cefnogaeth ddwyochrog yn fyd-eang. Roedd llawer o enghreifftiau o arferion gan wledydd ac awdurdodaethau eraill y cyfeiriwyd atynt yr oedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol eu trosi a'u defnyddio ar draws gwledydd Prydain. Gobeithir hefyd y gallai enghreifftiau o wledydd Prydain a thrafodaeth am gyd-destun gwledydd Prydain fod yn ddefnyddiol er mwyn gwneud cynnydd mewn mannau eraill.



© Richard Jolly

ARGYMHELLION

Roedd safbwyntiau ar yr hyn sydd ei angen nesaf i gyflawni newid sylweddol erbyn 2028 yn gyfoethog ac yn amrywiol. Fodd bynnag, roedd consensws bod angen gweithredu nawr i ehangu'r enillion presennol i'r holl fenywod yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol. Gan atseinio egni *ein chwiorydd, y swffragetiaid*, roedd galw cryf am weithredu.

Wrth ystyried pwysigrwydd undod rhyngwladol, deialog a chynnydd byd-eang yn y mudiad dros rym a chynrychiolaeth wleidyddol gyfartal i fenywod, rydym yn rhannu'r dyheadau a'r blaenoriaethau a fynegwyd amlaf gan y cyfranogwyr. Cyfuniad cyffredinol o flaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer newid yw'r argymhellion hyn, pan ofynnwyd iddynt **pa newid hoffech chi ei weld yn y deng mlynedd nesaf?**

Cânt eu mynegi'n gyffredinol ac rydym o'r farn eu bod yn berthnasol ym mhob awdurdodaeth, i raddau mwy neu lai, yn dibynnu ar y man cychwyn. Maent yn creu 'bag siopa o ddiwygiadau'²⁰ ar gyfer llywodraethau, y gymdeithas sifil a menywod a dynion o bob oed, sy'n gweithio ar lawr gwlad ym mhob gwlad ac yn rhyngwladol i greu newid systemaidd yn y byd gwleidyddol i fod yn fwy cynhwysol o fenywod.

Mynegwyd dyhead cyffredin ymhlith y cyfranogwyr i ganfod ffyrdd o gydweithio ymhellach, i ddod ynghyd, wyneb yn wyneb a thrwy ddefnyddio technoleg. Bwriedir i'r argymhellion adlewyrchu'r safbwynt a glywsom fod angen i bob gwlad sicrhau cydbwysedd rhwng creu eu llwybr eu hunain a throsi arferion o'r lluo o syniadau a gweithredoedd a welir mewn manau eraill.



© Stuart Armit

YMGYRCHU GAN FENYWOD A CHWAEROLIAETH

1. Parhau i greu gofodau rhanbarthol a rhyngwladol i fenywod sy'n wleidyddion, ymgyrchwyr, y gymdeithas sifil a gweision sifil i ddod at ei gilydd i gysylltu, rhannu a dysgu mewn cyd-destun trawswladol, a galluogi menywod i gymryd rhan ynddynt.
2. Sicrhau adnoddau i sefydliadau menywod cymdeithas sifil er mwyn cyrraedd menywod a'u galluogi i ddod yn weithredwyr gwleidyddol llawn drwy godi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth a hyfforddiant, a mynd i'r afael â rhwystrau ariannol uniongyrchol i'w hymgeisyddiaeth, megis gofal plant a chostau ychwanegol anabledd.
3. Galluogi cymdeithas sifil gref a bywiog o fenywod i ddod at ei gilydd, gan gynrychioli amrywiaeth lawn bywydau a phrofiadau menywod a sicrhau mynediad at rym a phenderfynwyr fel arbenigwyr, drwy fecanweithiau gan gynnwys llwyfan ffurfiol i fenywod.

Y RHEOLAU

4. Defnyddio dulliau fframweithiau cydraddoldeb rhwng y rhywiau rhyngwladol – CEDAW, Beijing a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy – drwy ymrwymadau cyfreithiol gorfodol sy'n sicrhau diwylliant o uchelgais a chydymffurfiaeth gyda thargedau byd-eang ar gynrychiolaeth gyfartal i fenywod mewn grym a gwleidyddiaeth.
5. Gweithredu mecanweithiau tryloyw a chynhwysfawr ar gyfer casglu, dadansoddi a chyhoeddi data ar fenywod mewn gwleidyddiaeth o ymgeisyddiaeth i etholiad ac i swyddi uwch, ar lefel leol a chenedlaethol, gan gynnwys data ar ryngblethu rhywedd gyda dosbarth, hil, anabledd, oedran a chrefydd.
6. Defnyddio dulliau rheoleiddio pleidiau a mesurau arbennig dros dro, gan gynnwys cwtâu wedi'u deddfu a llwybrau deddfwriaethol eraill, i sicrhau niferoedd cyfartal o ymgeiswyr benywaidd mewn seddi y mae modd eu hennill, a sicrhau y caiff menywod eu derbyn yn gyfartal a'u trin â thegwch a pharch mewn pleidiau gwleidyddol.

Y GWEITHLE GWLEIDYDDOL

7. Darparu adnoddau a chamau deddfwriaethol i fynd i'r afael â natur ryweddol trais a chamdriniaeth sy'n targedu menywod a gwleidyddion benywaidd, o fewn symudiadau ehangach i orfodi rheoleiddio gweithgarwch ac ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn briodol.
8. Defnyddio fframwaith Seneddau Sensitif o ran Rhywedd a osodwyd gan yr Undeb Rhyng-Seneddol i archwilio'r holl ddeddfwrfeydd sy'n gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

9. Gweithredu i alluogi menywod a dynion mewn gwleidyddiaeth, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i fod yn rhieni gweithredol.

ROLAU ARWAIN

10. Cydnabod, cefnogi a dathlu menywod fel arweinwyr ar draws plattfformau diwylliannol a chyfryngol, fel modelau rôl i ferched, gan normaleiddio arweinyddiaeth gan fenywod.
11. Herio dynion i arwain ar gydraddoldeb i fenywod drwy wrando, camu'n ôl a gwerthfawrogi menywod; dathlu'r dynion sy'n gwneud hyn a thynnu sylw at ymddygiad y rhai sy'n tanseilio arweinyddiaeth menywod.
12. Arweinwyr gwleidyddol a phleidiau i ddadlau'r achos yn gyson o ran manteision sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau i bawb, drwy ddangos camau clir i greu newid ac amlygu'r effaith a'r enillion.

BYD SY'N NEWID?

13. Darparu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth sy'n sensitif i rywedd y tu mewn a'r tu allan i ysgolion o oedran ifanc sy'n galluogi pobl ifanc i herio ystrydebau rhywedd, deall arweinyddiaeth amrywiol a datblygu ffyrdd beirniadol o feddwl.
14. Gwerthfawrogi a gwobrwoyo gwaith gofalu, a normaleiddio rhianta ar y cyd drwy newid deddfwriaethol, yn y gweithle a newid diwylliant yn ehangach.
15. Rhagweld cyfleoedd i ddylunio newidiadau sy'n mewnosod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y system drwy ddefnyddio dulliau prif ffrydio megis cyllidebu yn ôl rhyw ac asesiadau effaith rhywedd sy'n cynnwys gwerthusiad ystyrlon o effaith.



© Stuart Armitt

CYFRANWYR A DIOLCHIADAU

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan y British Council: Gillian Cowell, Pennaeth Rhywedd a Chynhwysiant; ac Anna O'Flynn, Ymgynghorydd, Rhywedd a Chynhwysiant.

Cyflawnwyd y gwaith ymchwil ac ysgrifennu gan Eve Holt a Nicola Waterworth, Happen Together CIC, a Dr Helen Mott gyda Gillian Cowell, Anna O'Flynn a Janet Veitch OBE, Ymgynghorydd Cyswllt Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a Grŵp Cynghori Cymdeithas y British Council. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn o holl wledydd Prydain ac yn rhyngwladol, am roi eu hamser a'u sylw, ac am wneud hynny o'r galon ac yn ddiwyll i gefnogi cyfleoedd pellach i newid.

ROEDD AELODAU'R GRŴP YMGYNGHORI YN CYNWYS:

Julie Ballington, Menywod y Cenhedloedd Unedig; yr Athro Sarah Childs, Birkbeck, Prifysgol Llundain; yr Athro Yvonne Galligan, Prifysgol Queen's, Belffast; Amina Lone, y Sefydliad Gweithredu ac Ymchwil Cymdeithasol; a Tamara Alkhas, Renata Coccaro, Zeenia Faraz, Camila Morsch, Siobhan Foster-Perkins, Emma Skelton, Christopher Wade, Alice Wekesa, Christine Wilson ac Isabelle Younane, British Council.

CYNHALIWDYD CYFWELIADAU'R YMCHWIL GYDA'R RHANDEILIAID CANLYNOL:

Lesley Abdela MBE, Uwch Bartner, Shevolution Consultancy; y Farwnes Haleh Afshar, Athro Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerefrog; yr Athro Joan Ballantine, Prifysgol Ulster; Julie Ballington, Menywod y Cenhedloedd Unedig; Maggie Baxter OBE, Womankind Worldwide; Catherine Bearder ASE (Democratiaid Rhyddfrydol); y Farwnes Sally Brinton, Tŷ'r Arglwyddi (Democratiaid Rhyddfrydol); Dawn Butler AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Fenywod a Chydraddoldebau (Llafur); Sarah Champion AS (Llafur); yr Athro Sarah Childs, Birkbeck, Prifysgol Llundain; Dr Marianne Coleman, Darllenydd Emeritws mewn Arweinyddiaeth Addysgol yn y Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain; Meenakshi Dhar, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad; Rosie Duffield AS (Llafur); Kezia Dugdale ASE, cyn-arweinydd Plaid Lafur yr Alban; Lu Eccleston, yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol; John Edmonds, academydd ac awdur *The Stalled Revolution*; y Gwir Anrhydeddus Harriet Harman CF AS, cyn-arweinydd yr Wrthblaid (Llafur); Helen Haywood, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad; Bronagh Hinds, DemocraShe a Grŵp Polisi Menywod (Gogledd Iwerddon); Sharon Hodgson AS (Llafur); Louise Kennedy, Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Gogledd Iwerddon; yr Athro Mona Lena Krook, Prifysgol Rutgers (New Jersey); Jacira Melo, Instituto Patricia Galvao (Brasil); y Gwir Anrhydeddus Maria Miller AS, Cadeirydd Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau (Ceidwadol); Meg Munn, Bwrdd Cynghori Cymdeithas y British Council; Dr Andy Mycock, Prifysgol Huddersfield; Shannon O'Connell, Sefydliad Democratiaeth San Steffan; Maria Osman, arbenigydd Menywod a Chydraddoldebau (Awstralia); Dr Sonia Palmeiri, ymgynghorydd Rhywedd ac Arweinyddiaeth Wleidyddol; Jess Phillips AS (Llafur); Sarah Pickup, y Gymdeithas Llywodraeth Leol; y Farwnes Margaret Prosser, Tŷ'r Arglwyddi (Llafur); yr Athro Shirin Rai, Prifysgol Warwick; Yasmin Rehman, ffeminydd ac ymgyrchydd dros hawliau dynol; Joanna Roper, Cennad Arbennig y Swyddfa Dramor a Chymanwlad dros Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau; Claire Sugden MLA, Aelod o'r Grŵp Hollbleidiol ar Benderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig 1325 Menywod, Heddwch a Diogelwch (Unoliaethwyr); Karibaiti Taoaba, Fforwm Llywodraeth Leol y Gymanwlad; Lisane Thirsk, ParlAmericas; Angela Thoko Didiza, cyn-weinidog De Affrica ac AS; yr Anrhydeddus Patricia Ann Torsney, Sylwedydd Parhaol Undeb Rhyng-Seneddol i'r Cenhedloedd Unedig; Eva Tutchell, academydd ac awdur *The Stalled Revolution*; y Farwnes Verma, Tŷ'r Arglwyddi (Ceidwadwyr); Amelia Womack, Dirprwy Arweinydd y Blaid Werdd.



© Stuart Armit

ROEDD Y CYFRANOGWYR YN Y CYFARFODYDD BORD GRON A GYNHALIWDY YN YSTOD YR YMCHWIL YN CYNNWYS:

Amna Abullatif, Rhwydwaith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Manceinion, Polisi Tramor Ffeminyddion Rhyngwladol a'r Platfform Menywod; Harriet Andrews, The Politics Project; Clare Bailey ASE, Is-Gadeirydd y Grŵp Hollbleidiol ar Benderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig 1325 Menywod, Heddwch a Diogelwch (y Blaid Werdd); Adele Baumgardt, ymgynghorydd annibynnol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth; Vicky Booth, Prosiect y Senedd; Dawn Bowden AC (Llafur Cymru); Ruth Boyle, Cyngor yr Alban ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol; Dr Heather Brunskell-Evans, FiLiA; Lynn Carvill, Women's TEC; Sharonjit Clare, Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr; Dr Deborah Donnelly, Grŵp Polisi Menywod (Gogledd Iwerddon), Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon a Phrifysgol Ulster; y Cynghorydd Susan Elsmore, Cyngor Caerdydd a chyd-lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Gydraddoldebau, Diwygio Lles ac yn Erbyn Tlodi (Llafur); yr Athro Francesa Gains, Prifysgol Manceinion; yr Athro Yvonne Galligan, Prifysgol Queen's, Belfast; Lorna Gilfillan, Confensiwn Menywod yr Alban; Theresa Grant, Awdurdod Lleol Trafford; Devia Gurjar, Girlguiding; Sian Gwenllian AC (Plaid Cymru); Bethan Harris, SheVotes a WeAreEurope; Melanie Hawthorne, Oxfam Cymru; y Farwnes Beverley Hughes, Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (Llafur); Jacqui Hunt, Equality Now; Laura Hutchinson, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Lesley Irving, Llywodraeth yr Alban; Joanne Jennings, Politics Plus; Mikayla Jones, Uprising Birmingham; yr Athro Jackie Jones, Prifysgol Gorllewin Lloegr; Ann Jones AC, Dirprwy Lywydd, Cynulliad Cenedlaethol (Llafur Cymru); Jane Kemp, West Midlands Women's Voice; Dr Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin; Catriona Kirkpatrick, Engender; Eileen Lavery, Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon; Liz Law, arbenigydd annibynnol ar gydraddoldeb; Eleanor Lisney, Sisters of Frida; Kirsty Livingstone, Sefydliad Cyfarwyddwyr yr Alban; Lucy Lomas, y Blaid Cydraddoldeb Menywod; May Low, Menywod yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth; Louise Magee, Llafur Cymru; Roisin Mallon, Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon; yr Athro Laura McAllister, Prifysgol Caerdydd; Carol McCabe, yr Adran dros Gymunedau (Gogledd Iwerddon); Kate McCullough, Platfform Ewrop Menywod Gogledd Iwerddon; Louise McDonald, Cadeirydd Cyngor Ymgynghorol Cenedlaethol y Prif Weinidog dros Fenywod a Merched (yr Alban); Patricia McKeown, UNISON; Virginia McVea, Prif Swyddog Etholiadol, Gogledd Iwerddon a chyn Gyfarwyddwr Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon; Anne McVicker, Asiantaeth Adnoddau a Datblygu Menywod Gogledd Iwerddon;

Amanda Millar, Changing the Chemistry; Auriol Miller, y Sefydliad Materion Cymreig; Jonna Monaghan, Platfform Ewrop Menywod Gogledd Iwerddon; Clare Moore, NIC-ICTU; Mike Nesbitt MLA, Ysgrifennydd y Grŵp Hollbleidiol ar Benderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig 1325 Menywod, Heddwch a Diogelwch (Unoliaethwyr Ulster); Ruth Nortey, Anabled Cymru; Dr Julie Nugent, Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr; Jemima Olchawski, Cymdeithas Fawcett; Naomi Paxton; Ymchwilydd, perfformwraig a #Vote100: What Difference Did the War Make? Senedd y Deyrnas Unedig gynt; Emma Plant, Cymdeithas Diwygio Etholiadol yr Alban; Leah Rea, Is-Gadeirydd SDLP Ieuencid; Rayner Rees, Soroptomist International; Sarah Rees, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Simone Roche MBE, Menywod Grymus Gogledd Lloegr; Hannah Russell, Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon; Frances Scott, Senedd 50:50; Louise Scott, Llywodraeth yr Alban; Nan Sloane, y Ganolfan ar gyfer Menywod a Democratiaeth; y Cynghorydd Elyn Stephens, Rhondda Cynon Taf (Plaid Cymru); y Cynghorydd Angeliki Stogia, Cyngor Dinas Manceinion (Llafur) a chyd-sylfaenydd DivaManc; Gwyneth Sweatman, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; Rebecca Thomas, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Jemma Tracey, YWCA yr Alban; Dr Khursheed Wadia, y Rhwydwaith Menywod Mwslemaidd; Hilary Watson, Rhwydwaith Menywod Cymru; Joyce Watson AC (Llafur Cymru); Jessica Williams, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Melissa Wood, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Cymru; Rhiannon Wyn Hughes MBE, cyn-arweinydd Cyngor Sir Ddinbych (Annibynnol) a Phwyllgor Cynghori Cymru y British Council; Bethany Young, Sisters of Frida


Roedd unigolion eraill a gyfrannodd yn cynnwys: Neha Chauhan, Hwb Asia Pasiffig IPPF; Preet Gill AS (Llafur); Sue English, Sefydliad Democratiaeth San Steffan; Bea Campbell, ymgyrchydd ac awdur *Why Won't Patriarchy Die?*

ADRAN DATA A THABLAU DATA

Mae gwybodaeth am gynrychiolaeth menywod ar lefel llywodraeth leol (yn cwmpasu trefniadau taleithiau/dinasoedd, rhanbarthau ac yn lleol) yn fyd-eang yn fwy heriol nag ar lefel seneddau gwladol; [nid yw'r gyfran fyd-eang yn hysbys](#) ac yng ngwledydd Prydain, caiff data ei gasglu gan gymdeithas sifil yn unig, gan Gomisiwn Cymdeithas Llywodraeth Leol Fawcett yn 2017. Mae dod o hyd i ddatrysiadau ar gyfer y data hwn yn fater pwysig o ran adrodd a [Nod Datblygu Cynaliadwy 5 Menywod y Cenhedloedd Unedig](#).

Yng ngwledydd Prydain [yn draddodiadol] mae patrymau'n dangos bod cynrychiolaeth ar lefel leol yn is na'r rhai cenedlaethol; ar hyn o bryd mae Lloegr yn gyfartal â San Steffan, ac mae [cynulladau cenedlaethol] oddeutu 25 y cant [ffigurau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig/anabled]. Er i'r Alban newid i Bleidlais Sengl Drosgrwyddadwy yn 2007, system yr ystyrir ei bod yn gyffredinol well ar gyfer cynhwysiant, ni newidiodd cynrychiolaeth menywod ar lefel llywodraeth leol yn yr Alban rhwng 2012 a 2017, 'sy'n dangos [i Dr Meryl Kenny] mai dim ond un hwylusydd newid yw systemau pleidleisio'.²¹

HAWL MENYWOD I BLEIDLEISIO – Y STORI RYNGWLADOL




* ac eithrio pobl frodorol Awstralia

+ Menywod dros 30 oed ag eiddo yn unig

† ac eithrio menywod y Cenhedloedd Cyntaf

LLINELL AMSER



**1832
1835**
Deddf Diwygio a Deddf Corfforaethau Trefol 1835 yn gwahardd menywod yn benodol rhag pleidleisio

1867
Ffurio Cymdeithas Llundain ar gyfer y Bleidlais i Fenywod

1869
Y Ddeddf Etholfraint Trefol yn ehangu'r bleidlais i fenywod sengl sy'n talu trethi mewn etholiadau lleol

1870
Deddf Eiddo Menywod Priod
Deddf Addysg Gynradd

1888
Y Ddeddf Cyngorau Sir yn rhoi'r hawl i fenywod sy'n talu trethi i bleidleisio mewn cyngorau sir a bwrdeistref

1889
Y Fonesig Sandhurst (Brixton) a Jane Cobden (Bow) yn cael eu hetholi i Gyngorau Sir, y menywod cyntaf i wneud hynny

1894
Y Ddeddf Llywodraeth Leol

1897
Sefydlu'r Undeb Cenedlaethol ar gyfer Cymdeithasau'r Bleidlais i Fenywod (NUWSS)

1903
Sefydlu'r Undeb Cymhwyster Menywod (Cyngorau Dinas a Bwrdeistref)

1907
Roedd y Ddeddf Cymhwyster Menywod yn egluro hawl rhai menywod sy'n talu trethi i gael eu hetholi i gyngorau bwrdeistref a sir ar ôl blynyddoedd o ansicrwydd a dryswch, a oedd yn cynnwys heriau cyfreithiol pan geisiodd rhai menywod sefyll ar gyfer Cyngor Sir Llundain am y tro cyntaf.

1908
Elizabeth Garrett Anderson yn dod yn fenyw gyntaf i gael ei hetholi yn Faer pan gaiff ei dewis ar gyfer y swydd yn Aldeburgh

1917
Cynhadledd ar ddiwygio etholiadol yn argymhell pleidlais gyfyngedig i fenywod

1918
Diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl
Deddf y Senedd (Cymhwyster Menywod)
Yr Etholiad Cyffredinol cyntaf lle'r oedd gan fenywod yr hawl i bleidleisio
Daeth Constance Markievicz yn Aelod Seneddol benywaidd cyntaf i gael ei hetholi i Dŷ'r Cyffredin

1976
Deddf Cysylltiadau Hilol
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn dod i rym i oruchwylio'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw a'r Ddeddf Cyflog Cyfartal

1975
Menywod o Gymru yn gyrru i Frwsel i gyflwyno'r ddeiseb gyntaf i Senedd Ewrop ar Hawliau Menywod

1970
Y Ddeddf Cyflog Cyfartal yn gwahardd triniaeth lai ffafriol rhwng dynion a merched o ran tâl ac amodau cyflogaeth

1969
Streic peirianyddion Ford Dagenham
Comisiwn Cenedlaethol y Menywod yn cael ei sefydlu fel corff cynghori cyhoeddus anadrannol

1968
Barbara Castle yn dod yn Ysgrifennydd Gwladol benywaidd cyntaf, fel Ysgrifennydd Gwladol dros Gyflogaeth

1967
Y bilsen atal cenhedlu bellach ar gael drwy glynigau cynllunio teulu

1963
Y Ddeddf Arglwyddiaethau yn rhoi'r hawl i arglwyddi am oes benywaidd eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi

1958
Y Ddeddf Arglwyddiaethau yn rhoi'r hawl i arglwyddi am oes benywaidd eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi

1953
Patricia Ford, y Fonesig Fisher, yw'r Aelod Seneddol benywaidd cyntaf yng Ngogledd Iwerddon

1945
Diwedd yr Ail Ryfel Byd

1929
Etholiad y Flappers
Megan Lloyd George yn cael ei hetholi fel Aelod Seneddol benywaidd cyntaf Cymru

1928
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (Etholfraint Gyfartal)

1923
Katherine Murray yn dod yn Aelod Seneddol benywaidd cyntaf yr Alban, gan ennill sedd Kinross a Gorllewin Perthshire i'r Ceidwadwyr

1919
Nancy Astor (Is-Iarlles Astor) yn cael ei hetholi fel yr Aelod Seneddol benywaidd cyntaf i gael sedd yn Nhŷ'r Cyffredin, gan gymryd y sedd y bu i'w gwr roi'r gorau iddi'n flaenorol

1977
Streic Grunwick

1979
Margaret Thatcher yn dod yn Brif Weinidog
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW) yn cael ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

1980
Lesley Abdela yn sefydlu'r Grŵp Hollbleidiol y 300 Y grŵp i wthio am gynrychiolaeth gyfartal

1981
Y Farwnes Young yn dod yn arweinydd benywaidd cyntaf Tŷ'r Arglwyddi

**1984
1985**
Streic y Glowyr

1985
Y Ddeddf Cyflog Cyfartal (Diwygio)

1986
Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Diwygio)
Y Deyrnas Unedig yn cadarnhau CEDAW

1987
Diane Abbott, yr Aelod Seneddol benywaidd du cyntaf, yn cael ei hetholi

1992
Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Trais yn Erbyn Menywod 1993

1993
Ffurio Clymbiaid Menywod Gogledd Iwerddon, plaid weidyddol draws-gymunedol i sicrhau y caiff menywod 'eu hysgrifennu i mewn, yn hytrach nag allan' o broses heddwch Gogledd Iwerddon

1995
Datganiad Beijing

**1996
2006**
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb

1997
120 o fenywod yn cael eu hetholi i Senedd y Deyrnas Unedig, y mwyaf erioed

1998
Deddf Hawliau Dynol yr Undeb Ewropeaidd
Cytundeb Belfast, a gaiff ei adnabod fel Cytundeb Gwener y Groglieth

1999
Diwygio Tŷ'r Arglwyddi
Yr etholiadau cyntaf i lywodraethau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban.
Ers 1999 mae gweinyddiaethau Cymru a'r Alban wedi bod â chanran uwch o aelodau benywaidd na San Steffan.

2017
Ethol Maerau Metro - y saith ohonynt yn ddydion
Cyflwyno rheoliadau ar adrodd am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu (yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

2016
Refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd
Theresa May yn cael ei hetholi fel yr ail Brif Weinidog benywaidd

2015
Y Blaid Cydraddoldeb Menywod yn cael ei sefydlu gan yr awdur a'r gohebydd Catherine Mayer ar darlledydd a'r awdur Sandi Toksvig

2014
Y Pwylgor Dethol Menywod a Chydraddoldebau yn cael ei sefydlu i archwilio gwariant a gweinyddiaeth Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth

2013
Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

2012
Etholiad Cyntaf Comisiynyw'r Heddlu a Throseddau
Frances O'Grady yw'r fenyw gyntaf i gymryd swydd Ysgrifennydd Cyffredinol Cynghres yr Undebau Llafur

2010
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb

2007
Penodi Jacqui Smith fel Ysgrifennydd Cartref benywaidd cyntaf y Deyrnas Unedig

2006
Comisiwn Cenedlaethol y Menywod yn cael ei gau
Cynhadledd Llafarydd Senedd y Deyrnas Unedig ar Gynrychiolaeth yn y Senedd

2005
Erbyn 2005, menywod yw 50 y cant o aelodaeth undebau llafur

2003
Cymru'n dod yn wlad gyntaf i gael cynrychiolaeth 50:50 o ddydion a menywod

2000
Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
Etholiadau cyntaf ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf a Maer Llundain
Penderfyniad 1325 Cynghors Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ar Fenywod, Heddwch a Diogelwch

2018

